

# **Cydarolygiad o driniaeth troseddwr ag anableddau dysgu o fewn y system cyfiawnder troseddol – rhan dau – yn y ddalfa a'r gymuned**

**Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi**

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**

**Mawrth 2015**

**BWRIADOL WAG**

# Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i bawb o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn; heb eu cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl. Hoffem hefyd ddiolch i CHANGE, y sefydliad a gynlluniodd y ddogfennaeth Hawdd ei Ddarllen, a'i dim geiriau a lluniau, sy'n cynnwys unigolion ag anabledd dysgu, a brofodd y daflen gyfweld a'r ffurflen gydsynio inni.

Hoffem, yn benodol, ddiolch i'r staff yn y cyn-yymddiriedolaethau prawf a'r carchardai canlynol: Swydd Gaergrawnt, Cumbria, Humberside, Llundain, Cymru (y Gogledd) a Wiltshire. Ymwelasom hefyd â Charchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Bronzefield, Carchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Littlehey, Carchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc New Hall, Carchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Parc a Charchar Ei Mawrhydi Wandsworth.

<b>Arolygydd Arweiniol</b>	Les Smith, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
<b>Dirprwy Arolygydd Arweiniol</b>	Caroline Nicklin, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
<b>Tîm Arolygu</b>	Samantha Galisteo, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i>  Karina Hepworth, <i>Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Kirklees</i>  Rachel Murray, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i>  Andy Rooke, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i>  Joe Simmonds, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i>  Paul Tarbuck, <i>Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi</i>
<b>Gwasanaethau Cymorth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</b>	Adam Harvey, <i>Swyddog Gweithrediadau</i>  Joanna Hewitt, <i>Swyddog Gweithrediadau</i>  Stephen Hunt, <i>Swyddog Gweithrediadau</i>  Oliver Kenton, <i>Swyddog Ymchwil Cynorthwyol</i>  Alex Pentecost, <i>Rheolwr Cyfathrebu</i>  Henry Skwarczynski, <i>Swyddog Gweithrediadau</i>  Rob Turner, <i>Rheolwr Gweithrediadau</i>

---

**Prif Arolygydd  
Cynorthwyol**

Andy Smith, *Arolygiaeth Prawf Ei  
Mawrhydi*

# Rhagair

Hwn yw'r ail o ddau adroddiad arolygu yr ydym wedi ei gynhyrchu ynghylch troseddwy ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol. Fe wnaeth ein hadroddiad cyntaf<sup>1</sup>, a gyhoeddwyd yn 2014, edrych ar yr hyn oedd yn digwydd pan gaiff rhywun ei arestio ac yn nalfa'r heddlu, ymlaen at pan fo rhywun yn ymddangos mewn llys am y tro cyntaf a'i ddedfrydu.

Tynasom sylw at ansawdd gwael gwasanaethau, y prosesau aneffeithlon a'r dryswch ymysg staff yn yr heddlu, gwasanaeth y llysoedd a'r gwasanaeth prawf ynghylch beth yw anabledd dysgu.

Yn yr adroddiad hwn, cyflwynwn ddarlun yr un mor ddu ynghylch profiad troseddwy ag anableddau dysgu yn y carchar a tha'n destun goruchwyliaeth yn y gymuned. Rydym o'r farn fod diffyg sylw digonol ac arweiniad o'r canol sydd wedi golygu mai ychydig o gynnydd gweladwy sydd wedi cael ei wneud o ran gwella bywydau'r grŵp bregus hwn o droseddwy. Yn benodol, ni roddwyd blaenoriaeth ddigonol i'r angen i wneud addasiadau angenrheidiol i wasanaethau fel y'u pennir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010* gan arweinwyr carchardai na chan arweinwyr y gwasanaeth prawf.

Yn y carchardai yr ymwelasom â hwy cawsom ein dychryn o weld systemau hynod o wael ar gyfer adnabod carcharorion ag anableddau dysgu; yn un carchar dywedwyd wrthym hyd yn oed na allent adnabod un carcharor a oedd ag anbledd dysgu. Mae'r diffyg adnabod hwn yn annerbyniol. Hyd yn oed lle cafodd anabledd dysgu ei adnabod, nid oedd digon o ystyriaeth yn cael ei roi iddo bob amser ym mhrosesau'r carchar megis rheoli carcharorion a mesurau gwrth-fwlio; nid oedd yn syndod felly fod rhai carcharorion ag anabledd dysgu wedi dweud wrthym amdanynt yn mynd i helynt gyda staff neu'n cael eu bwlio oherwydd eu hanabledd dysgu. Rydym yn bryderus hefyd nad oedd fawr o feddwl yn cael ei roi i'r angen i addasu cyfundrefnau i ddiwallu anghenion carcharorion ag anghenion dysgu a all ei chael hi'n anodd iawn deall a dilyn gweithdrefnau carchardai. O ganlyniad, mae carcharorion ag anableddau dysgu mewn perygl o gael amser llawer iawn mwy anodd yn y carchar na carcharorion eraill.

Bydd gweithredu *Deddf Gofal 2014* o fis Ebrill 2015 ymlaen yn gosod cyfrifoldeb ar asesu a chymorth gofal cymdeithasol i'r rheini ag anableddau dysgu mewn carchardai a safleoedd cymeradwy ar yr awdurdod lleol. Gobeithiwn y bydd hynny'n golygu y bydd cydraddoldeb asesu a chymorth mewn dalfeydd a lleoliadau cymunedol fel ei gilydd.

Yn y gymuned, roedd y sefyllfa ychydig yn well; fodd bynnag roedd yn dal i fod lle am welliant sylweddol. Roedd adnoddau sgrinio i adnabod troseddwy oedd ag anableddau dysgu ar gael yn amlach nag mewn carchardai, ond roeddent yn cael eu defnyddio'n anghyson. Roedd llawer o'r gwaith gan staff y gwasanaeth prawf yn golygu ymwneud ag anghenion cymdeithasol a lles, yn hytrach na gwaith cysylltiedig â throseddu. Er bod rhai enghreifftiau o waith rhagweithiol yn cael ei wneud gyda throseddwy ag anableddau dysgu, eithriad oedd hyn yn hytrach na'r arferol.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ceisio rhoi llais i droseddwy sy'n aml yn cael eu hymylu. Wrth wneud hynny gobeithiwn ein bod wedi adnabod pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau yr ymdrinir â hwy yn deg, bod gwasanaethau ar gael iddynt, ac yn bwysicaf oll, eu bod yn cael help i roi'r gorau i droseddu.

**Paul Wilson CBE**  
**Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**

**Nick Hardwick CBE**  
**Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi**

---

<sup>1</sup> Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Ionawr 2014) *Cydarolygiad o driniaeth troseddwy ag anableddau dysgu, o fewn y system cyfiawnder troseddol – cam un – o'r arestio at y dedfrydu.*

**Mawrth 2015**

# Cynnwys

Tudalen

<b>Cydnabyddiaeth</b>	<b>3</b>
<b>Rhagair</b>	<b>4</b>
<b>Crynodeb o'r canfyddiadau</b>	<b>6</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>12</b>
<b>1. Strwythur yr arolygiad</b>	<b>14</b>
<b>2. Arweiniad cenedlaethol a lleol</b>	<b>18</b>
<b>3. Sgrinio ac adnabod cynnar</b>	<b>23</b>
<b>4. Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu</b>	<b>27</b>
<b>5. Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu</b>	<b>45</b>
<b>Atodiad 1 Geirfa</b>	<b>57</b>
<b>Atodiad 2 Rôl yr arolygiaethau a'r cod ymddygiad</b>	<b>60</b>

# Crynodeb o'r canfyddiadau

## Cyd-destun

Fe wnaeth Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol gomisiynu dau arolygiad cysylltiedig am brofiad pobl ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol a'u hymgorffori hwy i *Gynllun Busnes Cydarolygiadau 2013-2015*. Cafodd yr arolygiadau eu comisiynu yn dilyn nifer o adroddiadau, gan gynnwys adroddiad Comisiwn Bradley<sup>2</sup>, a oedd yn mynegi pryder ynghylch methiant asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu a oedd wedi troseddu. Y cylch gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer y ddau arolygiad oedd:

*'Asesu ansawdd ac effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â throseddwyr ag anableddau dysgu, er mwyn sicrhau gwasanaethau a chymorth addas, o fewn o system cyfiawnder troseddol a'r tu allan iddi.'*

Drwy gydol yr arolygiadau, defnyddiwyd y term 'anabledd dysgu' i gynnwys y bobl hynny sydd ag IQ wedi ei fesur i fod o dan 70, a'r rheini rhwng 70 ac 80, sy'n cael eu hasesu'n arferol fel rhai sy'n anaddas i ddilyn rhaglenni achrededig cymunedol ac yn y carchar. Cyfeirir at y grŵp hwn o bobl weithiau fel pobl ag anabledd deallusol a datblygiadol. Rydym wedi defnyddio'r term 'anabledd dysgu' hefyd i gynnwys pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Nid ydym wedi cynnwys pobl a aseswyd gyda dyslecsia yn unig.

Yn ein harolygiad cyntaf o brofiad pobl ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol o'r pwynt arestio at y dedfrydu, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, canfuom nad oedd diffiniad na chytundeb clir yn bod ar draws sefydliadau cyfiawnder troseddol, iechyd a gofal cymdeithasol ynghylch beth yw anableddau neu anawsterau dysgu. Er y credir eu bod yn lleiafrif sylweddol, o bosibl cyn uchod â 30%, nid oes gennym unrhyw ffordd o wybod y nifer o bobl gyda chyflyrau o'r fath o fewn y system cyfiawnder troseddol. O ganlyniad, nid yw asiantaethau bob amser yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer diwallu eu hanghenion penodol, ac ymddengys yn aml nad oes neb yn sylwi ar yr anghenion hyn. Yn yr adroddiad hwn, gwnaethom nifer o argymhellion sy'n anelu at wella'r sefyllfa.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o'r ail o'r ddau arolygiad o driniaeth y rheini ag anableddau dysgu sy'n cyflawni dedfrydau yn y gymuned neu yn y carchar (wedi eu dedfrydu neu ar remánd). Mae'r adroddiad yn ymdrin â gweithgaredd carchardai a gwasanaethau prawf ac yn canolbwyntio ar asesu, cynllunio a chyflawni ymyraethau i droseddwyr yn y gymuned ac yn y carchar. Fe wnaethom hefyd archwilio triniaeth, gofal ac ailsefydlu diogel carcharorion ag anabledd dysgu.

## Yr arolygiad

Cydarolygiad oedd hwn o dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gyda chefnogaeth Arolygwyr Carchardai Ei Mawrhydi. Edrychasom ar driniaeth y rheini yn y carchar a'r rheini oedd yn cyflawni dedfrydau cymunedol. Yn y gymuned, edrychodd arolygwyr Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar waith yr ymddiriedolaethau prawf, gan ganolbwyntio'n benodol ar waith i leihau aildroseddu a'r risg o niwed i eraill yr oedd y troseddwr yn ei beri. Roeddem yn awyddus hefyd i weld pa ymyraethau oedd yn cael eu cyflawni gyda'r grŵp hwn o droseddwyr.

Ers i waith maes yr arolygiad gael ei wneud, mae ymddiriedolaethau prawf wedi cael eu disodli gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, sy'n goruchwyllo'r mwyafrif o droseddwyr yn y gymuned a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sy'n goruchwyllo'r troseddwyr hynny sy'n peri'r risg uchaf o niwed i'r cyhoedd. Mae ffactorau a godwyd yn yr adroddiad hwn ar adeg ei gyhoeddi ynghylch

---

<sup>2</sup> *Adolygiad o bobl â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol* (Ebrill 2009).



ymdiriedolaethau prawf yn berthnasol i Gwmniau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a'u cyfrifoldeb hwy fydd gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwaith yn y gymuned.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014. Ymwelasom â chwe ymdiriedolaeth brawf a phum sefydliad carchar:

- dau garchar lleol categori B
- un carchar hyfforddi categori C
- dau garchar lleol menywod

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn edrych ar ddarpariaeth i oedolion ac oedolion ifanc ag anabledd dysgu, yn ddynion a merched 18 oed a hŷn.

Cyn yr arolygiad, roeddem yn ymwybodol o ganllawiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyrs ers 2010/2011 ar driniaeth troseddwyrs/carcharorion ag anableddau dysgu. Roedd gennym ddiddordeb mewn gweld beth oedd arweinwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyrs ac arweinwyr lleol mewn ymdiriedolaethau prawf a charchardai wedi'i wneud i weithredu'r canllawiau hynny.

Roeddem yn dibynnu ar ymdiriedolaethau prawf a rheolwyr carchardai i adnabod pobl ag anableddau dysgu o dan eu goruchwyliaeth ar adeg yr arolygiad. Profodd hyn i fod yn broblematig i staff mewn carchardai a oedd yn ei chael hi'n anodd adnabod mwy na nifer bach iawn o garcharorion ag anableddau dysgu. Er syndod inni, roedd un carchar yn methu ag adnabod dim un o gwbl ac roedd un arall nad oedd ond yn gallu adnabod un carcharor unigol ar remánd.

Mewn carchardai, fe wnaeth arolygwyr o Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ganolbwyntio ar driniaeth carcharorion ag anableddau dysgu i sicrhau eu bod yn derbyn mynediad teg at wasanaethau, nad oeddent yn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i ddiwallu eu hanghenion gofal lle bo angen hynny. Fe wnaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi arolygu gwaith unedau rheoli troseddwyrs carchardai i adsefydlu carcharorion ag anableddau dysgu. Roedd ailsefydlu diogel yn cynnwys gwaith ar y cyd cyn rhyddhau a chydgyssylltu â rheolwyr troseddwyrs a gwasanaethau anableddau dysgu yn y gymuned.

Fel rhan o'n tystiolaeth ar gyfer yr arolygiad hwn, cyfwelasom â charcharorion a defnyddwyr gwasanaethau prawf oherwydd teimlem ei bod yn bwysig sicrhau bod safbwyntiau pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael eu cynnwys ac fe wnaeth hyn ein helpu i ffurfio ein dyfarniadau.

## **Canfyddiadau cyffredinol**

O fewn y gwasanaeth prawf, roedd adnabod y troseddwyrs hynny oedd ag anableddau dysgu yn dal i fod yn broblem oherwydd nad oedd adnoddau sgrinio yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn yr adroddiad cyn-dedfrydu na'r cam sefydlu. Roedd gor-ddibyniaeth hefyd ar ddatgelu bodolaeth anableddau dysgu gan y troseddwr/carcharor neu eu teulu. Roedd y broblem yn fwy arwyddocaol fyth mewn carchardai. Dim ond un o'r carchardai yr ymwelasom â hwy oedd yn defnyddio adnoddau sgrinio i bawb o'r carcharorion yn ystod y broses dderbyn, ac anaml y câi gwybodaeth ynghylch anableddau dysgu carcharorion drwy gydol eu hamser yn y ddalfa ei rhannu gyda staff perthnasol.

Mae canfyddiadau negyddol yr arolygiad hwn yn deillio i raddau helaeth o broblemau adnabod. O ganlyniad, roedd anghenion pobl ag anableddau dysgu yn cael eu colli'n aml. Roedd pocedi o arferion da ac enghreifftiau o staff yn datblygu perthynas gefnogol ac yn 'cerdded yr ail filltir', ond eithriad yn hytrach na'r arferol oedd hyn yn llawer rhy aml, a hynny mewn carchardai ac yn y gymuned.

Yng ngham cyntaf yr arolygiad hwn (a oedd yn canolbwyntio ar y cyfnod cyn dedfrydu), a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, canfuom fod llawer o ymarferwyr yn ymrwymo amser ac

ymdrech anferthol yn ceisio cael diagnosis i droseddwy'r a chael asiantaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i dderbyn cyfrifoldeb amdanynt. Yn yr arolygiad hwn, canfuom fod ymarferwyr yr un mor rhwystredig gyda'r diffyg cefnogaeth gan yr asiantaethau hynny.

Roedd rheolwyr a goruchwylwyr troseddwy'r yn awyddus i dderbyn cyngor a chanllawiau i gefnogi eu gwaith gyda'r grŵp hwn o droseddwy'r. Teimlai'r rheini a oedd yn gallu cael at nyrsys seiciatrig cymunedol yn uniongyrchol eu bod yn cael cefnogaeth. Fodd bynnag, nid oedd gan y mwyafrif o nyrsys seiciatrig cymunedol wedi cael eu hyfforddi nac wedi cael profiad o weithio gyda phobl ag anableddau dysgu.

Roedd gan y mwyafrif o ymddiriedolaethau prawf ganllawiau ac adnoddau sgrinio ar gael i reolwyr troseddwy'r; fodd bynnag, y gred yn aml gan reolwyr troseddwy'r oedd nad oeddent ar gael ac anaml y'u defnyddid. Roedd gan rai carchardai nyrsys anableddau dysgu, ond, yn gyffredinol nid oedd goruchwylwyr yn ymgynghori'n rheolaidd â hwy. Roedd un carchar, nad oedd yn gallu adnabod unrhyw garcharorion ag anableddau dysgu a oedd yno ar y pryd, yn cyflogi pedwar o nyrsys anableddau dysgu nad oedd yn gwybod ond am un carcharor remand oedd ag anabledd dysgu.

Er bod rhai mentrau a chanllawiau'n cael eu datblygu gan arweinwyr cenedlaethol (Cymru a Lloegr yn unig) ac arweinwyr lleol, roedd staff rheng flaen a rhai rheolwyr naill ai heb fod yn gwybod amdanynt neu heb fod yn gallu eu defnyddio. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010*<sup>3</sup> yn nodi'n glir bod gan awdurdodau cyhoeddus, yn ogystal â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anabledd (gan gynnwys anabledd dysgu), ddyletswydd ychwanegol i fynd ati'n fwiadol i hyrwyddo cydraddoldeb (yn hytrach na dim ond osgoi gwahaniaethu). Canfuom nad oedd, yn y mwyafrif o achosion, ymddiriedolaethau prawf a charchardai'n gwneud addasiadau rhesymol ac nad oeddent yn hyrwyddo cydraddoldeb i bobl ag anableddau dysgu.

Mae effaith posibl y methiant i adnabod troseddwy'r ag anableddau dysgu yn y gymuned ac mewn carchardai ac ymdrin yn addas â hwy yn eu gosod hwy mewn risg o aildroseddu ac yn gwneud canlyniadau cadarnhaol yn llai tebygol.

## Canfyddiadau penodol

### Arweiniad cenedlaethol a lleol

Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd rhaglen sgiliau addasu meddwl yn cael ei threialu i ddiwallu anghenion troseddwy'r ag anableddau dysgu yn y carchar ac yn y gymuned. Yr unig ymyrraeth achrededig arall yw'r rhaglen driniaeth ar gyfer troseddwy'r rhyw, *Becoming New Me*, sydd ar gael mewn nifer bach o leoliadau prawf a charchardai.

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r wrthi ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith cliriach ar gyfer gweithredu ac amrywiaeth o adnoddau. Yn y cyd-destun hwn, roedd wedi comisiynu partneriaeth o dan arweiniad MENCAP ac Ymddiriedolaeth Partneriaeth GIG Calderstones i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau ar gyfer troseddwy'r ag anghenion cyfathrebu, gan gynnwys y rheini ag anabledd dysgu. Mae hyn yn cynnwys offeryn cynllunio sy'n cynorthwyo staff rheng flaen i adnabod a gweithredu ar unwaith mewn ymateb i anghenion presennol person.

Ar lefel leol, nid oedd canllawiau a pholisïau mewn ymddiriedolaethau prawf a charchardai yn ddigon manwl i gefnogi staff yn ddigonol. Hyd yn oed pan oedd chanllawiau neu adnoddau sgrinio ar gael, roedd staff yn aml heb wybod amdanynt neu heb eu defnyddio.

---

<sup>3</sup> *Deddf Cydraddoldeb Act 2010* Llywodraeth y Deyrnas Unedig (daeth i rym mis Hydref 2010).

Roedd nifer o ymddiriedolaethau prawf wedi dechrau datblygu contractau a chytundebau lefel gwasanaeth gyda gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol oedolion. Roedd rhai hefyd wedi datblygu ymyraethau, gan gynnwys mewn un achos, gweithgaredd penodol gofynnol a oedd yn anelu at droseddwr ag anabledd dysgu. Eithriadau bychain oedd y rhain, fodd bynnag. Bydd gweithredu *Deddf Gofal 2014* o fis Ebrill 2015 ymlaen yn gosod cyfrifoldeb am asesu a chymorth gofal cymdeithasol i'r rheini â namau meddyliol (sy'n cynnwys anableddau dysgu) mewn carchardai a safleoedd cymeradwy ar yr awdurdod lleol, gyda'r disgwyliad y bydd cydraddoldeb o ran asesu a chymorth ar draws lleoliadau yn y ddalfa ac yn y gymuned. Bydd gweithredu hyn yn her sylweddol a phwysig i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau.

Nifer bach yn unig o staff y gwasanaeth prawf a staff carchardai y cyfwelwyd â hwy oedd wedi derbyn hyfforddiant mewn sut i weithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, teimlai'r mwyafrif llethol fod hyfforddiant a chanllawiau yn hanfodol ac roeddent yn awyddus i wella'u gwaith gyda'r grŵp hwn o droseddwr.

### **Sgrinio ac adnabod cynnar**

Er bod rhai ymddiriedolaethau prawf yn cael problemau wrth adnabod troseddwr ag anableddau dysgu, roedd gwelliant o gymharu â'r hyn a ganfuom yn ein harolygiad cyntaf. Fodd bynnag, roedd llawer o reolwyr troseddwr heb ddiweddarau adran anabledd y system rheoli achosion, nDelius, neu wedi cynnwys gwybodaeth anghywir ynghylch anabledd y troseddwr. Roedd dryswch yn aml rhwng beth oedd cyflwr iechyd meddwl y gellid ei drin ac anabledd dysgu.

Ychydig o dystiolaeth a ganfuom yn unrhyw un o'r ymddiriedolaethau prawf yr ymwelwyd â hwy o reolwyr troseddwr yn defnyddio adnoddau sgrinio neu ganllawiau'n rheolaidd pan oeddent yn cael eu darparu. Dywedodd rheolwyr troseddwr wrthym eu bod naill ai heb fod yn gwybod am yr adnoddau/canllawiau neu wedi eu canfod yn anodd eu cael neu eu defnyddio.

Os yw'r adnoddau sgrinio a'r system rybuddio a ddatblygir gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr am fod o werth, rhaid i'r System Asesu Troseddwr (OASys) fod yn gywir. Yn anffodus, ar yr arolygiad hwn canfuom, yn y mwyafrif o achosion, naill ai nad oedd asesiadau OASys yn cyfeirio at anabledd dysgu'r troseddwr, neu eu bod yn asesu'n anghywir yr effaith y gallai'r anabledd dysgu ei gael ar eu hymddygiad troseddol neu eu gallu i chwarae rhan lawn yn y gwaith a gynlluniwyd ar eu cyfer.

Yn y carchardai yr ymwelasom â hwy, roedd amrywiol gamau pryd y gellid adnabod anabledd dysgu carcharor, gan gynnwys cyrraedd y carchar neu weithiau trwy ymwneud yn ddiweddarach â gwasanaethau iechyd, seicoleg neu addysg. Adeg y derbyn i'r carchar sy'n rhoi'r cyfle gorau bosibl i adnabod y rheini sydd ag anabledd dysgu posibl, gan fod yn rhaid i'r holl garcharorion a dderbynnir fynd trwy amrywiol brosesau sgrinio i adnabod anghenion gofal ac ailsefydlu posibl.

Yn y mwyafrif o garchardai nid oedd unrhyw sgrinio rheolaidd o bob carcharor ond yn hytrach ddibyniaeth ar sgrinio'n cael ei wneud lle'r oedd amheuaeth o anabledd dysgu. Fodd bynnag, nid oedd staff wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol i gefnogi'r dull hwn. Hyd yn oed pan oedd anabledd dysgu'n cael ei adnabod, roedd gwybodaeth yn aml yn cael ei chofnodi/rhannu yn wael rhwng adrannau/staff a oedd yn ymwneud â gofal yr unigolyn hwnnw. O ganlyniad, roedd yn annhebygol iawn fod y carcharorion hyn yn cael eu trin mewn ffordd a oedd yn rhoi ystyriaeth i'w hanabledd ac yn eu galluogi i gael at wasanaethau a fyddai'n diwallu eu hanghenion.

Mewn carchardai lle rhoddwyd goruchwyliaeth rheoli strategol i anableddau dysgu, roedd adnabod anabledd dysgu wrth gyrraedd y carchar wedi datblygu'n well ac yn cael ei ymgorffori'n ffurfiol i'r broses dderbyn; roedd hyn yn galluogi adnabod mwy cadarn a rheolaidd. Fodd bynnag, gan fod carchardai yr ymwelasom â hwy yn methu â rhoi rhestr gyson inni o garcharorion ag anabledd dysgu, nid oeddem yn hyderus bod prosesau sgrinio yn ddigonol i adnabod yn llwyddiannus bawb o'r rheini o fewn y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

## **Gofal a thriniaeth defnyddwyr gwasanaethau ag anableddau dysgu**

Roedd yr ymroddiad yr oedd y mwyafrif o reolwyr troseddwyr yn ei ddangos yn eu gwaith gyda throeddwyr ag anableddau dysgu yn rhywbeth a greodd argraff arnom. Fodd bynnag, teimlent yn aml eu bod yn cael eu llethu gan anghenion gofal cymdeithasol a lleol y troseddwr a oedd yn cymryd y rhan fwyaf o'u hamser goruchwyllo yn hytrach na gwaith i ymdrin â'u hymddygiad troseddol, ac roeddent felly'n teimlo'n rhwystredig gan ddiffyg ymateb asiantaethau eraill i gynnig y cymorth hwn ar gyfer lles.

Un agwedd gadarnhaol o waith goruchwylwyr troseddwyr yn y carchar oedd eu gallu i weithio'n agos gyda rheolwyr troseddwyr yn y gymuned cyn rhyddhau'r carcharor. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylwyr troseddwyr mewn carchardai a rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf yn gwneud atgyfeiriadau ar y cyd at asiantaethau cymorth eraill yn y gymuned. Roedd y gwaith hwn cyn rhyddhau yn hanfodol er mwyn helpu'r carcharor i ailsefydlu'n ddiogel yn y gymuned. Ar y llaw arall, yn aml, nid oedd cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn parhau ar ôl mynd i'r carchar a oedd yn llesteirio parhad gofal tra yn y carchar a hefyd gymorth ar ôl rhyddhau.

Gofynasom i garcharorion am eu profiad o fywyd o ddydd i ddydd yn y carchar. Dywedodd amryw o garcharorion wrthym sut yr oeddent yn cael anawsterau gydag agweddau o'u hamgylchedd o'u cwmpas, megis rhannu cell, lefelau sŵn, cadw at drefn reolaidd, neu newidiadau sydyn yn eu trefn. Dywedodd bron i hanner y garcharorion a gafodd eu cyfweld eu bod wedi teimlo'n annigol ar ryw bwynt ac roedd bron i'w hanner wedi bod ar Waith Tîm Gofal Asesu yn y Ddalfa, sef y broses ar gyfer cynorthwyo'r rheini a adnabuwyd fel rhai mewn risg o hunan-niweidio. Dywedodd cyfran fawr o garcharorion yn ein sampl wrthym eu bod wedi cael eu disgyblu neu eu cosbi am ymddygiad gwael tra oeddent yn y carchar.

Ni themlai carcharorion y siaradasom â hwy fod staff yn deall eu hanghenion unigol a sut y gallai eu hanabledd dysgu effeithio ar eu hymddygiad neu eu gallu i ddygymod â bywyd yn y carchar. Roedd hyn yn aml yn cael ei adlewyrchu yn eu triniaeth o dan y cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillir, er gwaethaf bwriadau i osgoi gwahaniaethu. Roedd staff preswyl heb gael hyfforddiant i gefnogi eu rôl gyda'r grŵp hwn o garcharorion, ond roedd hyn yn cael ei liniaru i raddau pan oedd cynllun gofal neu daflen wybodaeth ar sut i ddiwallu anghenion unigolyn ar gael ac wedi cael eu rhannu â hwy. Fodd bynnag, dim ond mewn un carchar yr ymwelasom ag ef yr oedd hyn yn arfer rheolaidd.

Un mater allweddol a godwyd gan garcharorion oedd diffyg dealltwriaeth lawn o brosesau'r carchar, yn aml oherwydd problemau gyda darllen ac ysgrifennu. Dywedodd llawer o garcharorion a gafodd eu cyfweld gennym eu bod yn ei chael yn anodd gwneud ceisiadau a chwynion yn annibynnol a'u bod yn aml yn dibynnu ar help carcharorion eraill neu staff i wneud hynny. Roedd hyn yn eu dal yn ôl rhag gwneud ceisiadau sylfaenol o ddydd i ddydd ac, mewn rhai achosion, rhag herio triniaeth annheg neu dynnu sylw'r carchar at hyn. Roedd hyn, a'r defnydd gwael o eiriolwyr i gefnogi carcharorion ag anableddau dysgu yn ystod gweithdrefnau dyfarnu, o bryder penodol yn sgil newidiadau diweddar yn yr hawl i gael cymorth cyfreithiol.

Roedd rhai enghreifftiau da o gymorth gan nyrsys anableddau dysgu sy'n gweithio mewn carchardai a chynlluniau cefnogaeth gan gymheiriaid, yn enwedig y cynlluniau hynny a ddatblygwyd yn benodol i gefnogi carcharorion ag anableddau dysgu.

## **Asesu, cynllunio dedfrydau a gwaith i leihau aildroseddu**

Canfuom rai enghreifftiau o reolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf a goruchwylwyr troseddwyr carchar yn gwneud asesiadau cywir o anghenion cysylltiedig â throeddau ac yna'n cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny. Fodd bynnag, roedd llawer gormod o asesiadau nad oedd yn cynnwys dim, neu fawr ddim, gwybodaeth ynghylch sut y gallai anabledd y troseddwr fod yn

gysylltiedig â risg o aildroseddu, neu yn eu rhwystro rhag ymroi'n llawn yn y gwaith a oedd ei angen i leihau eu haidroseddu neu risg o niwed i eraill.

Yn gyffredinol, roedd cynlluniau dedfrydau yn methu â chyfeirio at anableddau dysgu troseddwr ac nid oedd dim, neu fawr ddim, ystyriaeth yn cael ei roi i sut y byddai'n effeithio ar eu gallu i gydweithio a chydymffurfio â gofynion eu gorchymyn. Ychydig dystiolaeth a ganfuom o raglenni'n cael eu haddasu'n effeithiol i ddiwallu anghenion y troseddwr hynny; o ganlyniad, roedd ymyraethau'n aml yn methu â rhoi ystyriaeth i anghenion y troseddwr ac roedd diffyg cyfeiriad clir gan reolwyr troseddau, yn aml yn gorfod datrys materion brys yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i waith yn ymwneud ag ymddygiad troseddwr.

Roedd y mwyafrif o broblemau a ganfuwyd gennym mewn ymddiriedolaethau prawf i'w gweld yn yr un modd mewn unedau rheoli troseddwr mewn carchardai, yn enwedig y methiant i adnabod anableddau dysgu mewn asesiadau a chynlluniau troseddwr. Er bod ansawdd asesiadau ychydig yn well mewn carchardai nag yn y cymuned, dim ond hanner yr asesiadau a'r cynlluniau oedd yn cydnabod bod anabledd dysgu troseddwr yn arwyddocaol a bod angen rhoi ystyriaeth iddo.

Roedd y rhan fwyaf o waith a wnaed gan reolwyr a goruchwylwyr troseddwr yn canolbwyntio ar anghenion cymdeithasol a lles y troseddwr yn hytrach na'u hymddygiad troseddol. Er bod y gwaith hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan droseddwr, roedd yn aml yn rhy ddibynnol ar ymroddiad a sgiliau personol yr ymarferydd unigol yn hytrach na gwaith wedi ei gynllunio gyda gweithwyr arbenigol eraill. Lle'r oedd perthynas dda a chytundebau lefel gwasanaeth gyda gofal cymdeithasol oedolion neu asiantaethau gwirfoddol, teimlai rheolwyr troseddwr eu bod yn cael cefnogaeth a bod ganddynt fwy o amser i gyflawni gwaith oedd yn canolbwyntio ar droseddau.

Roedd gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud i gyflwyno rhaglen ymddygiad troseddol gyffredinol i droseddwr gydag IQ o dan 80. Fodd bynnag, er y bydd hyn yn darparu ymyrraeth ychwanegol i'r grŵp hwn o droseddwr, ni fydd yn rhoi sylw i anghenion y rheini ag anhwylder sbectwm awtistiaeth neu'r rheini gydag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Yn y mwyafrif o achosion, byddai'r troseddwr hynny'n ei chael yn anodd mewn unrhyw sefyllfa grŵp. Mae angen clir am weithlyfrau ymddygiad troseddol sydd wedi eu haddasu i'w cyflwyno ar lefel un i un. Nid oedd carcharorion ag anableddau dysgu yn cael eu cyfyngu yn eu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith, hyfforddiant ac addysg er nad oedd unrhyw raglenni na gweithdai wedi eu haddasu'n arbennig ar waith – roedd hyn yn cael ei alluogi trwy addasiadau wrth gyflwyno, cefnogaeth cymheiriaid a thimau cymorth dysgu.

Yn y gymuned, roedd gan y mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaethau berthynas dda gyda'u rheolwr troseddwr a theimlent eu bod yn cael cefnogaeth. Roedd y mwyafrif yn adnabyddus hefyd i wasanaethau eraill a chredent fod eu rheolwr troseddwr yn gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu.

Er bod y mwyafrif o garcharorion a ddefnyddwyr y gwasanaeth prawf yn deall bod angen iddynt fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol, ychydig ohonynt a allai gofio pa waith yr oeddent wedi'i wneud, neu roeddent yn dweud nad oeddent wedi cychwyn gweithio eto oherwydd eu hanghenion eraill. Roedd llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn dryswch ynghylch pam eu bod ar orchymyn cymunedol neu ba waith yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Roedd rhai yn bryderus hefyd ynghylch pa gymorth y byddent yn ei gael unwaith y byddai eu gorchymyn wedi dod i ben.

Yn wyneb y diffyg ymyraethau nid oedd yn syndod nad oedd fawr o dystiolaeth fod gwaith a gyflawnwyd yn y gymuned neu'r carchar wedi lleihau aildroseddu.

## **Casgliad**

Er bod rhai gwelliannau cenedlaethol a lleol wedi bod i wasanaethau ar gyfer y grŵp hwn o droseddwr a charcharorion, mae'r rhain wedi bod yn gyfyngedig ac yn araf yn cael eu

gweithredu. Roedd tystiolaeth hefyd fod llawer o garchardai ac ymddiriedolaethau prawf naill ai heb fod yn gwybod neu'n anfodlon gweithredu cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

Y prif ffactor yr ymddengys fod arweinwyr y gwasanaeth prawf a charchardai, yn genedlaethol ac yn lleol, yn ei golli yw bod ganddynt ddyletswydd statudol i wneud addasiadau rhesymol i'r gwasanaethau a ddarparant i'w gwneud yn hygyrch i bob troseddwr ag anableddau, gan gynnwys y rheini ag anabledd dysgu. Nid yw eu methiant i sgrinio, ac felly, eu methiant i wybod y nifer o garcharorion a defnyddwyr gwasanaethau prawf ag anableddau dysgu, yn dileu eu rhwymedigaeth o dan *Ddeddf Cydraddoleb 2010*.

Er bod adnoddau a chanllawiau'n ddefnyddiol, mae angen i staff wybod sut i'w defnyddio a sut i gael hyd iddynt, os ydynt am fod o werth wrth weithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Mae'n rhaid iddynt hefyd gael eu cyflwyno ochr yn ochr â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth parhaus i bawb o'r staff.

Roedd methiant y mwyafrif o garchardai i sgrinio pob carcharor fel mater o drefn, naill ai wrth gael eu derbyn neu ar gamau eraill yn ystod amser y carcharor yn y ddalfa, yn golygu bod carcharorion ag anableddau dysgu yn cael eu colli. Mae profiadau'r carcharorion y gwnaethom eu cyfweld yn dangos pa mor bwysig ydyw bod eu hanghenion unigol yn cael eu deall a'u diwallu'n well er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, heb wahaniaethu a bod ganddynt gyfle teg i fanteisio ar weithdrefnau ac ymyraethau'r carchar i leihau eu risg o aildroseddu.

# Argymhellion

## Camau i'w cymryd gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

- sicrhau bod y rheini sy'n cyflwyno gwasanaethau carchar a gwasanaethau prawf yn cydymffurfio'n llawn â gofynion *Deddf Cydraddoldeb 2010* a *Chyfarwyddyd Gwasanaethau Carchar 32/2011* trwy wneud addasiadau angenrheidiol i wasanaethau a gyflwynir i'r rheini ag anabledd dysgu (**gweler pennod 2: Arweiniad cenedlaethol a lleol**)
- sicrhau bod troseddwyr na chafodd eu sgrinio ar adeg yr adroddiad cyn-dedfrydu yn cael eu sgrinio am anabledd dysgu ar gychwyn dedfryd gymunedol (**gweler pennod 3: Sgrinio ac adnabod cynnar**)
- cyflwyno offeryn sgrinio ar gyfer anableddau dysgu ym mhob carchar, gydag atgyfeiriadau at asesiad ffurfiol lle bo angen (**gweler pennod 3: Sgrinio ac adnabod cynnar**).

## Camau i'w cymryd gan Lywodraethwyr Carchardai:

- sicrhau bod cyfarwyddiadau a gynhwysir yng *Nghyfarwyddyd Gwasanaethau Carchar 32/2011* yn cael eu gweithredu'n llawn (**gweler pennod 2: Arweiniad cenedlaethol a lleol**)
- sicrhau bod pob troseddwr sydd ag anabledd dysgu'n cael eu hadnabod pan gyrhaeddant y carchar (**gweler pennod 3: Sgrinio ac adnabod cynnar**)
- sicrhau bod carcharorion sy'n cael eu hadnabod fel rhai ag anabledd dysgu yn cael gofal amlddisgyblaethol neu gynllun cymorth ar waith sy'n nodi sut y diwellir eu hanghenion unigol (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- ystyried bregusrwydd posibl, y rheoli ymddygiad a'r cymorth y bydd ei angen ar garcharorion ag anabledd dysgu er mwyn sicrhau mynediad llawn at iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a dewis llawn o gyfleoedd gwaith yn y carchar (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- sicrhau bod carcharorion sydd ag anabledd dysgu'n gallu defnyddio holl weithdrefnau'r carchar, megis cwynion a chymhellion a breintiau a enillir (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- sicrhau bod yr holl daflenni, ffurlenni a deunydd ysgrifenedig arall perthnasol mewn fformat Hawdd ei Ddarllen i bob carcharor wrth gael eu derbyn / ar eu noson gyntaf yn y ddalfa (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- sicrhau eu bod yn datblygu trefniadau partneriaeth perthnasol gyda gwasanaethau anableddau dysgu er mwyn sicrhau bod y gofal yr un fath mewn dedfrydau cymunedol a dedfrydau yn y ddalfa (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)

- sicrhau ei bod yn ofynnol ystyried anableddau dysgu carcharorion wrth ymdrin ag unrhyw fater disgyblaeth neu ymddygiad (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- sicrhau bod pawb o'r staff perthnasol yn sylweddoli eu cyfrifoldebau at garcharorion ag anableddau dysgu (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- sicrhau bod ymyraethau perthnasol wedi'u haddasu ar gael i garcharorion ag anabledd dysgu yn ystod dedfrydau yn y ddalfa (**gweler pennod 5: Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu**)
- gwerthuso effaith gwaith gyda throseddwr ag anableddau dysgu (**gweler pennod 5: Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu**).

### **Camau i'w cymryd gan y Cyfarwyddwr Prawf a Gwasanaethau a Contractir, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr yng Nghymru a phrif weithredwr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:**

- sicrhau eu bod yn datblygu trefniadau effeithiol gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol ac anableddau dysgu oedolion er mwyn sicrhau bod troseddwr sydd ag anableddau dysgu yn derbyn gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion gofal personol a chymdeithasol (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- cydweithio'n agos â'u Byrddau Lleol Diogelu Oedolion er mwyn diogelu defnyddwr gwasanaethau agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau dysgu (**gweler pennod 4: Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu**)
- sicrhau bod asesiadau yn y gymuned yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith y gall anabledd dysgu defnyddiwr gwasanaethau ei gael ar eu gallu i ymatal rhag troseddu ac ufuddhau i ofynion eu dedfryd (**gweler pennod 5: Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu**)
- sicrhau bod ymyraethau perthnasol wedi eu haddasu ar gael i ddefnyddwr gwasanaethau sydd ag anabledd dysgu yn ystod eu dedfryd gymunedol (**gweler pennod 5: Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu**)
- gwerthuso effaith gwaith gyda throseddwr ag anableddau dysgu (**gweler pennod 5: Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu**).

Noder – drwy gydol yr adroddiad hwn mae pob enw y cyfeirir atynt yn yr enghreifftiau o arferion wedi cael eu newid er mwyn diogelu cyfrinachedd yr unigolyn.



# 1. Strwythur yr arolygiad

## Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu cylch gorchwyl a methodoleg yr arolygiad gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwahaniaeth rhwng camau un a dau y rhaglen arolygu.

Fe wnaeth Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol gomisiynu dau arolygiad cysylltiedig ynghylch triniaeth pobl ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol, gan ei ymgorffori i *Gynllun Busnes Cydarolygiadau 2013-2015*.

## Cylch gorchwyl

- 1.1. Roedd yr arolygiad cyntaf yn canolbwyntio ar droseddwr yn y system cyfiawnder troseddol o'r arestio at y dedfrydu. Roedd adroddiad yr arolygiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, yn canolbwyntio ar faterion rhannu gwybodaeth. Ni chanfuom fod unrhyw ddiffiniad clir na chytundeb rhwng sefydliadau cyfiawnder troseddol a sefydliadau iechyd ynghylch beth yw anableddau dysgu. Er y credir eu bod yn lleiafrif sylweddol, os bosibl cyn uchod â 30%, nid oedd gennym unrhyw ffordd o wybod beth yw'r nifer o bobl gyda chyflyrau o'r fath o fewn y system cyfiawnder troseddol. O ganlyniad, ni wnaed darpariaeth ddigonol bob amser gan yr asiantaethau perthnasol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion penodol, anghenion yr ymddengys yn aml nad oes neb yn sylwi arnynt.
- 1.2. Cafodd cam dau yr arolygiad ei arwain gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gyda chefnogaeth gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Roedd yr arolygiad hwn yn ceisio canolbwyntio ar asesu, cynllunio a chyflwyno ymyraethau i droseddwr yn y gymuned ac yn y carchar, a thriniaeth a gofal carcharorion (wedi eu dedfrydu neu ar remand) yn y ddalfa. Digwyddodd y gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014.
- 1.3. Y cylch gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer y ddau arolygiad oedd: 'Asesu ansawdd ac effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â throeddwr ag anableddau dysgu, er mwyn sicrhau gwasanaethau a chymorth addas, o fewn y system cyfiawnder troseddol a'r tu allan iddi'.
- 1.4. Lluniwyd meini prawf ar gyfer cam dau yr arolygiad, a'r rheini'n seiliedig ar ganllawiau arferion da ac yn adeiladu ar gyfarwyddiadau a gyflwynwyd i'r asiantaethau sy'n ymdrin â throeddwr ag anableddau dysgu a ddedfrydir i ddedfrydau cymunedol, ac yn seiliedig ar Ddisgwyliadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi<sup>4</sup> ar gyfer y rheini yn y carchar. Roedd arnom eisiau gwybod a oedd:
  - arweiniad cenedlaethol a lleol yn darparu canllawiau, trefniadau strategol a hyfforddiant staff
  - adnoddau sgrinio yn cael eu defnyddio i adnabod y rheini ag anableddau dysgu
  - gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir a'i rhannu gyda staff perthnasol carchardai ac ymddiriedolaethau prawf a, lle bo'n briodol, asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'r troseddwr/carcharor
  - staff gwasanaethau prawf a charchardai wedi cael eu hyfforddi i weithio gyda throeddwr/carcharorion ag anableddau dysgu
  - addasiadau rhesymol wedi cael eu gwneud i sicrhau bod y rheini ag anableddau dysgu'n cael cyfle teg i fanteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael i garcharorion eraill a

<sup>4</sup> Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2012) *Disgwyliadau: Meini Prawf ar gyfer Asesu Triniaeth Carcharorion ac Amodau mewn Carchardai*

defnyddwyr gwasanaethau prawf – gan gynnwys y rheini sy'n anelu at leihau eu risg o aildroseddu

- effeithiolrwydd wrth gynllunio a chyflwyno gofal i garcharorion ag anabledd dysgu
- asesiadau a chynlluniau dedfrydau a oedd yn anelu at leihau risg o niwed a risg aildroseddu yn rhoi ystyriaeth i anabledd dysgu'r troseddwr.

## Cwmpas yr arolygiad

- 1.5. Fe wnaeth yr arolygiad archwilio triniaeth troseddwr/carcharorion ag anableddau dysgu cydnabyddedig a oedd yn cyflawni dedfrydau cymunedau neu'n cael eu dal yn y ddalfa mewn carchar. Yn y gymuned, edrychodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar waith ymddiriedolaethau prawf sy'n canolbwytio ar leihau aildroseddu a rheoli risg o niwed i eraill. Roedd achosion yn y gymuned yn cynnwys pob math o ddedfrydau cymunedol gan gynnwys gorchmynion cymunedol, gwaith di-dâl a thrwyddedau gwarchodol.
- 1.6. Yn y ddalfa, canolbwyntiodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar sut oedd carcharorion (rhai ar remand a rhai wedi eu dedfrydu) oedd ag anableddau dysgu yn cael eu trin er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, yn derbyn cyfleoedd teg am wasanaethau, a bod addasiadau rhesymol yn cael eu darparu er mwyn diwallu eu hanghenion gofal lle bo angen. Fe wnaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi hefyd arolygu gwaith unedau rheoli troseddwr carchar (OMUs) wrth adsefydlu ac ailsefydlu'n ddiogel garcharorion ag anableddau dysgu.
- 1.7. Digwyddodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014 ac roedd yn cynnwys ymweliadau â charchardai ac ymddiriedolaethau prawf. Ymwelodd arolygwyr â chwe ymddiriedolaeth brawf: Swydd Gaergrawnt, Cumbria, Humberside, Llundain, Cymru (Gogledd) a Wiltshire. Ymwelasom hefyd â Charchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwr Ifanc Bronzefield, Carchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwr Ifanc Littlehey, Carchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwr Ifanc New Hall, Carchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwr Ifanc Parc a Charchar Ei Mawrhydi Wandsworth.
- 1.8. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr a staff carchardai a gwasanaethau prawf, gan gynnwys gweithwyr arbenigol gofal iechyd, anabledd dysgu, iechyd meddwl ac addysg. Cyfwelasom hefyd â defnyddwyr gwasanaethau ag anableddau dysgu mewn ymddiriedolaethau prawf a charchardai, y staff a oedd yn gyfrifol amdanynt, ac archwiliasom gofnodion eu hachosion.
- 1.9. Ystyriodd yr arolygiad effeithiolrwydd arweiniad y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (NOMS) ar lefel genedlaethol, ac ymddiriedolaethau prawf a charchardai ar lefel leol o safbwynt datblygu gwasanaethau effeithiol i'r rheini ag anableddau dysgu.
- 1.10. Archwiliasom hefyd a oedd gan yr ymddiriedolaethau prawf yr ymwelwyd â hwy systemau clir ar gyfer adnabod, asesu cywir a chofnodi troseddwr ag anableddau dysgu. Yn ystod y gwaith maes carchardai, archwiliodd arolygwyr Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi y polisiâu a'r arferion a oedd ar waith ar gyfer adnabod a diwallu anghenion gofal carcharorion ag anabledd dysgu, yn ogystal â'u cyfleoedd am weithgaredd defnyddiol megis addysg neu waith.
- 1.11. Edrychodd y ddwy arolygiaeth ar ba mor dda yr oedd yr gwaith yn cael ei gynllunio i leihau aildroseddu a'r perygl o niwed i eraill, ac yn rhoi ystyriaeth i anabledd dysgu'r troseddwr. Yn olaf, arolygasom yr ymyraethau a'r gwaith sydd ar gael i droseddwr ag anableddau dysg i fynd i'r afael â'u hanghenion troseddu a chynorthwyo ailsefydlu. Roedd hyn yn cynnwys pa mor dda roedd anghenion troseddwr ag anableddau dysgu yn cael eu cyfleu i

ddarparwyr gofal allanol cyn eu rhyddhau o'r ddalfa neu drwy gydol eu gorchymyn cymunedol.

## Sampl yr arolygiad

- 1.12. Yn yr arolygiad hwn roeddem yn neilltuol o awyddus i hyrwyddo safbwyntiau pobl ag anableddau dysgu o fewn y system cyfiawnder troseddol, pobl na chlywir ac na wrandewir ar eu lleisiau'n aml. Teimlem, er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, ei bod yn hanfodol deall safbwynt y grŵp hwn. Felly, fe wnaeth cyfweiliadau gyda throseddwyr a charcharorion a adnabuwyd fel rhai ag anableddau dysgu ffurfio rhan greiddiol o dystiolaeth ein harolygiad.
- 1.13. Yn y gymuned, dewisasom ddeg o droseddwyr ag anabledd dysgu, a gafodd eu hadnabod gan bob un o'r ymddiriedolaethau prawf, i'w cyfweld ac i adolygu cofnodion eu hachos. Gofynasom i bob ymddiriedolaeth brawf drefnu cyfweiliadau gyda'r rheini a oedd yn fodlon siarad gyda'r nyrs anableddau dysgu (LDN) a oedd yn aelod o'r tîm arolygu. Trafodwyd themâu, gan gynnwys eu perthynas gyda'u rheolwr troseddwyr, gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau prawf ac asiantaethau eraill, cyflwyno ymyraethau a'u dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn yr oedd bod ar orchymyn cymunedol yn ei olygu. Rhwng pawb, cyfwelwyd â 23 o ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 1.14. Mewn carchardai, aethom ati i gynllunio mewn ffordd debyg i ddewis sampl o restr o'r holl garcharorion a oedd wedi cael eu hadnabod fel rhai ag anabledd dysgu. Yn ystod y cynllunio, gofynnwyd i gyfanswm o 70 o garcharorion o bob un o'r pum carchar gymryd rhan mewn cyfweiliad, gan ymgorffori cydbwysedd o oedolion ac oedolion ifanc. Fodd bynnag, cyn ein gwaith maes, nid oedd y mwyafrif o garchardai'n gallu adnabod mewn ffordd ddibynadwy y carcharorion hynny yn eu sefydliad oedd ag anabledd dysgu. Er gwaethaf cyfweld carcharorion a gafodd eu hadnabod ar y cychwyn gan y carchar a charcharorion ychwanegol a ddaeth i'n sylw yn ystod y gwaith maes, dim ond 26 o garcharorion a gafodd eu hadnabod a'u cyfweld yn llwyddiannus, ac un yn unig o'r rhain oedd yn oedolyn ifanc. Nid oedd sampl y carchardai wedi cael ei gynllunio i fod yn gynrychioliadol o'r holl garcharorion ag anableddau dysgu, ond yn hytrach ar gyfer archwilio mewn dyfnder safbwyntiau a phrofiadau carcharorion ag anableddau dysgu. O'r herwydd, nid yw'n bosibl llunio unrhyw gasgliadau pellach ynghylch profiadau pob carcharor ag anableddau dysgu o'r rheini y siaradasom â hwy.
- 1.15. Rhoddwyd i'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran yn y cyfweiliadau daflen wybodaeth a ffurflen gydsynio gyfun a oedd yn esbonio rôl yr arolygiad thematig annibynnol a natur wirfoddol y cyfweiliad. Roedd y ffurflen gydsynio a thaflen y cyfweiliad wedi cael eu dylunio mewn Easy Read, fformat gyda iaith wedi'i symleiddio a lluniau a ddyluniwyd i rwyddhau dehongli deunydd ysgrifenedig, a'u profi gan dîm annibynnol o unigolion ag anabledd dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn ddealladwy i'r rheini yr oeddem yn eu cyfweld. Roedd y tîm arolygu wedi derbyn canllawiau hefyd ar gynnal cyfweiliadau gyda'r rheini ag anabledd dysgu.
- 1.16. Roedd yr achosion y gwnaethom eu harolygu yn cynnwys y mwyafrif o fathau o droseddau gan gynnwys troseddau treisgar a rhywiol. Y dadansoddiad demograffig a'r hanes troseddau oedd:

Cymunedol (arolygwyd 60 o achosion)

O'r rhain roedd:

- 6 yn fenywod 54 yn ddynion

- 57 yn Brydeinwyr gwyn
- 18 wedi cael eu collfarnu am drosedd dreisgar
- 11 wedi cael eu collfarnu am drosedd rywiol
- 23 wedi cael mwy na 10 o gollfarnau blaenorol (allan o 59 o achosion)
- 29 wedi cael eu dedfrydu i orchymyn cymunedol, 20 i ddedfryd ohiriedig a 10 yn destun trwydded warchodol (allan o 59 o achosion)

#### Yn y ddalfa (arolygwyd 26 o achosion)

O'r rhain roedd:

- 6 yn fenywod a 20 yn ddynion
- 19 yn Brydeinwyr gwyn
- 4 yn ddinasyddion tramor
- 1 yn oedolyn ifanc (rhwng 18 a 21 mlwydd oed)
- oedrannau carcharorion yn amrywio o 18 oed i 67 oed, gydag oedran cymedrig o 35
- 14 o garcharorion yn ein sampl yn ystyried eu hunain fel rhai ag anabledd heblaw anabledd dysgu.

## Diffiniadau o anabledd dysgu: Nodyn

- 1.17. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio anableddau dysgu fel 'cyflwr o feddwl sydd wedi aros yn ei unfan neu heb ddatblygu'n llawn'. Yn ogystal, mae gan rywun sydd ag anabledd dysgu 'nam sylweddol ar weithredu deallusol' ac 'nam sylweddol ar weithredu addasiadol/cymdeithasol'. Golyga hyn y bydd gan y person anawsterau wrth ddeall, dysgu a chofio pethau newydd, ac wrth gyffredinoli unrhyw ddysgu i sefyllfaoedd newydd. Oherwydd yr anawsterau hyn gyda dysgu, gall y person hefyd gael anawsterau gyda nifer o dasgau cymdeithasol, er enghraifft cyfathrebu, hunan-gynhaliaeth, ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch. Nodwn fod dosbarthiad ICD-10 Sefydliad Iechyd y Byd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bod barn y dylid cyflwyno dosbarthiad o nam deallusol yn lle anabledd dysgu, fel sydd wedi digwydd yng Ngogledd America.
- 1.18. Dimensiwn terfynol i'r diffiniad o anabledd dysgu yw bod namau hyn yn bresennol ers plentyndod, nid wedi eu caffael o ganlyniad i ddamwain neu'n dilyn cychwyn salwch neu ddamwain fel oedolyn. Mae'n dal i fod cryn dipyn o ddadlau ynghylch y ffordd orau o fesur nam 'sylweddol', ac effaith namau gweithredu cymdeithasol.
- 1.19. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term 'anabledd dysgu' drwyddo. Rydym wedi defnyddio'r term hwn i gynnwys y bobl hynny sydd ag IQ wedi ei fesur o dan 70, a'r rheini rhwng 70 ac 80 sy'n cael eu hasesu'n arferol fel rhai sy'n anaddas i ddilyn rhaglenni achrededig yn y gymuned ac mewn carchar. Cyfeirir at y grŵp hwn o bobl weithiau fel rhai ag anabledd deallusol a datblygiadol. Rydym wedi defnyddio'r term 'anabledd dysgu' hefyd i gynnwys pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD). Nid ydym wedi cynnwys pobl sydd wedi cael eu hasesu â dyslecsia yn unig.

## 2. Arweiniad cenedlaethol a lleol

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd canllawiau cenedlaethol i gefnogi staff mewn ymddiriedolaethau prawf a charchardai sy'n gweithio gyda'r rheini ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, dim ond tua hanner y staff y cyfwelasom â hwy oedd yn gwybod am y canllawiau hyn.
- Roedd NOMS yn datblygu adnoddau sgrinio a chanllawiau i ddiwallu'n well anghenion troseddwr/carcharorion ag anableddau dysgu. Mae'n bryder, fodd bynnag, mai dim ond wrthi'n cael eu datblygu y mae'r adnoddau sgrinio.
- Yn aml, nid oedd canllawiau/polisiau yn ddigon manwl i roi cefnogaeth lawn i staff sy'n gweithio gyda'r rheini ag anableddau dysgu, ac unwaith eto, amrywiol oedd ymwybyddiaeth staff o'r canllawiau hyn.
- Roedd pob ymddiriedolaeth brawf yn cydweithio'n agos â'u Byrddau Lleol Diogelu Oedolion i ddiogelu oedolion agored i niwed, a allai gynnwys y rheini ag anableddau dysgu. Roedd rhai ymddiriedolaethau hefyd wedi datblygu protocolau gydag thimau iechyd meddwl a/neu dimau anableddau dysgu oedolion awdurdodau lleol.
- Yn y mwyafrif o garchardai yr ymwelwyd â hwy, nid oedd unrhyw reolaeth glir nac eglurder ar sut y byddid yn adnabod ac yn diwallu anghenion carcharorion ag anableddau dysgu.

Rydym o'r farn y dylai arweinwyr ar lefel genedlaethol a lleol sicrhau bod anghenion troseddwr/carcharorion ag anableddau dysgu yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw, yn y gymuned ac yn y ddalfa. Dylai fod canllawiau cenedlaethol a lleol digonol i gefnogi staff sy'n gweithio gyda throseddwr/carcharorion ag anableddau dysgu.

### Arweiniad cenedlaethol: Canllawiau polisi ac arferion

- 2.1 Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddwyd canllawiau<sup>5</sup> gan NOMS ar gyflwyno ymyraethau i droseddwr ag anabledd dysgu yn dilyn adolygiad barnwrol o achos carcharor a oedd yn cyflawni dedfryd oes, dyn nad oedd yn gallu manteisio ar raglenni achrededig oherwydd ei anabledd dysgu<sup>6</sup>. Er bod y canllawiau hyn bron yn bedair oed, roedd bron i hanner y staff gwasanaethau prawf y cyfwelwyd â hwy heb fod yn gwybod am unrhyw ganllawiau cenedlaethol na lleol ac nid oedd neb yn gwybod am y canllawiau ar gynllunio dedfrydau.
- 2.2 Gosododd *Deddf Cydraddoldeb 2010* ddyletswydd statudol ar sefydliadau cyhoeddus i wneud addasiadau rhesymol i wasanaeth i'w gwneud hwy'n hygyrch i bob defnyddiwr. Rhoddodd NOMS ganllawiau i'r gwasanaeth carchardai trwy *Prison Service Instruction 32/2011 (PSI 32/2011)*, Ensuring Equality, fel ymateb i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Mae'r PSI yn cydnabod y gallai'r rheini ag anableddau dysgu fod heb sylweddoli bod ganddynt anabledd, a bod yn rhaid i'r rheini yr amheuir bod ganddynt anabledd gael eu hasesu wrth gael eu 'derbyn' i'r carchar. Nid yw'r PSI yn gwneud unrhyw ddarpariaeth benodol i'r rheini sydd eisoes yn y system ond mae'n amlwg fod carchardai o dan ddyletswydd i weithredu

<sup>5</sup> NOMS (Ebrill 2011) *Ensuring Equality Prison Service Instruction PSI 23/2011*

<sup>6</sup> *R (Gill) v SSJ [2010] EWHC 364 Admin*

mewn perthynas â charcharorion ag anabledd dysgu. Roedd y polisi'n annog carchardai i addasu'r ffordd y maent yn cyfathrebu â charcharorion ag anbleddau dysgu fel y gallant ddeall yn well yr hyn a ddywedir wrthynt. Mae'n amlwg hefyd na ddylid gwahaniaethu yn erbyn carcharorion o'r fath o safbwynt lefel y Cymhellion a'r Breintiau a Enillir (IEP) a bennir ar eu cyfer ar sail ymddygiad; rhywbeth a allai gael canlyniadau andwyol i garcharorion ag anabledd dysgu. Gallai hyn gynnwys materion megis cadw amser, glanweithdra, ac ufuddhau i gyfarwyddiadau.

*Rhaid i lywodraethwyr ystyried yn barhaus beth y gallai fod ar garcharorion ac ymwelwyr ag amrywiaeth o anableddau ei angen a sicrhau bod pob addasiad rhesymol (gweler Atodiad G) yn cael ei wneud i garcharorion ac ymwelwyr anabl. Rhaid i lywodraethwyr ystyried a allai polisiâu ac arferion y carchar, yr amgylchedd adeiledig, neu ddiffyg cynorthwyon a gwasanaethau atodol roi carcharor neu ymwelydd anabl o dan anfantais sylweddol ac, os felly, rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i osgoi'r anfantais. Os gwneir cais am addasiadau rhesymol gan garcharor neu ymwelydd, rhaid iddo gael ystyried a rhaid cofnodi'r canlyniad.*  
PSI 32/2011

- 2.3 Roedd PSI 32/2011 yn gosod rhwymedigaeth gorfodol ar bob llywodraethwr carchar i sicrhau bod pawb o'r staff yn cael gwybod am y cyfarwyddyd. Fodd bynnag, ychydig iawn o reolwyr carchardai neu oruchwylwyr troseddwyr a ganfuom ni oedd yn ymwybodol o PSI 32/2011 nac o'r cyfrifoldebau a dyletswyddau y mae'n eu gosod arnynt.
- 2.4 Yn ein hadroddiad cyntaf, tynasom sylw at y ffaith nad oes unrhyw offeryn sgrinio cenedlaethol, ac nad oes ond un rhaglen achrededig sydd wedi'i haddasu ar gyfer anghenion pobl ag anableddau dysgu, sef rhaglen driniaeth ar gyfer troseddwyr rhyw o'r enw Becoming New Me, nad oedd, ac nad yw, ond ar gael mewn nifer bach o garchardai ac ymddiriedolaethau prawf. Mae'r rhaglen hon ar gael i droseddwyr sydd ag IQ o rhwng 60 a 80.
- 2.5 Ers yr arolygiad cyntaf, roedd NOMS wedi comisiynu gwaith i addasu rhaglen ymddygiad gwybyddol/sgiliau meddwl a oedd yn anelu at droseddwyr sydd ag 'anabledd deallusol', yn benodol i'r rheini gydag IQ o dan 80. Mae NOMS hefyd wedi comisiynu MENCAP ac Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Partneriaeth Calderstones i ddatblygu offeryn sgrinio gallu cyfathrebu, sy'n gysylltiedig â system rybuddion OASys, i helpu adnabod ac ymwneud yn well â throseddwyr â sgiliau cyfathrebu gwael, gan gynnwys y rheini ag anableddau dysgu. Roedd y gwaith hwn yn dal wrthi'n cael ei ddatblygu ar adeg yr arolygiad hwn.
- 2.6 Mae *Deddf Gofal 2014* yn ail-ddatgan bod carchardai a safleoedd cymeradwy yn dal yn gyfrifol am ddiogelwch y rhai a gedwir ynddynt. Nid oes dyletswydd gan Fyrddau Diogelu Oedolion awdurdodau lleol i gynnal ymholiadau nac adolygiadau lle gallai anghenion gofal a chymorth carcharor fod, neu wedi bod, mewn perygl o gam-drin ac esgeulstod; fodd bynnag, gallant ddarparu cyngor a chymorth ar ddiogelu i lywodraethwyr carchardai a swyddogion eraill a gallant wahodd staff carchardai i fod yn aelodau. Mae'r Grŵp Cydraddoldeb, Hawliau a Gwedduster o fewn NOMS wedi cael y dasg o ddatblygu polisi diogelu ar gyfer carchardai a safleoedd cymeradwy.

## Strategaeth leol

### Gwasanaethau prawf

- 2.7 Nid oedd NOMS wedi darparu canllawiau manwl sy'n canolbwyntio ar droseddwy'r ag anableddau dysgu oherwydd, o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, roedd yn ofynnol i ymddiriedolaethau prawf gynhyrchu eu cynlluniau cydraddoldeb sengl eu hunain. Nid yw'r cynlluniau hyn fel arfer yn tynnu sylw manwl at anghenion penodol troseddwy'r ag anableddau dysgu.
- 2.8 Ar lefel leol, roedd pob ymddiriedolaeth prawf yr ymwelwyd â hwy wedi datblygu cysylltiadau agos gyda'u Bwrdd Lleol Diogelu Oedolion (LSAB) ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Canfuom dystiolaeth eu bod yn rheolaidd yn codi materion ynghylch troseddwy'r sy'n oedolion bregus o dan oruchwyliaeth yr ymddiriedolaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd Lleol Diogelu Oedolion. Er bod y mwyafrif yn droseddwy'r ag anhwylder meddyliol, gwelsom enghreifftiau o ymddiriedolaethau yn codi pryderon ynghylch troseddwy'r ag anableddau dysgu. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn droseddwy'r a oedd yn cael eu rheoli o gan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Roedd hyn yn aml yn cael ei weld fel yr unig ffordd o gael gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion i gymryd cyfrifoldeb am anghenion gofal y troseddwr.
- 2.9 Roedd pob ymddiriedolaeth brawf wedi datblygu canllawiau ar ddiogelu oedolion ac roedd gan bob un ond un ohonynt adran ar ei fewnrwyd yn rhoi canllawiau i reolwyr troseddwy'r sy'n gweithio gyda throseddwy'r ag anableddau dysgu. Unwaith eto, fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith fod y canllawiau hyn ar gael, llai na hanner y rheolwyr troseddwy'r a oedd yn gweithio gyda throseddwy'r ag anableddau dysgu oedd wedi eu defnyddio. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am hyn oedd diffyg amser, ac wedyn anawsterau tybiedig mewn defnyddio'r fewnrwyd.
- 2.10 Roedd gan ddwy ymddiriedolaeth becynnau e-ddysgu ar eu mewnrwydau ar gyfer rheolwyr troseddwy'r a oedd yn awyddus i wybod mwy am weithio gyda phobl ag awtistiaeth.
- 2.11 Roedd rhai ymddiriedolaethau prawf, yn benodol Cymru a Llundain, wedi cyhoeddi cyfarwydddebau arferion clir. Roedd y mwyafrif wedi sicrhau bod adnoddau sgrinio anableddau dysgu ar gael, yn arferol yr Holiadur Sgrinio Anableddau Dysgu (LDSQ). Llai na chwarter o'r rheolwyr troseddwy'r oedd yn gwybod am yr offeryn hwn, a llai fyth a oedd wedi'i ddefnyddio. Y rhesymau a roddwyd dros beidio â'i ddefnyddio oedd diffyg ymwybyddiaeth neu fod yr offeryn yn rhy gymhleth.
- 2.12 Roedd hanner yr holl ymddiriedolaethau prawf yr ymwelasom â hwy wedi datblygu protocolau gyda gwasanaethau iechyd meddwl lleol i leoli nyrsys seiciatrig cymunedol (CPNs) o fewn swyddfeydd gwasanaethau prawf. Er eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan rheolwyr troseddwy'r, nid oedd gan y nyrsys hyn ddim neu fawr ddim hyfforddiant na phrofiad o weithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Roedd gan Gymru (y Gogledd) gynlluniau ar gyfer cydweithio rhwng nyrsys seiciatrig cymunedol a nyrsys anableddau dysgu ac ymddangosai fod hyn yn syniad synhwyrol.
- 2.13 Roedd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth diogelu oedolion i oedolion agored i niwed o fewn y system cyfiawnder troseddol.
- 2.14 Roedd Ymddiriedolaeth Prawf Wiltshire wedi dechrau gweithredu Cynllun Gweithredu Prosiect Awtistiaeth seiliedig ar gytundeb lefel gwasanaeth rhwng y darparwr gofal iechyd lleol, SEQOL, a'r National Autistic Society. Roedd y prosiect, a oedd yn cael ei ariannu gan Gronfa Arloesedd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Wiltshire, yn anelu at ddarparu cymorth clinigol i reolwyr troseddwy'r sy'n gweithio gyda throseddwy'r ag awtistiaeth;



cynllun cyfeillio; hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i staff a chyflogi 'eiriolwr' awtistiaeth o fewn yr ymddiriedolaeth.

**Enghraifft o arfer dda: gweithio gyda'i gilydd**

Fe wnaeth tîm y gwasanaeth prawf yn Hull wahodd y tîm lleol anabledau dysgu oedolion i siarad yn un o'u cyfarfodydd tîm. Arweiniodd hyn at berthynas waith agosach rhwng y timau. Roedd y tîm anabledau dysgu'n cynnig cyngor a chymorth, ac fe wnaeth rheolwyr troseddwyr ennill gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ag anabledau dysgu.

- 2.15 Roedd tair ymddiriedolaeth wedi hyfforddi staff i fod yn 'eiriolwyr' anabledau dysgu. Yn anffodus, teimlai'r mwyafrif o'r staff hyn nad oeddent wedi adeiladu ar eu hyfforddiant cychwynnol ac anaml iawn yr oedd cydweithwyr yn gofyn am eu cyngor.

## Carchardai

- 2.16 Ni welsom ond ychydig strategaethau lleol a gyhoeddwyd yn benodol ar ofal carcharorion ag anableddau dysgu. Er bod anableddau dysgu'n cael eu crybwyll yn y polisiau cydraddoldeb mewn carchardai ac y bwriedid i swyddogion cyswllt anabledd gael rôl wrth gynllunio ar gyfer anghenion gofal carcharorion anabl, roedd y gwaith o adnabod a chynllunio ar gyfer y rheini ag anabledd dysgu, yn y mwyafrif o garchardai, yn wael.
- 2.17 Yn ein cyfweiliadau gydag uwch swyddogion carchardai, yn y mwyafrif o sefydliadau, ychydig oedd yn gwybod am unrhyw bolisiau cenedlaethol na lleol yn ymwneud â charcharorion ag anableddau dysgu. Ac eithrio un carchar, nid oedd unrhyw ganllawiau rheoli clir ar ba ofal a chymorth a ddylai fod yn ei le ar gyfer carcharorion ag anableddau dysgu. Dylai trefniadau gofal cymdeithasol gynnwys anableddau dysgu, yn enwedig lle'r oedd gan garcharorion weithwyr cymdeithasol yn y gymuned.
- 2.18 Ymddangosai fel petai staff carchardai'n disgwyl arweiniad i ddod gan ddarparwyr gofal iechyd. Fodd bynnag, er bod darparwyr gofal iechyd yn cydnabod bod ganddynt rôl wrth gefnogi gofal carcharorion ag anabledd dysgu, nid oeddent yn gweld diwallu eu hanghenion o ddydd i ddydd fel rhywbeth a oedd yn gyfrifoldeb gofal iechyd yn bennaf.
- 2.19 Roedd gan ddarparwyr iechyd ddulliau o gyflwyno gwasanaethau – fel arfer yn ffurf llwybrau – ar amrywiol gamau yn eu datblygiad i gyflawni eu rôl o gefnogi'r rheini ag anableddau dysgu. Roedd darparwyr iechyd o fewn carchardai a gomisiynwyd gan awdurdodau'r GIG yn gyffredinol ymwybodol o fylchau mewn gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu ac roedd rhai yn gweithio gyda strategaethau cenedlaethol (Cymru) neu fentrau perfformiad o dan arweiniad comisiynwyr (Lloegr) i fynd i'r afael â hyn.
- 2.20 Roedd asiantaethau allanol, megis timau iechyd meddwl cymunedol a thimau anabledd dysgu cymunedol a oedd yn darparu sesiynau arbenigol mewn ymweliadau â'r carchardai, yn chwarae rhan fel bo'n briodol, gyda rhai clinigwyr carchar hefyd yn ymarfer yn y gymuned.
- 2.21 Dywedodd rheolwyr troseddwyr mewn carchardai wrthym nad oedd ganddynt ganllawiau digonol i gefnogi eu hymyraethau gyda charcharorion a oedd ag anableddau dysgu; dywedodd ychydig dros eu hanner eu bod yn ymwybodol o ganllawiau cenedlaethol neu leol, a dywedodd llai na'u hanner fod ymyraethau wedi eu haddasu, gan gynnwys y rheini a gyflwynwyd un-i-un gan y rheolwr troseddwyr.

## Casgliad

Er bod rhai datblygiadau wedi bod yn y driniaeth a'r gwaith gyda throseddwyr ag anableddau dysgu, o fewn gwasanaethau prawf a charchardai, roedd y rhain wedi cael eu gyrru'n bennaf ar lefel leol yn hytrach na chenedlaethol. Roedd NOMS wedi dechrau datblygu gwaith gyda throseddwyr ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod y gwaith yn gwreiddio o ddirif mewn carchardai a gwasanaethau prawf gyda chymorth digonol yn cael ei ddarparu i staff. Gan y bydd llawer o droseddwyr ag anableddau dysgu, yn y dyfodol, yn cael eu rheoli gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu hannog i adeiladu ar y gwaith y wnaed eisoes gan ymddiriedolaethau prawf a NOMS, trwy addasu a defnyddio'r offeryn sgrinio a gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â throseddwyr ag anableddau dysgu.

## **Argymhellion**

### **Camau i'w cymryd gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:**

- sicrhau bod y rheini sy'n cyflwyno gwasanaethau carchar a gwasanaethau prawf yn cydymffurfio'n llawn â gofynion *Deddf Cydraddoldeb 2010* a *Chyfarwyddyd Gwasanaethau Carchar 32/2011* trwy wneud addasiadau angenrheidiol i wasanaethau a gyflwynir i'r rheini ag anabledd dysgu.

### **Camau i'w cymryd gan Lywodraethwyr Carchardai:**

- sicrhau bod cyfarwyddiadau a gynhwysir yng *Nghyfarwyddyd Gwasanaethau Carchar 32/2011* yn cael eu gweithredu'n llawn.

### 3. Sgrinio ac adnabod cynnar

#### Canfyddiadau allweddol

- Roedd y mwyafrif o reolwyr troseddwr yn y gymuned y gwnaethom eu cyfweld yn sylweddoli bod gan y troseddwr anabledd dysgu ar gychwyn eu goruchwyliaeth cymunedol, ond mewn nifer o achosion roedd hyn o hunan-ddatgeliad neu ddatgeliad gan aelod o'r teulu. Nid oedd anableddau dysgu'n cael eu hadnabod bob amser mewn pryd i'r wybodaeth hon gyfrannu at benderfyniadau dedfrydu neu asesiadau cychwynnol.
- Hyd yn oed pan oedd offer sgrinio a chanllawiau ar gael i reolwyr troseddwr, anaml yr oeddent yn cael eu defnyddio.
- Nid oedd y systemau mewn carchardai ar gyfer sgrinio carcharorion am bresenoldeb anableddau dysgu neu sgiliau cyfathrebu gwan wedi cael eu datblygu'n llawn. Yn y mwyafrif o garchardai yr ymwelwyd â hwy, nid oedd sgrinio'n digwydd gyda phob carcharor. Lle'r oedd anableddau dysgu'n cael eu hadnabod, nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n rheolaidd rhwng adrannau.

Mae'n hanfodol adnabod anabledd dysgu troseddwr/carcharor yn gynnar er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gofal a'r cymorth y mae arnynt ei angen, a bod ymyraethau addas yn cael eu darparu i leihau eu haildroseddu tra ydynt o dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf neu yn y carchar. Yn y bennod hon edrychwn ar ba mor dda y mae prosesau derbyn gwasanaethau prawf a carchardai yn gweithio i adnabod y rheini sydd ag anabledd dysgu.

#### Adnabod: Gwasanaethau Prawf

- 3.1 Yn y mwyafrif o achosion a arolygwyd, daeth y rheolwr troseddwr yn ymwybodol o anabledd dysgu troseddwr wrth gyflawni'r asesiad cychwynnol o ffactorau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu a risg o niwed a berir i eraill. Mewn ychydig o dan hanner yr achosion, roedd yr wybodaeth hon ar gael yn yr adroddiad cyn-dedfrydu (PSR) neu adroddiadau arbenigol eraill a baratowyd ar gyfer y gwrandawriad llys. Fodd bynnag, mewn bron i chwarter o'r achosion, nid oedd yr wybodaeth ond yn cael ei datgelu gan y troseddwr yn y cyfarfod asesu cychwynnol. Mewn achosion eraill, roedd yr wybodaeth yn dod oddi wrth berthnasau'r troseddwr neu asiantaethau eraill. Roeddem wedi adnabod y broblem hon yng ngham cyntaf ein harolygiad hefyd. Ychydig o ffurflenni atgyfeirio adroddiadau cyn-dedfrydu oedd yn cofnodi bod gan y troseddwr anabledd dysgu. Ein teimlad ni oedd bod hwn yn gyfle i rannu gwybodaeth yn gynnar rhwng yr holl weithwyr proffesiynol, cyfle yr ymddengys ei fod wedi cael ei golli, yn anffodus.

#### Enghraifft o arfer dda: datblygu arferion da

Roedd Mike yn gweithio mewn safle cymeradwy a sylweddolodd ei fod yn derbyn mwy a mwy o breswylwyr ag anabledd dysgu. Lawrlwythodd ddeunydd o'r rhynggrwyd gan gynnwys canllawiau'r Adran Iechyd (Lloegr) *Positive practice, positive outcomes* a rhoddodd hyn ynghyd mewn ffolder gwybodaeth sydd bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y safle cymeradwy a chan reolwyr troseddwr mewn timau ardal.

- 3.2 Pryder inni oedd bod, mewn nifer sylweddol o achosion, gwybodaeth o anabledd dysgu'r troseddwr yn ddibynnol ar ddatgeliad gan y troseddwr neu aelodau o'r teulu. Heb ddull o sgrinio ar gyfer anableddau dysgu ac anawsterau sgiliau cyfathrebu yng nghyfnod yr

adroddiad cyn-dedfrydu, mae perygl y bydd dedfrydu ac asesiadau cychwynnol yn seiliedig ar wybodaeth annigonol neu anghywir.

*"Rai blynyddoedd yn ôl fe wnaethom geisio sefydlu cysylltiad ag uned dyslecsia prifysgol, ond daeth yr ariannu i ben. Roeddem wedi datblygu prawf sgrinio dyslecsia, ond ni chaiff ei ddefnyddio bellach. Dw i'n meddwl bod hynny'n wastraff ar 10 mlynedd."*

**Rheolwr troseddwr sy'n gweithio gyda throseddwr ag awtistiaeth a dyslecsia**

- 3.3 Er bod gan hanner yr ymddiriedolaethau prawf yr ymwelasom â hwy offer sgrinio anabledau dysgu ar gael, nid oedd troseddwr yn cael eu sgrinio fel mater o drefn yn unrhyw un o'r rhain wrth ymsefydlu. Roedd y mwyafrif o ymddiriedolaethau'n defnyddio holiaduron sgiliau dysgu neu ddull dysgu yn gynnar yn y gorchymyn. Er bod y rhain yn ddefnyddiol, nid oeddent yn addas ar gyfer sgrinio am anabled dysgu neu anghenion cyfathrebu. Golygai hyn y bydd rheolwyr troseddwr, mewn rhai achosion, yn methu â rhoi sylw i ffactorau pwysig a/neu efallai'n gwastraffu adnoddau trwy atgyfeirio troseddwr am ymyraethau na fydd yn mynd i'r afael ag anghenion penodol y grŵp hwn o droseddwr.
- 3.4 Mewn 53 allan o 60 o achosion, roedd gwybodaeth am anabled dysgu'r troseddwr yn cael ei nodi ar OASys, nDelius neu systemau rheoli achosion eraill. Yn anffodus, nid oedd yr wybodaeth hon bob amser yn gywir nac yn cael ei diweddarau drwy gydol y gorchymyn. Fodd bynnag, roedd yn welliant ar y sefyllfa y gwnaethom ei chanfod yn ystod cam un y rhaglen arolygu, pryd yr oedd llawer o ymddiriedolaethau'n ei chael yn anodd i adnabod achosion hyd yn oed.
- 3.5 Er bod offeryn sgrinio yn rhan hanfodol o adnabod, mae angen iddo gael ei gadarnhau gan wybodaeth ddigonol i alluogi staff i adnabod gwahanol fathau o anabledau dysgu. Mae hefyd angen ymwybyddiaeth gan reolwyr troseddwr o sut i weithio gyda throseddwr ag anghenion dysgu a chyfathrebu. Dim ond ychydig dros chwarter (14 allan o 49) o reolwyr troseddwr y cyfwelwyd â hwy a oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant. Fe wnaeth y mwyafrif o reolwyr troseddwr a gyfwelwyd fynegi pryderon nad oedd ganddynt y sgiliau i asesu anabledau dysgu troseddwr.

### **Adnabod: Carchardai**

- 3.6 Cyn ein gwaith maes, nifer bach iawn o garcharorion ag anabledau dysgu a oedd wedi cael eu hadnabod gan y mwyafrif o garchardai; mewn gwirionedd, roedd y nifer a adnabuwyd gan y mwyafrif o garchardai yn is na'r amcangyfrif o nifer achosion anabledau dysgu yn y boblogaeth gyffredinol, tra bod ymchwil yn dangos yn gyson fod y nifer achosion yn uwch o fewn poblogaeth carchardai. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oes unrhyw ddiffiniad na chytundeb clir ar draws sefydliadau cyfiawnder troseddol a sefydliadau iechyd ynghylch beth yw anabled dysgu. Er enghraifft, mae gan 20 i 30% o droseddwr anabledau neu anawsterau dysgu sy'n ymyrryd â'u gallu i ddygymod o fewn y system cyfiawnder troseddol (Loucks, 2007<sup>7</sup>), ac mae gan 20% o boblogaeth carchardai 'anabled cudd' a fydd yn tanseilio eu perfformiad mewn lleoliadau addysg a gwaith (Rack, 2005<sup>8</sup>).

<sup>7</sup> Loucks, N. (2007) *Prisoners with learning difficulties and learning disabilities – review of prevalence and associated need*. Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

<sup>8</sup> Rack, J. (2005) *The Incidence of Hidden Disabilities in the Prison Population*, Egham, Surrey: Dyslexia Institute.

- 3.7 Er gwaethaf y nifer uchel a ddisgwylid o garcharorion ag anableddau dysgu, dywedodd un carchar wrthym nad oeddent yn gallu adnabod neb yn eu sefydliad a oedd ag anabledd dysgu. O'r herwydd, cafodd gwaith maes yn y safle hwn ei ganslo a chymerwyd ei le gan safle arall. Yn wyneb y nifer o achosion o anableddau dysgu o fewn carchardai yr adroddir amdanynt a phroblemau gydag adnabod a ganfuwyd ar safleoedd eraill y gwaith maes, mae'n annhebygol nad oedd neb mewn gwirionedd yn y sefydliad hwn ag anabledd dysgu, ac mae'n fwy tebygol nad oedd yr adnoddau sgrinio priodol ar waith i alluogi adnabod effeithiol.
- 3.8 O ran y gweddill o'r safleoedd gwaith maes, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, roedd swyddogion cyswllt ym mhob carchar yn ei chael yn anodd casglu ynghyd restr ystyrion o garcharorion ag anableddau dysgu. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd yr wybodaeth hon yn cael ei chanoli, gyda gwahanol wybodaeth yn cael ei dal gan wahanol adrannau nad oedd yn cael ei rhannu fel mater o drefn. Nid oedd ond un carchar yr ymwelasom ag ef lle'r oedd sgrinio cadarnhaol am anableddau dysgu gan wasanaethau iechyd yn arwain at rybudd yn cael ei roi i adrannau eraill a allai fod yn ymwneud â chynnig gwasanaethau wedi eu haddasu.
- 3.9 Dywedodd swyddogion cyswllt wrthym mai eu prif ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer adnabod y rheini ag anabledd dysgu oedd yr adran gofal iechyd, fel arfer iechyd meddwl neu, mewn rhai achosion, nyrs anableddau dysgu yn gweithio o fewn y carchar. Fodd bynnag, canfuom hefyd unigolion ychwanegol yn cael eu hadnabod trwy'r adran dysgu a sgiliau neu'r uned rheoli troseddwy, oedd yn ei gwneud yn anodd i ni a'r sefydliadau gael rhestr lawn ym mhob carchar o'r rheini ag anabledd dysgu a adnabuwyd.

*"Nid ydym ond wedi gallu adnabod un carcharor ag anabledd dysgu. Dw i'n meddwl bod hynny'n awgrymu nad yw'n broblem yn y carchar hwn."* **Llywodraethwr Carchar**

- 3.10 Mewn o leiaf ddau o'r carchardai yr ymwelasom â hwy, dywedwyd wrthym fod staff derbyn yn dibynnu ar wybodaeth anuniongyrchol a gafwyd yn ystod y derbyn i adnabod y rheini ag anabledd dysgu, megis hunan-ddatgeliad carcharor o'u hanabledd dysgu, ymwneud blaenorol â gwasanaeth cymdeithasol oedolion neu fynychu ysgol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei gefnogi weithiau ar y Cofnod Hebrwng Person neu ddogfennau llys a oedd yn dod gyda'r unigolyn wrth iddo gyrraedd y carchar.
- 3.11 Hyd yn oed yn y carchardai hynny lle'r oedd offeryn sgrinio wrth dderbyn ar gael i ddangos a allai carcharor a oedd yn cyrraedd y ddalfa fod ag anabledd dysgu, canfuom nad oeddent yn gyson ar gael nac yn cael eu defnyddio yn ystod y broses dderbyn. Yn aml, nid oedd staff derbyn wedi cael unrhyw hyfforddiant ar anableddau dysgu i gefnogi eu rôl sgrinio.
- 3.12 Un carchar yn unig, Carchar Ei Mawrhydi/ Sefydliad Troseddwy Ifanc Parc, oedd â phroses ar gyfer sgrinio pob carcharor a oedd yn digwydd yn ystod y cam o sefydlu. Nid oedd yr offeryn sgrinio a ddefnyddiwyd yn offeryn anabledd dysgu penodol ond roedd yn gofyn cwestiynau'n ymwneud â sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, talu sylw a chydysymud. Roedd hefyd yn rhoi canllawiau i staff sy'n gweithio gyda charcharorion bregus â sgiliau cyfathrebu a deallusol gwan.

### **Enghraifft o arfer dda: Carchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc**

Roedd offeryn sgrinio yn cael ei ddefnyddio gyda phob carcharor a sgôr yn cael ei chynhyrchu a oedd yn rhoi arwydd o ran lle'r oedd gan garcharor lefel uchel o angen, ac ym mha feysydd yr oedd yr anghenion hynny yn bennaf. Lle'r oedd lefel uchel o angen yn cael ei hadnabod, roedd hyn yn ysgogi adolygiad achos rhwng y carcharor, mentor carcharor, staff preswyl a gweithgareddau a nyrs anableddau dysgu, ac o hyn deilliai gynllun byw â chymorth, a oedd yn dangos y ffordd orau o ymdrin â'r anghenion hyn. Dywedwyd wrthym:

*"Er bod cost ariannol mewn sgrinio pob carcharor wrth gael eu sefydlu yn y carchar, mae'n werth y gost oherwydd lleihad yn y defnydd o gadw ar wahân a'r defnydd o reoli a ffrwvno."*

- 3.13 Roedd pob gwasanaeth iechyd carchar yn cynnig asesiad iechyd yn dilyn y sgrinio iechyd wrth dderbyn. Yn y mwyafrif o achosion roedd dewis i gymryd yr LDSQ ar y cam hwn o sefydlu. Fodd bynnag, roedd hyn eto'n cael ei gynnal lle'r amheuid anabledd dysgu ac nid oedd unrhyw ddull systematig gan wasanaethau iechyd o ddarganfod mynychder anableddau dysgu mewn carcharorion. Os oedd anabledd dysgu na chafodd ei adnabod yn cael ei amau ar gyfnod diweddarach yn y ddalfa, yn y mwyafrif o garchardai yr ymwelasom â hwy, dywedwyd wrthym mai'r broses fyddai i staff gyfeirio'r carcharor ymlaen at y tim iechyd meddwl am asesiad pellach.

### **Enghraifft o arfer dda: Carchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc Littlehey**

Dywedodd nifer o garcharorion y gwnaethom eu cyfweld iddynt gael diagnosis o anabledd dysgu neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth ers iddynt gyrraedd y carchar. Roedd y seicolegydd clinigol yn y carchar hwn yn rhagweithiol wrth fynnu diagnosis i unigolion yr amheuid fod ganddynt anabledd dysgu neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Roedd pawb o'r carcharorion hyn yn dweud pa mor ddiolchgar oeddent am gael rhywun yn y carchar a oedd wedi eiriol trostynt i gael diagnosis iddynt.

## **Casgliad**

Er bod y mwyafrif o reolwyr troseddwyr yn sylweddoli bod gan droseddwr anabledd dysgu ar gychwyn eu gorchymyn cymunedol, roedd hyn yn llawer rhy aml oherwydd datgeliad gan y troseddwr neu aelod o'u teulu. Mae pobl ag anableddau dysgu yn annhebygol o ddatgelu'n llawn eu hanghenion i rywun nad ydynt yn ei adnabod yn dda. Gall dibynnu ar hunan-ddatgelu arwain at asesiadau anghywir ac oedi. Gellid goresgyn y broblem hon yn hawdd trwy sgrinio pob troseddwr yn eu cyfweiliad adroddiad cyn-dedfrydu neu sefydlu cychwynnol.

Roedd problemau tebyg mewn carchardai'n ymwneud ag adnabod anableddau dysgu a gor-ddibyniaeth ar hunan-ddatgelu. Yn y mwyafrif o garchardai, nid oedd sgrinio wrth dderbyn yn cael ei wneud gyda phob carcharor, ond yn hytrach yn cael ei wneud mewn ymateb i bryderon penodol a oedd yn peri'r risg nad oedd anableddau dysgu'n cael eu hadnabod; gallai hyn wedyn olygu methiant hefyd i adnabod unrhyw gymorth neu addasiadau y mae ar garcharorion eu hangen i'w galluogi hwy i gydweithredu â'r drefn a phrosesau'r carchar.

Yn ogystal, effaith posibl y methiant i adnabod a chyd-drafod yn addas gyda throseddwyr ag anabledd dysgu yn y gymuned ac mewn carchardai oedd amddifadu'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaethau o'u gallu i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol mewn ffordd ystyrion ac

effeithiol. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar eu hailsefydlu, yn eu gosod hwy ar risg uwch o aildroseddu yn y dyfodol ac yn eu gwneud hwy'n fwy agored i niwed pan ddychwelant i'r gymuned.

## **Argymhellion**

### **Camau i'w cymryd gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:**

- sicrhau bod troseddwyr na chafodd eu sgrinio ar adeg yr adroddiad cyn-dedfrydu yn cael eu sgrinio am anabledd dysgu ar gychwyn dedfryd gymunedol.
- cyflwyno offeryn sgrinio ar gyfer anableddau dysgu ym mhob carchar, gydag atgyfeiriadau at asesiad ffurfiol lle bo angen.

### **Camau i'w cymryd gan Lywodraethwyr Carchardai:**

- sicrhau bod pob troseddwr sydd ag anabledd dysgu'n cael eu hadnabod pan gyrhaeddant y carchar.



## 4. Gofal a thriniaeth unigolion ag anableddau dysgu

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd arferion da yn ddibynnol ar ymarferwyr unigol yn hytrach nag ar gytundebau lefel gwasanaeth neu lwybrau a oedd yn pennu trywydd atgyfeirio.
- Os oedd nyrsys iechyd meddwl neu nyrsys anabledd dysgu hyfforddedig ar gael, roedd mynediad at wasanaethau yn fwy tebygol yn y carchar ac yn y gymuned.
- Roedd carcharorion ag anableddau dysgu yn aml yn ddibynnol ar gymorth anffurfiol gan staff neu garcharorion eraill am wybodaeth ar weithdrefnau carchar a help i gael atynt. Yn aml nid oedd cymorth ffurfiol ar gael. Hyd yn oed lle'r oedd gan garcharorion llun gofal, nid oedd yn cael ei rannu bob amser gyda staff perthnasol.
- Fe wnaeth rhai carcharorion adrodd am brofiadau gwael o weithdrefnau cwynion ac ychydig o ddefnydd a oedd o eiriolwyr i gefnogi'r grŵp hwn os oeddent yn cael dyfarniad.
- Dywedodd bron i hanner y carcharorion a gyfwelwyd eu bod yn teimlo'n annigol ar ryw bwynt a chafodd cyfran debyg eu hasesu fel rhai mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed. Nid oedd y rhan fwyaf o staff carchardai'n deall anghenion carcharorion ag anableddau dysgu na sut y gall eu hanabledd dysgu effeithio ar eu hymddygiad.

I rai pobl ag anabledd dysgu, gall dygymod â bywyd bob dydd fod yn frwydr ac i rai, gall newidiadau yn eu trefn arferol achosi gofid. Os oes yn rhaid iddynt hefyd gydymffurfio ag amodau gorchymyn cymunedol neu'r rheolau a'r rheoliadau o fewn carchar, gall bywyd fod yn fwy dryslyd a gofidus fyth. Felly, mae'r ffordd y caiff y grŵp hwn o droseddwr eu trin a'u cefnogi yn debygol o gael effaith ddofn ar eu gallu i gydymffurfio â'u dedfryd neu amser yn y ddalfa ac, i'r rheini a gaiff eu dedfrydu, i gwblhau'n llwyddiannus y gwaith sydd ei angen i'w helpu hwy ymatal rhag aildroseddu. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn carchar lle mae eu hanabledd dysgu yn debygol o effeithio ar bob agwedd o'u bywyd yn y ddalfa a lle mae gan staff carchar ddyletswydd o ofal i gadw carcharorion yn ddiogel a'u trin hwy â pharch.

### Gofal a thriniaeth – yn y gymuned

- 4.1 Mewn tair o'r chwe ymddiriedolaeth yr ymwelasom â hwy, roedd rheolwyr troseddwr yn gallu cael cymorth nyrsys seiciatrig cymunedol mewn swyddfeydd gwasanaethau prawf o leiaf ran o bob wythnos. Dywedodd rheolwyr troseddwr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent yn ei gael gan y nyrsys hyn. Fodd bynnag, fe wnaeth nyrsys seiciatrig cymunedol a gweithwyr arbenigol eraill fynegi pryder nad oeddent wedi cael dim, neu fawr ddim, hyfforddiant mewn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu.
- 4.2 Dywedodd rheolwyr troseddwr wrthym am eu rhwystredigaeth wrth geisio cael gwasanaethau eraill i dderbyn cyfrifoldeb am anghenion gofal y troseddwr. Dangosodd hyn bwysigrwydd ymddiriedolaethau prawf yn datblygu cytundebau lefel gwasanaeth gydag asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu.
- 4.3 Sylwasom ei bod, mewn swyddfeydd lle'r oedd nyrsys seiciatrig cymunedol, yn haws cael at wasanaethau eraill, a bod rheolwyr troseddwr yn teimlo'u bod yn cael gwell

cefnogaeth. Roedd hyn yn wir hefyd lle'r oedd timau rheoli troseddwr wedi datblygu perthynas dda gyda'u timau anabledau dysgu lleol.

- 4.4 Yn y mwyafrif o achosion a arolygwyd, roedd pawb o'r staff perthnasol a oedd yn gweithio gyda throseddwr yn cael gwybod am anghenion anabledd y troseddwr, fel arfer trwy hunan-ddatgeliad neu o wybodaeth a ddarparwyd gan deulu'r troseddwr. Roedd hyn yn neilltuol o bwysig pan oedd y troseddwr yn cael ei gyfeirio at asiantaethau eraill neu pan oedd rhannau o'r gorchymyn yn cael ei gyflawni gan staff prawf eraill.
- 4.5 Er inni ganfod nifer o garchardai'n cyflogi nyrsys anabledau dysgu, nid oedd hyn yn wir mewn ymddiriedolaethau prawf lle'r oedd y pwyslais wedi bod ar iechyd meddwl troseddwr yn hytrach nag anabledd dysgu.
- 4.6 Canfuom rywfaint o gydweithio da rhwng gwasanaethau iechyd, iechyd meddwl a gwasanaethau oedolion awdurdodau lleol. Roedd rheolwyr troseddwr yn canfod y cysylltiadau hyn i fod yn ddefnyddiol, yn enwedig pan oedd y gweithwyr hynny'n gweithio yn eu swyddfa. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus fod llawer o nyrsys seiciatrig cymunedol a gweithwyr iechyd eraill heb ddim neu fawr ddim profiad o weithio gyda phobl ag anabledau dysgu, a allai arwain at reolwyr troseddwr yn derbyn gwybodaeth ddryslud neu anghywir. Roeddem yn bryderus hefyd fod asiantaethau eraill yn gweld cynghori rheolwyr troseddwr fel rhywbeth a oedd yn cymryd lle darparu'r gwasanaethau gofal yr oedd gan troseddwr ag anabledau dysgu hawl iddynt.
- 4.7 Yn aml, roedd gan droseddwr ag anabledau dysgu anghenion cymhleth ac roeddynt yn adnabyddus i nifer o asiantaethau; iechyd, awdurdodau lleol, iechyd meddwl, gwasanaethau alcohol neu gyffuriau a'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r rheini o fewn y system cyfiawnder troseddol. Roedd angen clir am gydweithio agosach a rhannu gwybodaeth rhwng yr holl asiantaethau er mwyn sicrhau bod troseddwr yn derbyn y gwasanaethau'r oeddent eu hangen ac i osgoi dyblygu gwasanaethau.

*"Yr hyn y mae rhai gweithwyr carchardai a gwasanaethau prawf yn chwilio amdano yw gwasanaeth 'takeaway' – sef roedd arnynt eisiau rhywun i fynd â'r broblem i ffwrdd, yn hytrach na gweld triniaeth troseddwr ag anabledau dysgu fel cyfrifoldeb ar y cyd."*

**Arbenigwr blaenllaw mewn gweithio gyda throseddwr ag anabledd dysgu.**

- 4.8 Roedd angen cyflwyno canllawiau ac adnoddau sgrinio i helpu ymarferwyr sy'n gweithio gyda throseddwr ag anabledau dysgu, ynghyd â hyfforddiant o ansawdd da i bawb o'r staff. Heb hyfforddiant, mae perygl na fydd ymarferwyr yn defnyddio'r canllawiau a'r adnoddau a ddarperir. Mae angen hefyd am fwy o oruchwyliaeth rheolwyr i sicrhau bod canllawiau'n cael eu dilyn, a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau bod yr holl droseddwr yn derbyn y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a rheoli eu risg o niwed i eraill.
- 4.9 Roeddem yn bryderus fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn aml heb fod yn sylweddoli'n llawn beth oedd ar reolwyr troseddwr ei angen ganddynt. Dywedodd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrthym hefyd nad oeddent bob amser yn gwybod pan oedd un o'u cleientiaid wedi cael ei arestio neu hyd yn oed pan oeddent yn destun gorchymyn cymunedol. Dywedodd ymarferwyr iechyd meddwl wrthym eu bod yn aml yn methu â chael at systemau ffeilio iechyd i wirio unrhyw anghenion a adnabuwyd neu ymwneud â gwasanaethau eraill. Mae angen am gydweithio agosach a rhannu gwybodaeth rhwng pob asiantaeth sy'n gweithio gyda throseddwr ag anabledau dysgu.

- 4.10 Roedd ansawdd y berthynas rhwng y troseddwr a'r rheolwr troseddwr yn gyffredinol ddibynnol ar sgiliau ac ymroddiad y rheolwr troseddwr unigol, yn hytrach nag ar gytundebau lefel gwasanaeth wedi eu cynllunio neu lwybrau datblygedig at wasanaethau eraill. Roedd hyn yn arwain at ansawdd amrywiol mewn gwasanaethau rhwng yr ymddiriedolaethau ac o fewn timau.

## Gofal a thriniaeth – yn y ddalfa

### Cynlluniau gofal

- 4.11 I'r rheini ag anabledd dysgu, gall fod agweddau o fywyd carchar a bywyd o ddydd i ddydd sy'n anodd iddynt. Dylai cynlluniau gofal nodi anghenion unigolion, sut y gellir diwallu'r rhain ac unrhyw addasiadau rhesymol a all fod yn angenrheidiol. O'r herwydd gan cynllunio gofal fod yn ffurf neilltuol o bwysig o gefnogaeth i'r rheini ag anabledd dysgu. Dylai'r cynllun gofal gael ei ddrafftio trwy ymgynghori â staff preswyl, gyda chyfraniad gan wasanaethau iechyd lle bo'n berthnasol, i fynd i'r afael â materion gofal a chymorth mewn bywyd o ddydd i ddydd yn y carchar. Nid oedd gan bob carchar yr ymwelwyd â hwy swyddog cyswllt penodol ar gyfer anabledd ar adeg y gwaith maes; mewn rhai sefydliadau roedd y swydd wedi cael ei dileu ar ôl i'r adolygiad diweddar o swyddi staffio (meincnodi) fod wedi digwydd. Roedd gan un sefydliad yr ymwelwyd ag ef, fodd bynnag, nyrs anableddau dysgu yn ei swydd. Fodd bynnag, hyd yn oed pan oedd swyddog cyswllt anabledd neu nyrs anableddau dysgu ar waith, nid oedd gwybodaeth ac asesiadau gofal iechyd yn cael eu rhannu gydag ef neu hi.
- 4.12 Er bod anableddau dysgu wedi eu cynnwys yn y polisiau cydraddoldeb mewn carchardai, a bod gan swyddogion cyswllt rôl benodedig wrth gynllunio ar gyfer anghenion gofal carcharorion anabl; roedd y mwyafrif o enghreifftiau o gynllunio gofal a ganfuom yn ein gwaith maes gan wasanaethau iechyd o fewn y carchar. Hyd yn oed pan oedd cynllun gofal ar waith, nid oedd y mwyafrif o garcharorion yn ein sampl yn gwybod am fodolaeth cynllun gofal ar eu cyfer, na'i gynnwys.

*"Wn i ddim os oes gen i [gynllun gofal], mae un gan rai pobl."* **Sylw gan garcharor**

- 4.13 Anaml y câi cynlluniau gofal eu rhannu gyda staff adain neu ar gael yn ganolog i'r holl staff oedd yn ymwneud â gofalu am y carcharor. O'r herwydd, roedd staff mewn carchardai ar y cyfan heb fod yn gwybod cynnwys cynlluniau gofal a'r canllawiau y gallai cynllun eu cynnig ynghylch gofal unigolyn ag anabledd dysgu. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos yr effaith gadarnhaol y gall rhannu cynllun gofal gyda staff preswyl ei gael.

#### **Astudiaeth achos**

Dywedodd George wrthym gymaint yr oedd yn gwerthfawrogi ei berthynas gyda'i swyddog personol. Roedd George yn ei chael yn anodd bod o gwmpas grwpiau mawr o bobl ac, o'r herwydd, dangosodd ei gynllun gofal ei fod yn gallu cael ei brydau a'i feddyginiaeth yn ei gell a chael cawod ar adegau gwahanol i weddill yr adain. Fodd bynnag, er y teimlai George nad oedd ond nifer cyfyngedig o staff ar ei adain a oedd yn deall ei broblemau, dywedodd wrthym fod ei swyddog personol yn gweithio'n galed i'w helpu ar yr adain:

*"Dw i'n gyrru ymlaen yn wych gyda'm swyddog personol ... ef y oedd yr unig un a oedd yn arfer fy ngadael i allan yn rheolaidd am gawodydd ac i'r iard. Bob tro'r oedd yn mynd i ffwrdd am wythnos neu ddwy arferai adael nodyn ar y bwrdd yn atgoffa swyddogion i "adael George allan". Dw i'n eistedd i lawr gydag ef unwaith y mis ond bob amser yn sgwrsio gydag ef pan mae i mewn. Dw i'n teimlo'n gyfforddus mynd ato a chychwyn sgwrs. Alla' i ond gwneud hynny gydag un neu ddau o swyddogion."*

Roedd cofnodion gan swyddog personol George yn ffeil yr adain yn cydnabod pwysigrwydd y pwyntiau yn y cynllun gofal a'r effaith bosibl y gallai hyn ei gael pe na roddid sylw iddynt.

- 4.14 Yr eithriad nodedig oedd yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc lle canfuom yr unig enghraifft o gynlluniau gofal a oedd yn cynnwys staff preswyl ac yn cael eu rhannu'n gyson â hwy. Roedd Carchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc wedi cynhyrchu'r hyn a alwent yn 'Gynllun Byw â Chymorth' i'r rheini ag anghenion ychwanegol. Roedd y dogfennau hyn yn rhoi sylw i amrywiaeth o wahanol gyflyrau corfforol ac iechyd meddwl, namau ac anghenion (gan gynnwys anableddau dysgu) ac yn disgrifio sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain a'u rheoli. Gwelsom enghreifftiau o asesiadau trylwyr gan nyrs anableddau dysgu a oedd yn disgrifio ffyrdd ymarferol a syml y gellid rheoli'r carcharor yn y modd mwyaf effeithiol, a defnyddiwyd yr wybodaeth hon i gynhyrchu Cynllun Byw â Chymorth.
- 4.15 Mewn dau garchar, canfuom rywfaint o waith anffurfiol yn cael ei wneud i dynnu sylw staff at anghenion penodol rhai carcharorion ag anabledd dysgu, megis taflen wybodaeth i helpu staff adain i ddiwallu anghenion penodol unigolion.

*"Fe wnaeth [fy nghyn-weithiwr cymorth iechyd meddwl] gynllun i staff yr adain i'w helpu nhw ddygymod yn well gyda mi."*

*"Fe ysgrifennodd y tim mewngymorth ddogfen gyda mi, roedd wedi ei eirio gyda'n gilydd, er mwyn i'r swyddogion wybod amdanaf; mae bron â bod yn llawlyfr diogelwch."*

*"Helpu paratoi dogfen i'w rhoi i staff yn esbonio pethau; Datganiad o Anghenion Addysgol. Dw i'n chwarae rhan ac maen nhw'n dangos popeth imi."*

### Cyswllt gyda staff

- 4.16 Yn y carchardai yr ymwelasom â hwy, roedd hyfforddiant staff mewn anableddau dysgu yn amrywio. Mewn dau garchar dywedwyd wrthym fod rhywfaint o hyfforddiant wedi bod i staff perthnasol gan naill ai'r nyrs anableddau dysgu neu'r tim anableddau dysgu cymunedol. Yng ngweddill y carchardai, fodd bynnag, roedd hyfforddiant wedi'i gyfyngu i unigolion penodol megis y swyddog cyswllt anabledd neu'r swyddog cydraddoldeb.
- 4.17 Roedd y diffyg hyfforddiant hwn i staff yn amlwg yn yr hyn a ddywedodd carcharorion wrthym. Er i'r mwyafrif o garcharorion a gyfwelasom ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod y rhan fwyaf o'r staff yn y carchar yn eu trin gyda pharch, dywedodd nifer bach wrthym nad oedd hyn yn digwydd, gyda rhai'n priodoli'r canfyddiad hwn yn uniongyrchol i ddealltwriaeth y staff o'u hanabledd dysgu.

*"Dw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n deall fy anabledd dysgu. Mae'n fy ngwneud i'n flin. Bydd un neu ddau [o swyddogion] yn dod ac eistedd i lawr a siarad gyda mi. Y cyfan fydd eraill yn ei ddweud yw 'pam wyt ti'n wyllo' a cherdded i ffwrdd."*

*"Mae rhai swyddogion nad ydynt yn deall [problemau iechyd meddwl, awtistiaeth]. Mae'n rhaid iddyn nhw ddeall yn fy achos i fy mod i'n casáu newid. Alla' i mo'i ddiodef."*

*"Mae rhai o'r staff nad ydyn nhw'n deall fy diagnosis. Mae adwaith y staff ataf i'n peri gofid imi a dw i'n mynd yn flin gyda nhw. Mae hyn yn achosi problemau imi."*

- 4.18 Roedd hyd yn oed y carcharorion a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu parchu gan staff, yn teimlo'n aml nad oedd staff yn deall yn llawn eu diagnosis neu faterion cysylltiedig.

*"Dw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n deall o ddifrif beth yw rhai o'm problemau. Er eu bod nhw'n fy nhrin i gyda pharch nid oes yr un math o ddealltwriaeth."*

*"Dw i'n hapus i fynd atyn nhw [staff]. Y pethau y bydd y Meddyg yn dweud amdanynt wrthyn nhw fydd y pethau y gallen nhw fod wedi'u colli, fel sut dw i'n hoffi treulio amser yn fy nghell, nid oherwydd fy mod i'n anhapus ond oherwydd fy mod i'n hoffi bod yno. Dw i ddim yn meddwl bod y staff yn deall yn llawn ar y funud."*

*"Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw [yn fy nhrin i gyda pharch], ydyn. Dw i'n meddwl eu bod nhw'n gwybod amdano [awtistiaeth] ond dw i ddim yn siŵr ydyn nhw'n gwybod llawer amdano. Mewn rhai ffyrdd mae'n ei wneud yn fwy anodd gan nad ydyn nhw gwybod o ddifrif sut i fy neall i'n iawn."*

- 4.19 Dywedodd un carcharor wrthym hyd yn oed nad oedd staff, oherwydd ei fod yn gallu darllen ac ysgrifennu, yn cydnabod y gallai brofi problemau eraill ynghylch dealltwriaeth neu fyw o ddydd i ddydd.

*"Mae'n broblem er hynny, oherwydd y gallaf ddarllen ac ysgrifennu, mae swyddogion yn tybio nad oes gen i anhwylder. Maen nhw'n seilio eu barn ar ddeallusrwydd yn hytrach na sut dw i'n ymddwyn."*

- 4.20 Yn ein cyfweiliadau, roedd ymatebion cymysg gan garcharorion ynghylch pa mor barod i helpu yr oedd y staff yn eu golwg hwy. Dywedodd nifer o garcharorion wrthym nad oeddent yn teimlo'u bod yn gallu mynd at staff pan oedd arnynt angen help neu'n teimlo na fyddai gan y staff yr amser i'w helpu.

*"Fyddai dim amser gan y staff. Maen nhw bob amser yn dweud wrthy ch eu bod nhw'n brysur."*

*"Dw i'n gallu deall pethau'n fras [gwybodaeth ysgrifenedig]. O ran pethau sylfaenol dw i'n gofyn i rywun esbonio i mi, ond gyda phethau pwysig wyddoch chi ddm pwy allwch chi siarad â nhw a phwy allwch ymddiried ynddyn nhw. Dw i'n fwy agored i niwed ac fe all pobl gymryd mantais arnoch chi. Mae rhai swyddogion y gallwch chi ymddiried ynddyn nhw a rhai na allwch chi."*

*"Dw i ddim yn siarad gyda phobl â dweud y gwir. Dw i'n chael yn anodd siarad gyda phobl."*

*"Os nad ydw i'n deall rhywbeth, dw i'n ceisio gwneud y gorau o bethau. Dw i ddim yn hoffi gofyn i'r swyddogion gan y byddan nhw'n meddwl fy mod i'n dwp a dw i ddim yn gofyn i'r carcharorion gyda fy ngorbryder cymdeithasol."*

- 4.21 Archwiliasom ffeiliau adain carcharorion yn ein sampl i chwilio am dystiolaeth o ryngweithio staff neu gydnabyddiaeth o anabledd dysgu carcharor. Roedd y ffeiliau adain yr edrychasom arnynt yn gymysg o ran ansawdd; roedd rhai yn brin ac arwynebol eu cynnwys, tra bod eraill yn fanwl ac yn dangos lefel dda o ryngweithio staff â charcharorion, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'u hamgylchiadau personol. Er gwaethaf hyn, nid oedd unrhyw ffeiliau adain ar gyfer y rheini yn ein sampl lle'r oedd cofnodion

staff yn gyson yn dangos cydnabyddiaeth neu ddealltwriaeth glir ac amlwg o anabledd dysgu'r carcharor.

### Cefnogaeth gofal iechyd

- 4.22 Fe wnaeth nifer bach o garcharorion y cyfwelasom â hwy siarad am gysylltiad â'r nyrsys anabledd dysgu yn y carchardai, ond nid oedd y cyswllt hwn yn digwydd yn rheolaidd bob amser. Lle'r oeddent mewn cysylltiad â nyrs anableddau dysgu, dywedodd carcharorion wrthym y byddai'r nyrs yn gyffredinol yn dod i wirio eu lles a darganfod a oedd unrhyw broblemau ar yr adain. Dywedodd rhai carcharorion a siaradodd ynghylch cefnogaeth gan nyrs anableddau dysgu eu bod yn sylweddoli y gellid cysylltu â'r nyrs petaent yn profi unrhyw broblemau.

*"Mae nyrs anableddau dysgu y gallwn ei gweld os oes arnom eisiau hynny. Dw i ond wedi ei gweld wrth gael fy sefydlu."*

*"Dw i hefyd yn gweld nyrs unwaith yr wythnos. Mae'r nyrs yn rhywun i siarad â hi ac mae'n ceisio rhoi gwybod i staff am fy anabledd."*

- 4.23 Fe wnaeth amryw o garcharorion yn ein sampl drafod y ffordd yr oeddent wedi ymwneud â'r tîm iechyd meddwl neu'r nyrsys anableddau dysgu. Roedd y mwyafrif yn cael y rhyngweithiau hyn yn ddefnyddiol.

*"Maen nhw'n fy helpu i gryn dipyn. Mae'r nyrs anableddau dysgu'n dod i 'ngweld i gryn dipyn."*

*"Mae'n rhagorol. Alla' i ddim diolch digon iddyn nhw. Yr hyn [y mae'r seicolegydd clinigol] wedi'i wneud i mi a'm teulu alla' ddim esbonio."*

### Gweithwyr cefnogaeth cymheiriaid

- 4.24 Roedd cynlluniau sy'n anelu at ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid i garcharorion ar waith mewn rhyw ffurf ym mhob carchar yr ymwelasom ag ef. Roedd rhai'n darparu cefnogaeth yn ystod dyddiau cynnar carcharor, eraill ar unedau preswyl, neu i helpu gydag addysg/dysgu darllen. Cynlluniau cyffredinol cefnogaeth cymheiriaid oedd y mwyafrif yn hytrach na rhai wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer carcharorion ag anableddau dysgu, er y gallai unrhyw garcharor ddefnyddio'r cynlluniau hyn.
- 4.25 Yn ein cyfweiliadau gyda charcharorion, fe wnaeth rhai ohonynt enwi mentoriaid neu garcharorion a fyddai'n rhoi cymorth rheolaidd iddynt ac roedd y rhain yn cynnwys mentoriaid a gwrandawyr 'Toe-by-Toe'. Cymysg oedd y farn gan garcharorion yn ein cyfweiliadau ynghylch sut y teimlent am y cynllun cefnogaeth gan gymheiriaid a oedd ar waith yn y carchar.

*"Mae gen i diwtor un-i-un. Mae hi'n garcharor ac mae hi'n helpu pobl ag anableddau dysgu. Dw i'n ei gweld hi bob dydd. Mae hi'n helpu gyda mathemateg a Saesneg. Dw i'n ei gweld hi yn [y gweithgareddau] addysg."*

*"Mae cyfeillion a gwrandawyr yn dda ond mae gen i broblemau o ran ymddiried ynddyn nhw."*

*"Roedd gen i fentor, mae gofalwr gen i nawr. Mae'n fy helpu i lenwi ffurflenni i mi ac mae'n dod i sicrhau bod fy ystafell yn daclus. Mae'n gwirio bod fy anghenion o ddydd i ddydd yn cael eu diwallu."*

- 4.26 Yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwy Ifanc Parc roedd y cynllun cefnogaeth cymheiriaid wedi datblygu'n neilltuo o dda. Roedd mentoriaid cymorth yn cael eu neilltuo ar gyfer carcharorion ag anableddau dysgu; roeddent yn gweithredu fel ymgynghorwyr, eiriolwyr a chyfryngwyr i'r carcharorion ag anableddau dysgu, a oedd yn helpu yn eu rhyngweithio gyda staff a charcharorion. Roeddent yn effeithiol hefyd wrth gefnogi carcharorion ag anableddau dysgu o ran gwella'u sgiliau, addysg ac ymwneud cymdeithasol.

### **Gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion**

- 4.27 Dywedodd traean o'r carcharorion y gwnaethom eu cyfweld wrthym eu bod wedi cael cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion cyn dod i'r carchar, er bod y mwyafrif wedi dweud wrthym bod y cyswllt hwn wedi peidio ers cyrraedd y carchar. Dywedodd carcharorion wrthym iddynt, pan oeddent yn y gymuned, dderbyn help gyda byw o ddydd i ddydd, megis llety, budd-daliadau a manteisio ar gyfleoedd gwaith ac addysg.
- 4.28 Dywedodd ychydig o garcharorion wrthym fod eu cyswllt â gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion wedi parhau yn y carchar, er nad oedd pawb ohonynt mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol yn uniongyrchol eu hunain. Mewn rhai achosion, cafodd y cyswllt ei gynnal trwy deulu carcharor ac mewn rhai amgylchiadau dywedwyd wrthym gan staff iechyd meddwl fod y gweithwyr cymdeithasol wedi cysylltu'n uniongyrchol â hwy i wirio ynghylch eu cleientiaid.

*"Daeth un i 'ngweld i [yn y carchar]; daeth i weld fy mod i'n iawn a holi a oedd gofal iechyd yn fy nhrin i'n iawn. Dw i wedi cael cyswllt ffôn gydag un arall ohonyn nhw."*

*"Mae hi [y gweithiwr cymdeithasol] wedi bod yn cysylltu gyda fy mam, ond nid gyda mi."*

*"Ro'n i'n eu gweld nhw bron bob wythnos cyn imi ddod i'r carchar. Dw i ddim wedi eu gweld nhw ers imi fod yma. Fe ddaethon nhw i 'ngweld i'r tro diwethaf o'n i yma [yn y carchar]. Fe wnaeth i gysylltu gyda 'nhad i weld sut y gwnes i ddod ymlaen yn y llys a dywedodd efallai y byddai hi'n gallu fy ngweld pan gaf i fy nhrosglwyddo."*

*"Ro'n i wedi bod â'm rhif gwasanaethau cymdeithasol ar fy pin am amser hir, maen nhw wedi newid swyddfeydd a dydyn nhw ddim yn gadael imi newid y rhifau. Fe wnaethon nhw ddweud nad oes gen i rif 18+ ond roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn y broses o ddelio â hynny."*



## Gofal cymdeithasol oedolion

4.29 Mae *Bil Gofal Cymdeithasol 2014* (a ddaw yn gyfraith fel *Deddf Gofal 2014* yn 2015) yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau waeth beth fo barn yr awdurdodau o anghenion yr oedolyn am gymorth neu adnoddau ariannol. Wrth wneud asesiad, rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r person o dan sylw ac unrhyw berson arall y mae testun yr asesiad yn ei enwebu. Dylai fod yn bosibl i reolwyr troseddwyr, gweithwyr iechyd meddwl a gweithwyr anabledau dysgu chwarae rhan yn yr asesiad o anghenion yr oedolyn. Mae'r Ddeddf, ynghyd â gosod y cyfrifoldeb am asesu ar yr awdurdod lleol, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau cymorth gofal cymdeithasol i bersonau cymwys, gyda'r cyfrifoldeb yn parhau gyda'r awdurdod lleol hyd yn oed pan gaiff yr oedolyn ei gadw yn y ddalfa. Pan ysgrifennir hyn, mae effaith *Deddf Gofal 2014* ar garchardai yn dal i fod yn aneglur. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i benderfynu sut bydd y Ddeddf newydd yn cael ei gweithredu mewn carchardai, gwasanaethau prawf a'u partneriaid awdurdodau lleol.

## Gwybodaeth a systemau carchardai

4.30 Gofynasom i'r carcharorion y cyfwelasom â hwy a oedd angen help arnynt i wneud pethau ar yr adain, megis tasgau o ddydd i ddydd. Roedd mwyafrif llethol y problemau a grybwyllwyd gan ein sampl yn ymwneud â materion ynghylch darllen ac ysgrifennu, a deall a defnyddio gweithdrefnau carchardai a oedd yn dibynnu'n helaeth ar allan darllen rhybuddion neu gwblhau ffurflenni, rhywbeth yr oeddent yn aml yn methu â'i wneud heb help.

## Sefydlu

4.31 Dywedodd y mwyafrif o garcharorion y buom yn siarad â hwy iddynt fod ar gwrs sefydlu. Dywedodd y rhain yn gyffredinol fod y sefydlu wedi digwydd mewn grŵp mawr. Dywedodd amryw o garcharorion wrthym eu bod yn ei chael yn anodd dygymod mewn grwpiau mawr ac nad oeddent bob amser yn teimlo y gallent ofyn cwestiynau neu am eglurhad/help pan nad oeddent yn deall rhywbeth.

*"Os nad ydw i'n deall, dw i'n dweud wrthyn nhw nad ydw i'n deall. Os ydw i'n dweud hyn ormod o weithiau ac mae'n dechrau mynd yn ddiflas, maen nhw'n dweud wrtha' i y byddan nhw'n dod yn ôl ata' i am sgwrs un-i-un ... Y rhan fwyaf o weithiau dw i ddim yn deall, ond weithiau, o ran ymyrraeth, dw i'n dweud fy mod i."*

*"Ni ddaeth neb i'm helpu [i ddeall]. Y cyfan allwn i ei wneud oedd gwranddo."*

4.32 Teimladau cymysg oedd gan rai carcharorion y cyfwelasom â hwy o ran y graddau yr oeddent wedi deall yr wybodaeth a roddwyd iddynt yn ystod yr adeg yma, neu pa mor hir yr oeddent wedi gallu cofio'r wybodaeth ar ôl y digwyddiad.

*"Ro'n i'n gwranddo ar yr hyn roedden nhw'n ei ddweud ond, erbyn yr adeg yr o'n i wedi gadael yr ystafell, roedd wedi mynd."*

*"Roedden nhw'n gwneud pethau'n rhy gymhleth. Doedden nhw ddim yn esbonio o ddifri sut i wneud pethau."*

- 4.33 Caiff cyflwyniadau sefydlu eu gwneud gan garcharorion mewn llawer o garchardai. Mae trosiant mawr o garcharorion yn y rôl hon yn aml, anaml y cânt eu hyfforddi mewn sgiliau cyfathrebu a gall ansawdd eu cyfathrebu amrywio. Yn aml nid yw ond yn cael ei gyflwyno fel cyflwyniad PowerPoint hir.
- 4.34 Yn y mwyafrif o sefydliadau yr ymwelasom â hwy, roedd rhywfaint o ystyriaeth wedi cael ei roi i fformat deunydd ysgrifenedig sefydlu; roedd wedi cael ei ysgrifennu'n syml ac, mewn rhai achosion, roedd cynrychioliadau darluniadol wedi cael eu defnyddio i'w wneud yn haws ei ddehongli. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson drwy bob sefydliad ac un carchar yn unig oedd â gwybodaeth sefydlu wedi eu ddylunio'n ffurfiol mewn Easy Read, fformat gydag iaith wedi'i symleiddio a chynrychioliadau darluniadol a ddyluniwyd i wneud deunydd ysgrifenedig yn haws ei ddehongli. Dywedodd rhai carcharorion y siaradasom â hwy eu bod wedi cael trafferth neilltuol i ddeall yr wybodaeth ysgrifenedig neu agweddau cyfrifiadurol y sefydlu ar eu pen eu hunain, a dywedasant fod arnynt angen help ar y cam hwn. Pryder inni mewn un carchar oedd bod dogfennau yr oedd yn ofynnol i garcharorion eu harwyddo yn ystod eu sefydlu, megis cytundebau cyfrinachedd ac amrywiol gytundebau eraill, yn gymhleth ac yn anodd eu deall.
- 4.35 Roedd gan rai carchardai yr ymwelasom â hwy fentoriaid, cyfeillion neu ddesg gwybodaeth carcharorion i gynorthwyo carcharorion wrth gael eu sefydlu a dywedwyd wrthym fod hyn yn un dull a allai fod o gymorth cadarnhaol wrth gyfathrebu â charcharorion ag anghenion ychwanegol, megis anabledd dysgu.

*"Roedd rhaid imi ddarllen rhai pethau ond allwn ni mo'i ddarllen, fe wnaeth rhywun fy helpu."*

*"Fe wnaeth rhywun, carcharor arall, fy helpu pan oeddwn ar y cyfrifiadur."*

### **Gwybodaeth ar adain carchar**

- 4.36 Edrychasom ar y graddau yr oedd deunyddiau ar gael mewn Easy Read. Ym mhob sefydliad yr ymwelsom ag ef, roeddem yn gallu cael hyd i enghreifftiau o rybuddion a ffurflenni a oedd wedi cael eu dylunio mewn Easy Read, yn fwyaf cyffredin, eitemau megis y rhestr cyfleusterau, bwydlenni a rhestrau ffreutur. Fodd bynnag, enghreifftiau oedd y rhain yn hytrach na phethau'n cael eu gwneud fel mater o drefn, ac nid oeddent yn gyson drwy bob carchar. Dywedodd carcharorion wrthym nad oeddent wedi gweld llawer o wybodaeth ar gael mewn Easy Read a'u bod yn ei chael yn anodd gyda'r rhan fwyaf o wybodaeth ysgrifenedig o ddydd i ddydd.

*"Roedd y rheolau IEP newydd yn llyfryn tua wyth tudalen ac fe gymerodd tua thri neu bedwar diwrnod imi ei ddeall. Mae rhai pethau mewn Easy Read; bwyd, bwydlenni'r ffreutur, rhybuddion sylfaenol. Nid [mewn Easy Read] mae wyth deg y cant o'r hyn a roddir inni ac mae disgwyl inni ei ddeall."*

- 4.37 Mewn un carchar, roedd swyddog wedi cael ei hyfforddi mewn sut i ddylunio gwybodaeth ysgrifenedig mewn Easy Read ac wedi cynhyrchu amryw o ddogfennau defnyddiol megis canllawiau i ymddangosiadau llys, gwybodaeth sylfaenol bwysig, canllawiau i ddyfarniadau ac ar ddarpariaeth iechyd meddwl.

### **Astudiaeth achos**

Yn ogystal â chael trafferth gyda ffurflenni ysgrifenedig, dywedodd Sian wrthym ei bod yn ei chael yn anodd defnyddio'r system 'pod' electronig. Roedd carcharorion yn ddibynnol ar y system hon ar gyfer y mwyafrif o dasgau o ddydd i ddydd, megis archebu ymweliadau a gwneud ceisiadau. Dywedodd Sian y byddai fel arfer yn gofyn i garcharorion am help gyda thasgau sylfaenol o ddydd i ddydd ond y byddai weithiau'n gofyn i aelodau staff am help.

*"Rydych chi'n mynd ar y pod [i archebu ymweliadau]. Mae'r merched ar yr uned yn fy helpu. Pe na bai neb yn fy helpu yna sut fyddwn i'n ei wneud?"*

Roedd cofnodion ffeiliau adain gan staff yn nodi bod Sian yn ei chael yn anodd cofio'r wybodaeth a roddwyd iddi ynghylch amrywiol weithdrefnau ar sut y dylai wneud cais am bethau; roedd amryw o enghreifftiau o staff yn esbonio pethau i Sian, ond ar ôl i amser fynd heibio, byddai'n rhaid iddi ofyn eto.

Nododd cofnodion eraill fod Sian yn ddryslyd ynghylch gweithdrefnau o ddydd i ddydd ar yr adain a bod hyn yn peri gofid iddi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfeiriad y gallai hyn fod yn gysylltiedig â'i hanabledd dysgu cydnabyddedig.

### **Ceisiadau**

- 4.38 Dywedodd y mwyafrif o garcharorion y gwnaethom siarad â hwy eu bod wedi deall sut i wneud cais ond dywedodd y mwyafrif y byddent angen cymorth i wneud hynny.

*"Mae fy ffrinid yn ei ysgrifennu i mi. Dw i'n cael hyn yn hawdd [gwneud cais]. Pe na bai yno byddwn i'n gofyn i garcharor arall. Mae'r 'apps' ar yr adain; unwaith y mae wedi'i lenwi dw i'n ei roi i'r swyddog."*

*"Mae ffurflenni cais yn ddiwerth. Dw i ddim yn gwir deall ffurflenni, fe fydda i'n eu llenwi cystal ag y gallaf; naw gwaith allan o ddeg dw i'n eu cael nhw'n anghywir. Dw i'n dweud wrth yr athrawes Saesneg ac fe roddodd rywfaint o wybodaeth imi. Os nad ydych chi'n llenwi'r ffurflen yn gywir, yna 'tough luck'. Mae fy athrawes Saesneg yn ceisio helpu, gan lenwi hanner uchaf y ffurflen gais."*

- 4.39 Roedd dau o'r carcharorion a gyfwelasom, fodd bynnag, nad oeddent yn glir o gwbl ynghylch y broses o wneud cais.

*"Mae'r merched eraill yn helpu. Weithiau rydych chi'n eu gwneud nhw ar pod ac weithiau ar bapur. Mae angen help arnaf i ddefnyddio'r pod a llenwi'r papur."*

- Cydar *"Dw i erioed wedi gweld cais. Fyddwn i ddim hyd yn oed yn ceisio'i wneud. Fe fyddwn i'n mynd at reolwr adain, dyna fyddai fy unig ddewis arall."*

- 4.40 Dywedodd rhai carcharorion wrthym na fyddent yn symud ymlaen gyda'u cais pe na allai'r staff ddeall beth yr oeddent wedi gofyn amdano, neu os nad oeddent yn teimlo'n gysurus gydag agweddau o'r broses.

*"Dw i'n cael ffurflen gais ac yn ceisio rhoi'r geiriau yr ydw i'n teimlo sy'n iawn. Mae swyddogion wedi tynnu sylw at gamgymeriadau sillafu unwaith neu ddwy, rhywbeth nad yw'n gwneud imi deimlo'n dda. Mae fel eu bod nhw'n cael hwyl. Os na allaf gael hyd i'r geiriau, yn aml dw i ddim yn trafferthu."*

*"Os ydych chi'n cael 'app' arferol, gallai rhywun ddod a'ch gweld chi neu fe allai fod arnyn nhw eisiau ichi ysgrifennu pethau personol i lawr neu ddweud 'pam fod arnoch eisiau ein gweld ni?' Os yw hynny'n digwydd dw i'n anwybyddu'r peth ac yn ei ddatrys mewn ffordd arall."*

*"Mae yna bobl dw i'n meddwl y gallai fy helpu ond mae arnyn nhw angen caniatâd. Fe alla' i geisio ysgrifennu ond mae'r geiriau'n dod allan yn wahanol [i'r hyn sydd arnaf ei eisiau]."*

- 4.41 Esboniodd y mwyafrif o garcharorion y cyfwelasom â hwy y byddai, i weld meddyg neu nyrs, yn ofynnol iddynt roi cais i mewn ac, felly, y byddent yn wynebu'r un rhwystrau'r oeddent yn eu profi wrth wneud ceisiadau cyffredinol. Dywedodd nifer bach ohonynt wrthym y byddent yn mynd yn uniongyrchol at staff adain neu at nyrs wrth gasglu eu meddyginiaeth a gofyn am i apwyntiad gael ei drefnu ar eu cyfer.
- 4.42 Yn yr un modd, roeddent yn wynebu'r rhwystrau hyn wrth geisio trefnu ymweliadau y mae archeb ymweld yn ofynnol ar eu cyfer.

*"Dw i ddim yn gwybod yn iawn sut i archebu ymweliad ond gyferbyn â mi mae rhywun a ddywedodd pe cawn VO [archeb ymweld], yna byddai'n fy helpu i'w lenwi."*

*"Dw i'n mynd at yr aelod o staff. Fe fyddwn i'n mynd atyn nhw a dweud fod arna i eisiau ymweld ac fe fydden nhw'n ei drefnu imi. Maen nhw'n gwybod pa ddyddiau dw i'n cael fy ymweliadau felly maen nhw'n sicrhau ei fod yn barod i fynd."*

## Cwynion

- 4.43 I garcharor ag anabledd dysgu, roedd y dasg o geisio gwneud cŵyn yn arwain at sawl her. Dywedodd nifer o'r rheini y gwnaethom eu cyfweld wrthym am eu profiadau.

*"Gyda chwynion, fel arfer mae'n rhaid ichi eu llenwi nhw i mewn eich hun gan eu bod fel arfer ynghylch aelod o staff. Mae'n hawdd [gwneud cŵyn] ond gyda fy nghamgymeriadau sillafu mae fel arfer yn dod yn ôl gyda 'ddim yn deall' neu 'ddim yn berthnasol'. Dw i fel arfer yn ei rwygo gan ei bod yn amlwg nad ydw i wedi cael fy mhwynt drosodd. Fyddwn i ddim yn trio eto na mynd at neb arall."*

*"Fe wnes i gŵyn ac fe ddaeth yn ôl a gofynnwyd imi esbonio mwy felly y cyfan a wnes oedd ei anwybyddu a'i daflu. Yn y diwedd fe es i at swyddog ac fe aethon nhw dros ben rhywun arall i gael ei ddatrys."*

*"Pe bawn i'n gwneud cŵyn am y ffordd yr o'n i'n cael fy nhrin, yna byddai'n rhaid imi symud o'r adain. A dw i'n teimlo'n gysurus ar yr adain yma mewn gwirionedd [felly ni fyddai gen i eisiau symud]. Dw i ddim yn newydd yr adain yma mwyach, felly mae'r carcharorion yn fy adnabod i."*

- 4.44 Gofynasom i garcharorion a oeddent yn gwybod bod ymwelwyr o'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) o fewn y carchar y gallent fynd ag unrhyw gwynion neu bryderon atynt.

*"Dw i wedi clywed amdany'n nhw ond fyddwn i ddim yn gwybod sut i gysylltu â nhw, cais dw i'n meddwl. Dw i ddim yn gwybod yn iawn beth maen nhw'n ei wneud."*

*"Dw i ddim yn meddwl fy mod i wedi clywed amdany'n nhw, dw i ddim wedi dod ar eu traws."*

- 4.45 O'r carcharorion hynny a ddywedodd eu bod nhw wedi clywed am yr IMB, dywedodd y mwyafrif wrthym eu bod wedi cael gwybod amdanynt trwy eu hamser yn y carchar neu o'r posteri a oedd yn cael eu harddangos ar eu hadain.
- 4.46 Dywedodd rhai o'r carcharorion a oedd wedi ceisio cael at yr IMB wrthym iddynt gael llwyddiant amrywiol.

*"Mae yna ffurflen yn rhywle ar y landing. Fe wnes i siarad ag un ohonyn nhw, fe wnaeth gymryd fy enw. Ni ddaeth neb yn ôl ataf."*

*"Dw i wedi gwneud hyn un waith o'r blaen ac fe ddaeth yna fenyw i'm gweld; roedd yn ymwneud â gwaith. Ro'n i'n rhy 'risg uchel' i weithio yn fy ngharchar blaenorol ac fe wnaeth hyn fy nilyn i yma. Ro'n i'n llenwi 'apps' ond roedden nhw'n dweud wrtha i fy mod i'n rhy 'risg uchel'. Fe wnaeth yr IMB ei ddatrys. Fe wnes i lenwi ffurflenni ac fe siaradodd hi gyda swyddog ac fe wnaeth SO [uwch swyddog] ar yr adain ddatrys pethau."*

- 4.47 Gofynasom hefyd i garcharorion os oeddent yn gwybod sut i gysylltu â'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) i ddyrchafu cŵyn unwaith yr oedd gweithdrefn fewnol y carchar wedi cael ei dihysbyddu. Er mai ychydig garcharorion yn ein sampl a wyddai pwy

oedd y PPO, roedd un carcharor y cyfwelasom ag ef, fodd bynnag, wedi llwyddo i gysylltu â hwy.

*"Fe wnaeth rhywun o'r gaplaniaeth fy helpu i gwyno. Fe ges i ymateb nad oeddwn yn hapus ag ef, felly fe lenwais Ffurflen 1, ac ro'n dal heb fod yn hapus. Ysgrifennais at y PPO; cefais ymateb yn dweud eu bod yn brysur ac y bydden nhw'n dod yn ôl ataf. Fe wnaethon nhw gadarnhau fy nghŵyn a dweud y byddwn i'n derbyn ymddiheuriad gan y Llywodraethwr."*

### Teimladau o ddiogelwch ac erledigaeth

- 4.48 Dywedodd bron i hanner yr holl garcharorion y gwnaethom eu cyfweld iddynt deimlo'n anniogel yn y sefydliad. Roedd y rhesymau'r amrywio o ran pam nad oedd carcharorion yn teimlo'n ddiogel yn y sefydliad ac yn ymwneud â nifer o faterion gwahanol ar draws y carchardai.

*"Dydyn nhw ddim yn gwybod sut i edrych ar ôl pobl sydd â phroblem iechyd [corfforol]."*

*"Dw i wedi dioddef ymosodiad dair gwaith."*

- 4.49 Fodd bynnag, roedd amryw o garcharorion a ddywedodd wrthym nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn cysylltu hyn yn uniongyrchol â'u hanabledd dysgu.

*"Mae methu deall rhai o'r rheolau a'r rheoliadau ynddo'i hun [yn gwneud imi deimlo'n anniogel]."*

*"Weithiau dw i ddim yn teimlo'n ddiogel o gwbl. Fe allwch chi deimlo'n agored iawn i niwed, bydd rhai pobl yn dod i'ch gofod personol a'ch bywyd personol ac yn ceisio'ch rheoli chi ond fe allwch chi ddal eich tir yn eu herbyn."*

*"Dw i ddim yn hoffi synau uchel na phobl o'm cwmpas i. Alla i mo'i esbonio'n iawn. Weithiau dw i'n mynd yn nerfus, mae atgofion yn dod yn ôl o leoedd eraill [yr ydw i wedi bod ynddyn nhw] ... mae'r unedau yma yn wirioneddol fawr ac mae'n wirioneddol uchel ar [yr adain yma] oherwydd mae'n adain ddadwenwyno."*

- 4.50 Dywedodd rhai o'r carcharorion hyn wrthym am y camfanteisio yr oeddent wedi'i ddioddef oddi wrth garcharorion eraill, neu broblemau y teimlent eu bod wedi codi o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd dysgu.

*"Un o'r pethau mawr yw nad ydw i'n deall bwriadau pobl a'r hyn maen nhw'n ei feddwl. Roedd yn broblem gan na allwn ddarllen pobl. Fe es i'r capel, gofynnodd rhywun imi ddal llyfr ac fe roddodd ef yn fy mhoced. Daeth swyddog draw a gofyn imi pan fod y llyfr gen i. Wrth lwc, esboniodd carcharor arall nad fy mai i oedd hyn."*

*"Pan nad ydw i'n deall pethau dw i weithiau'n colli fy nhymer neu'n cloi fy hun oddi wrth bawb. Dywedodd [carcharorion eraill] 'pam ddylwn i gael swydd pan na alla i reoli fy hun?"*

*"Roedd llawer o ferched yn ymbil yn daer imi am faco. Ro'n i'n dal i'w roi i ffwrdd. Y tro cyntaf y rhoddais rywaint fe ddywedodd hi na fyddai hi'n dweud wrth neb. Y diwrnod wedyn roedd 20 o bobl y tu allan i'm cell. Fe wnaeth staff fy rhoi yn y swyddfa ac wedyn fy symud i adain H. Dw i ddim wedi cael dadl ers hynny."*

- 4.51 Roedd ychydig iawn o garcharorion yn ein cyfweiliadau a ddywedodd wrthym iddynt brofi erledigaeth gan aelodau staff. O'r nifer bach o garcharorion a ddywedodd hyn wrthym, roeddent yn gyffredinol yn enwi swyddog ar eu hadain nad oeddent 'yn gyrru ymlaen â hwy' ac y teimlent eu bod yn annheg neu'n ddirmygu yn eu hymddygiad tuag atynt.
- 4.52 O'r carcharorion y gwnaethom eu cyfweled, ac nid oedd pawb o'r rhain wedi dioddef erledigaeth, roedd teimladau cymysg ynghylch a fyddent yn gallu mynd at staff, neu a fyddai staff yn gallu gwneud unrhyw beth am yr erledigaeth.

*"Mae rhai pobl yn bwlio ond dydyn nhw ddim yn sylweddoli eu bod yn gwneud hynny. Mae'n fy nychryn i. Dw i ddim yn dweud hynny wrth swyddogion ac allwch chi ddim cyfleu eich pwynt iddyn nhw'n iawn, sy'n gwneud ichi deimlo'n annifyr. Fe fyddwch chi'n eu cael nhw i drwbl neu eich hun i drwbl, yna fe fyddwch chi'n cael eich galw'n achwynwr ac mae'n rhoi eich bywyd mewn perygl."*

*"Fe wnes i ddweud wrth 'safer custody' ac maen nhw'n meddwl bod popeth wedi'i ddatrys ond does gan swyddogion [yr adain] ddim eisiau'i ddatrys. Mae yna rai eraill yn y carchar yma sydd naill ai wedi fy nharo ar fy mhen neu wedi fy mygwth i'n eiriol. Dyw'r swyddogion sydd yma ddim yn mynd i'r afael â bwlio."*

*"Pe na allwn fynd i'r afael â'r peth fy hun dw i'n gwybod y byddai'r staff yno."*

- 4.53 Roedd gan staff carcharu diogelach rywaint o ymwybyddiaeth o'r problemau a oedd gan garcharorion ag anabledd dysgu ac yn cydnabod y gallent fod yn fwy agored i niwed, yn fwy tebygol o ddioddef erledigaeth neu gamfanteisio, yn llai abl i ddygymod â gorbryder neu straen ac efallai ag anghenion nad oedd yn cael eu deall yn llawn gan staff. Fodd bynnag, ni chanfuom fod nodweddion anabledau dysgu yn cael eu harchwilio wrth reoli'r rheini a oedd mewn risg o hunan-niwed neu'n ymwneud ag ymddygiad treisgar. Dywedodd un rheolwr carcharu diogelach wrthym nad oedd adrannau eraill, megis addysg neu ofal iechyd, yn rhannu gwybodaeth ynghylch anabledd dysgu carcharor gyda hwy, felly nid oeddent yn gallu monitro pa mor gyffredin oedd problemau carcharu diogelach i'r rheini ag anabledd dysgu.

### **Astudiaeth achos**

Dyweddodd James wrthym iddo wneud cŵyn am erledigaeth staff, ond ei fod yn ddryslyd ynghylch y broses a'r wybodaeth a roddwyd iddo. Dywedodd wrthym nad oedd yn awyddus i ddilyn y gŵyn oherwydd anawsterau llythrennedd. Yn gynharach yn y cyfweiliad, roedd James wedi dweud wrthym nad oedd yn teimlo'i fod yn gallu troi at staff na charcharorion eraill oherwydd ei orbryder. O'r herwydd, ni ymdriniwyd erioed, hyd y gwyddai ef, â'r gŵyn a adroddodd.

*"Fe wnes i roi i mewn yr hyn o'n i'n meddwl oedd yn gŵyn swyddogol ond gofynnodd y rheolwr adain imi os oedd arnaf eisiau ei wneud yn swyddogol, rhywbeth yr o'n i'n meddwl fy mod i eisoes wedi'i wneud. Do'n i ddim yn deall yn iawn beth oedd yn ei olygu gyda hyn ac ro'n i'n meddwl y byddai'n golygu mwy o waith papur felly fe wnes i wrthod."*

### **Hunanladdiad a hunan-niwed**

- 4.54 I garcharorion sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai mewn risg o hunanladdiad neu hunan-niwed, defnyddir yr offeryn Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tim (ACCT) i gynllunio gofal yr unigolyn hwnnw a gwaith tuag at leihau ei risg. Cafodd yr anghenraid i ystyried anabledd dysgu unigolyn yn ystod y broses ACCT ei ddogfennu yn ymchwiliad y PPO i farwolaeth hunan-fwriadol oedolyn ifanc<sup>9</sup>: teimlai ymchwilydd y PPO na allai'r risg a berid gan yr oedolyn ifanc fod wedi cael ei werthuso'n hyderus heb ddealltwriaeth clinigol o'i anabledd dysgu. Argymhellodd y PPO y dylai Prif Weithredwr NOMS ac Iechyd Troseddwy'r ddatblygu Rhaglen Dull Gofalu i garcharorion ag anableddau dysgu fel y gellid cofnodi a deall eu hanghenion cymhleth. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn cynnal ymchwiliad i farwolaethau pobl â phroblemau iechyd meddwl (gan gynnwys anableddau dysgu) yn y ddalfa.
- 4.55 Wrth adolygu ffeiliau adain ar gyfer carcharorion yn ein sampl, canfuom fod ychydig o dan eu hanner naill ai wedi bod ar ddogfen ACCT neu ar ddogfen ACCT ar hyn o bryd.

### **Astudiaeth Achos**

Yn dilyn cyfweiliad asesu ACCT yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Parc, amheuid y gallai fod gan Zak anabledd dysgu nad oedd wedi cael ei adnabod ac, felly, cytunwyd y byddai'n cael ei atgyfeirio at yr nyrs anableddau dysgu am asesiad.

Fe aeth staff ati'n fwriadol i sicrhau bod yr asesiad hwn yn digwydd ac roedd y ddogfen ACCT yn cynnwys copiau o negeseuon e-bost at y nyrs anableddau dysgu i'r perwyl hwn. Nodwyd hefyd ar y ffurflen ACCT y dylid gwahodd y nyrs anableddau dysgu i adolygiadau ACCT yn y dyfodol a hefyd ei bod hi wedi dechrau gweithio gyda Zak ar yr adain.

Pan oedd yr ACCT wedi cau, roedd Zak yn parhau i dderbyn cymorth gyda bywyd o ddydd i ddydd yn y carchar o dan gynllun gofal anabledd dysgu. Roedd hyn yn sicrhau parhad da o'r cymorth yr oedd wedi'i dderbyn o dan y broses ACCT.

- 4.56 Yn ein cyfweiliadau ni, siaradodd un carcharor gyda ni ynghylch y diffyg cynllunio gofal a brofodd pan nad oedd ar ACCT a dywedodd fod y cymorth a gafodd tra oedd ar ACCT yn well.



*"Gyda'r Tim Mewngymorth Iechyd Meddwl, dw i fod i'w gweld nhw unwaith yr wythnos er mwyn [i iechyd meddwl] fynd i fy adolygiadau ACCT, ond dw i'n gweld [y seicolegydd] ac maen nhw'n meddwl eu bod nhw wedi gwneud eu gwaith. Fe wnaethon nhw hefyd beidio â dod i fy adolygiad ACCT dair gwaith neu bedair oherwydd eu bod nhw'n brysur."*

- 4.57 Nid oedd y dogfennau ACCT a archwilasom yn cyfeirio'n gyson at anabledd dysgu carcharor a'r effaith y gallai hyn ei gael ar eu gallu i ddygymod mewn amgylchedd carchar; roedd hyn yn wir am asesiad cychwynnol yr unigolyn ac am y cynlluniau gofal a oedd yn deillio o hynny. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth fod ystyriaeth wedi cael ei roi mewn rhai achosion i anabledd dysgu carcharor.

### **Rheoli ymddygiad: Cymhellion a Breintiau a Enillir**

- 4.58 Mae'r cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP) yn dyfarnu neu'n dileu brentiau ar sail ymddygiad carcharor. Cafodd y cynllun ei ddiwygio ym mis Tachwedd 2013, sy'n golygu bod yn rhaid i garchorion yn awr ddangos ymrwymiad i'w hadsefydlu eu hunain a helpu eraill i ennill breintiau yn hytrach na dim ond osgoi ymddygiad drwg. Ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn carcharorion o dan yn cynllun IEP o ganlyniad i'w hanabledd dysgu. Roedd y mwyafrif o garchardai yr ymwelasom â hwy yn gallu dangos inni bolisi IEP a oedd yn trafod yn benodol y ffordd o weithredu cynllun IEP gyda'r rheini sydd ag anabledd dysgu; mewn rhai carchardai roedd hyn yn cael ei grybwyll ymhellach yn eu polisi cydraddoldeb.

#### **Effaith anabledd dysgu**

'Mae'n bwysig na ddylai anabledd dysgu carcharor, nac unrhyw ymddygiad sy'n ganlyniad yr anabledd dysgu hwnnw, effeithio ar lefel cymhellion a breintiau a enillir carcharor. Gall anabledd dysgu carcharor effeithio ar ei berthynas ag eraill ac ar y graddau y mae'n deall cyfarwyddiadau, a dylid ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â lefel cymhellion a breintiau a enillir y carcharor hwnnw.'

- 4.59 Mewn un sefydliad, dywedwyd wrthym eu bod yn gyndyn o ddefnyddio lefel 'sylfaenol' i garcharorion ag anabledd dysgu, er i un carcharor yn y carchar penodol hwn ddweud yn ein cyfweiliadau ei fod ar y lefel sylfaenol. Mewn carchar arall, roedd canllawiau'n cael eu rhoi a oedd yn datgan ei bod yn ofynnol i staff helpu carcharorion o'r fath i gyrraedd y lefelau gofynnol o ymddygiad er mwyn camu ymlaen a 'lle mae'n amlwg bod unigolyn yn ei chael hi'n anodd cyrraedd neu gynnal y safonau gofynnol, na ddylent o angenrheidrwydd dderbyn mesurau cosbedigol trwy'r cynllun IEP'.

## Enghraifft o arfer dda: Bregusrwydd

Yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc New Hall, ar uned ar gyfer menywod mwy bregus, roedd mesurau cosbedigol yn wahanol i'r rheini a ddefnyddid yn y prif garchar ac nid oeddent yn cael eu gweithredu mor ffurfiol oherwydd byddent yn colli eu huniongyrchedd. Canfuom fwy o ddefnydd o gosbau anffurfiol, tymor byr, megis colli teledu am ddwyawr neu allgáu o weithgaredd am amser byr, lle gellid clymu'r cosbau'n fwy canfyddadwy at yr ymddygiad a oedd wedi eu hysgogi.

- 4.60 Fodd bynnag, yn ymarferol, roedd profiad y carcharorion y gwnaethom eu cyfweld yn llai cadarnhaol. Er i wyth carcharor y gwnaethom eu cyfweld ddweud wrthym eu bod ar lefel uwch, roedd y rhan fwyaf o'r rhain ar y lefel safonol a theimlai rhai carcharorion y siaradasom â hwy y byddai rhwystrau iddynt gyrraedd lefel uwch, a'r rhwystrau hyn yn gysylltiedig â'u hanabledd dysgu.

*"I gael [lefel] uwch yma mae angen ichi fynd y tu hwnt [i'r hyn a ddisgwylir]. Alla i ddim gwneud hyn; does gen i ddim amser i fod yn wrandawr neu gyfaill, yn enwedig gyda fy Asperger's. Alla' i mo'i wneud; does gen i ddim eisiau defnyddio fy Asperger's fel esgus ers hynny."*

*"Dw i ddim yn gwneud digon i gael fy nyrchafu. Y cyfan dw i'n ei wneud yw codi sbwriel ar yr iard ond mae'n rhaid ichi wneud mwy [i gael eich dyrchafu]. Alla i ddim mynd i'r grwpiau [mae'n rhaid ichi fynd i grwpiau fel rhaglenni ymddygiad troseddol i gael eich dyrchafu] na dim oherwydd na all i fod o gwmpas llawer o bobl."*

- 4.61 Roedd hefyd rai enghreifftiau o garcharorion yn adrodd am ymateb cosbedigol gan staff mewn mewn ymateb i ymddygiad.

*"Fe wnaethon nhw fy rhoi ar y [lefel] sylfaenol gan iddyn roi dyn yn fy nghell a oedd yn fudr, gofynnais iddo symud cell, fe wnaethon nhw fy rhoi ar y lefel sylfaenol am guro ar y drws – dw i'n curo ar y drws am reswm."*

*"Ro'n i'n gwrthod rhannu cell – fe ges i saith diwrnod o'm cadw ar wahân."*

- 4.62 Yn ein dadansoddiad o ffeiliau adain y rheini yn ein sampl, canfuom fod cofnodion sy'n ymwneud ag ymddygiad negyddol yn fwy cyffredin na'r rheini'n ymwneud ag ymddygiad cadarnhaol. Yn gyffredinol, y rhesymau mwyaf cyffredin pam fod carcharorion yn ein sampl yn cael rhybuddion IEP oedd methu â dilyn cyfarwyddiadau, siarad gyda staff mewn dull 'amhriodol' neu darfu ar eraill neu fod yn ymosodol. Mewn rhai achosion, roedd rhybuddion parhaus am yr un mathau o ymddygiad, megis siarad yn nrysau celloedd, gwisgo dilledyn gwaharddedig, neu fynd y tu ôl i'r 'hot plate' i siarad â chyd-garcharorion. Ni chanfuom unrhyw enghreifftiau amlwg o staff yn ceisio disgrifio ymddygiad yn nhermau anabledd dysgu unigolyn, nac yn ystyried y gallai hyn ddylanwadu ar eu hymddygiad ar yr adain.
- 4.63 Rhoddodd carcharorion y siaradasom â hwy enghreifftiau o rai o'r anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu yn y carchar a allai effeithio ar eu hymddygiad.

*"Fe wnaeth y drefn newydd fy nhaflu oddi ar fy echel. Fe wnaeth gychwyn fy nrysu. Fe ddywedson nhw fod y drefn yn newid ond dim llawer o rybudd. Fe fyddai wedi bod yn dda cael rhywun i siarad gyda mi. Fe ofynnais i gwestiynau ond doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen."*

*"Mae'n rhaid iddyn nhw ddeall gyda mi fy mod i'n casáu newid. Alla i mo'i ddiodeff."*

*"Dw i'n teimlo'n orbryderus drwy'r amser. Y sŵn sy'n achosi hyn ac alla i ddim dianc rhag y sŵn."*

*"Dw i'n ei chael yn anodd dygymod yn y carchar. Dw i'n ei chael yn anodd bod mewn cell ddwbl – dw i'n diodeff o iselder ac mae'n well gen i fod ar fy mhen fy hun. Dw i'n mynd yn flin yn hawdd gyda phobl."*

## Dyfarniadau

- 4.64 Lle'r oedd dyfarniadau'n angenrheidiol ar ôl ymddygiad negyddol mewn sefydliad, dylid ystyried a yw'r carcharor yn addas i fynd drwy'r gweithdrefnau. Dylid ystyried hefyd a yw'r carcharor yn gallu deall y weithdrefn ac a oes angen eiriolwr ar ran y carcharor i'w helpu i ddeall neu weithredu.
- 4.65 Mewn un carchar yr ymwelasom ag ef, canfuom enghraifft gadarnhaol o ymdrechion i wneud y weithdrefn hon yn haws ei deall ac roedd canllawiau ar gyfer y broses hon wedi cael eu cynhyrchu mewn Easy Read. Dywedodd staff mewn rhai carchardai wrthym fod gweithdrefnau disgyblu a oedd yn deillio o ddyfarniad yn cael eu gweithredu'n hyblyg i roi ystyriaeth i anabledau dysgu carcharorion. Rhoddwyd enghraifft gan staff y carchar o garcharor a oedd wedi chwarae rhan mewn digwyddiad a fyddai'n arferol wedi cael ei gyfeirio at y dyfarnwr annibynnol. Cydnabuwyd na fyddai'r carcharor wedi deall y broses hirfaith a fyddai'n arwain at golli'r hawl i ryddhau cynnar. Yn wyneb hyn, gweithredwyd cosb yn y fan a'r lle o golli braint werthfawr. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion yr edrychasom arnynt, ni chanfuom unrhyw gyfeiriad at anabled dysgu unigolyn.

### Astudiaeth achos

Roedd arwyddion nad oedd Lucy yn llawn ddeall y gweithdrefnau dyfarnu. Gofynnodd Lucy beth a olygid gan rai geiriau pan oedd ei throedd yn cael ei esbonio iddi. Wrth esbonio ac ymddiheuro am ei gweithredoedd, cofnodwyd iddo esbonio bod ganddi Syndrom Asperger a'i bod yn mynd yn rhwystredig yn hawdd weithiau; fodd bynnag, ni chofnodwyd hyn yn adran liniaru'r dyfarniad, a dyfarnwyd i Lucy bedwar diwrnod o gael ei chyfyngu yn ei chell heb arwydd bod ei diagnosis o Syndrom Asperger wedi cael ei ystyried.

- 4.66 Roedd bron i hanner ein sampl wedi derbyn dyfarniad. Yn y rhan fwyaf o waith papur dyfarnu y buom yn ei adolygu, ychydig o dystiolaeth a ganfuom i ddangos bod ystyriaeth ddyladwy wedi cael ei rhoi i'r angen posibl am eiriolwr i sicrhau bod y carcharor yn gallu deall y gweithdrefnau a chyfleu'n effeithiol eu fersiwn o ddigwyddiadau; roedd i hyn y potensial o adael drysau'n agored i ganlyniadau annheg neu gosbau anhaeddiannol i'r carcharor.

- 4.67 Yn yr un modd, yn gyffredinol, dywedodd carcharorion a oedd wedi derbyn dyfarniad tra yn y carchar wrthym nad oeddent wedi cael cynnig gwasanaeth eiriolwr, a'u bod, mewn rhai achosion, wedi'i chael yn anodd deall y broses.

*"Ni ddywedodd neb ddim byd wrtha i am y dyfarniad – ro'n i'n gorfod edrych ar ôl fy hun."*

*"Ro'n i'n rhyw fath o ddeall beth oedd yn mynd ymlaen [yn ystod y dyfarniad]. Dim eiriolwyr, dim ond y fi."*

### **Ffrwyno corfforol a chadw ar wahân**

- 4.68 Dywedodd tua un o bob pum o'r carcharorion y gwnaethom eu cyfweld wrthym iddynt gael eu ffrwyno yn ystod eu hamser yn y carchar. O'r rhain, dywedodd y carcharorion wrthym nad oeddent bob amser wedi cael eu gweld gan weithiwr proffesiynol meddygol ar ôl i'r ffrwyno ddigwydd.

*"Tua 18 mis yn ôl fe wnes i golli fy nhymer. Ni chefais unrhyw gysylltiad â [staff] gofal iechyd wedyn. [A ddaeth rhywun i wirio eich bod yn iawn wedyn?] Naddo, cefais fy nghloi yn fy nghell."*

- 4.69 Dywedodd mwyafrif y carcharorion y gwnaethom eu cyfweld nad oeddent wedi treulio unrhyw amser yn yr uned gadw ar wahân ac mewn dau garchar, dywedodd carcharorion wrthym fod staff wedi gwneud ymdrech i geisio eu lleoli yn rhywle arall, mewn lleoedd heblaw'r uned gadw ar wahân.

*"Fe ddywedon nhw y byddwn i'n cael fy nghadw ar wahân am dair wythnos [ar ôl dyfarniad]. Yn lle hynny fe wnaethon nhw fy nghymryd i'n ôl i fy adain am wythnos o C/C (cyfyngu mewn cell) [ar ôl awr o gadw ar wahân]. Ddim yn siŵr pam er hynny."*

### **Casgliad**

Mewn rhai ymddiriedolaethau prawf, roedd rheolwyr troseddwy'r wedi datblygu perthynas waith agos gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ac anabledau dysgu lleol, a oedd yn cynnig cyngor a chymorth yn eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaethau ag anabledau dysgu. Fodd bynnag, roedd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i droseddwy'r yn y gymuned sydd ag anabledau dysgu yn dibynnu'n llawer rhy aml ar sgil ac ymroddiad rheolwr troseddwy'r unigol, yn hytrach nag ar fod gwasanaeth o ansawdd da ar gael.

Roedd y cymorth i garcharorion ag anabledau dysgu cydnabyddedig mewn carchardai yn amrywiol ac roedd wedi'i nodweddu â diffyg gwaith cydgysylltiedig rhwng adrannau carchar ac asiantaethau yn y gymuned. Roedd traean o'r carcharorion y cyfwelasom â hwy wedi derbyn cymorth gan eu gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion lleol cyn dod i'r carchar; yn y mwyafrif o achosion, roedd cyswllt wedi peidio unwaith yr oeddent yn y ddalfa, lle dylai fod cyswllt agos rhwng y carchar a'r rheini sydd wedi gweithio gyda'r carcharor yn y gymuned er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth a gofal.

Dywedodd bron i hanner y carcharorion yn ein sampl eu bod wedi teimlo'n anniogel ac roedd cyfran debyg wedi bod ar ACCT. Fe wnaeth rhai carcharorion ddisgrifio teimlad o fod wedi'u hynysu o ganlyniad i deimlo na allent ddygymod â'r prosesau sy'n rhan hanfodol o fywyd carchar, yn ogystal â'r ddibyniaeth anffurfiol ond angenrheidiol yr oedd yn rhaid iddynt ei gosod ar staff a

charcharorion i'w cynorthwyo. Roedd profiadau gwael rhai carcharorion wrth wneud cwynion a diffyg eiriolaeth yn ystod gweithdrefnau dyfarnu yn fater o bryder neilltuol yn dilyn y newidiadau i gymorth cyfreithiol a gyflwynwyd gan *Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012*. Dywedodd cyfran fawr o garcharorion yn ein sampl wrthym eu bod wedi bod yn destun defnydd o rym neu weithdrefnau disgyblu tra oeddent yn y carchar. Roedd y gwendidau wrth adnabod carcharorion ag anabledd dysgu yn golygu nad oedd y defnydd o weithdrefnau o'r fath yn destun unrhyw radd o graffu. Byddai gwell monitro yn sicrhau bod anableddau dysgu unigolyn yn cael eu hystyried fel ffactor posibl a allai ddylanwadu ar ymddygiad, gan sicrhau nad oedd cosbau'n cael eu cyflwyno'n amhriodol.

Nid oedd gan staff hyfforddiant digonol i ddeall anghenion carcharorion ag anableddau dysgu na sut i'w cefnogi. Roedd cefnogaeth staff preswyl yn well lle'r oedd cynlluniau gofal (lle'r oeddent yn bod) wedi cael eu rhannu â hwy neu lle rhoddwyd gwybodaeth iddynt i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion unigolyn. Roedd y defnydd o ddeunydd Easy Read wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Argymhellion

### **Camau i'w cymryd gan y Cyfarwyddwr Prawf a Gwasanaethau a Gontractir, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a phrif weithredwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:**

- sicrhau eu bod yn datblygu trefniadau effeithiol gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol ac anableddau dysgu oedolion er mwyn sicrhau bod troseddwyr sydd ag anableddau dysgu yn derbyn gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion gofal personol a chymdeithasol
- cydweithio'n agos â'u Byrddau Lleol Diogelu Oedolion er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau dysgu.

### **Camau i'w cymryd gan Lywodraethwyr Carchardai:**

- sicrhau bod carcharorion sy'n cael eu hadnabod fel rhai ag anabledd dysgu yn cael gofal amlddisgyblaethol neu gynllun cymorth ar waith sy'n nodi sut y diwellir eu hanghenion unigol
- ystyried bregusrwydd posibl, y rheoli ymddygiad a'r cymorth y bydd ei angen ar garcharorion ag anabledd dysgu er mwyn sicrhau mynediad llawn at iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a dewis llawn o gyfleoedd gwaith yn y carchar
- sicrhau bod carcharorion sydd ag anabledd dysgu'n gallu defnyddio holl weithdrefnau'r carchar, megis cwynion a chymhellion a breintiau a enillir
- sicrhau bod yr holl daflenni, ffurlenni a deunydd ysgrifenedig arall perthnasol mewn fformat Hawdd ei Ddarllen i bob carcharor wrth gael eu derbyn / ar eu noson gyntaf yn y ddalfa
- sicrhau eu bod yn datblygu trefniadau partneriaeth perthnasol gyda gwasanaethau anableddau dysgu er mwyn sicrhau bod y gofal yr un fath mewn dedfrydau cymunedol a dedfrydau yn y ddalfa
- sicrhau ei bod yn ofynnol ystyried anableddau dysgu carcharorion wrth ymdrin ag unrhyw fater disgyblaeth neu ymddygiad

- sicrhau bod pawb o'r staff perthnasol yn sylweddoli eu cyfrifoldebau at garcharorion ag anableddau dysgu.

## 5. Asesu, cynllunio a gwaith i leihau aildroseddu

### Canfyddiadau allweddol

- Roedd asesiadau risg o niwed difrifol yn gyffredinol gywir.
- Roedd asesiadau'n methu â rhoi ystyriaeth i effaith anabledd dysgu'r troseddwr ar eu gallu i roi'r gorau i droseddu neu i gydymffurfio'n llawn â'u dedfryd.
- Roedd cynlluniau dedfrydau yn y gymuned ac yn y ddalfa'n methu â rhoi ystyriaeth i anableddau troseddwr.
- Er gwaethaf newidiadau sylweddol yn amgylchiadau'r troseddwr, nid oedd asesiadau a chynlluniau bob amser yn cael eu hadolygu'n ddigonol i ystyried y newidiadau hynny.
- Yn aml, roedd gan droseddwr ag anableddau dysgu amrywiaeth o anghenion brys o ran gofal cymdeithasol neu les ac roedd rheolwyr troseddwr yn aml yn treulio'u hamser goruchwyllo yn mynd i'r afael â'r rhain, nad oedd yn gadael fawr o amser i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.
- Dim ond mewn lleiafrif bach o achosion yr oedd ymyraethau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn cael eu cyflwyno.
- Roedd carcharorion yn methu â gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod carcharorion ag anableddau dysgu yn gallu manteisio ar raglenni ymddygiad troseddol addas.
- Roedd y mwyafrif o reolwyr carchardai yn defnyddio diffyg rhaglenni wedi'u haddasu fel y rheswm dros beidio â chyflwyno rhaglenni ymddygiad troseddol i garcharor ag anabledd dysgu.
- Roedd cyfraddau aildroseddu yn ein sampl arolygu o droseddwr yn y gymuned yn siomedig.

Yn dilyn ymlaen o sefydlu troseddwr ag anabledd dysgu ar gychwyn eu dedfryd, roeddem yn disgwyl gweld rheolwyr troseddwr neu oruchwylwyr troseddwr yn ystyried sut mae anabledd y troseddwr yn debygol o effeithio ar eu gallu i ymatal rhag troseddu a chwarae rhan lawn mewn gwaith i leihau eu haildroseddu a risg o niwed i eraill. Mae angen i garcharorion ac unigolion sy'n destun goruchwyllo yn y gymuned allu cael budd o ymyraethau sydd wedi cael eu cynllunio i leihau'r risg iddynt droseddu yn y dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymyraethau fod ar gael, a lle bo'n angenrheidiol, iddynt gael eu haddasu'n unswydd i'w gwneud yn berthnasol.

### Asesu a chynllunio – yn y gymuned

- 5.1 Er bod y mwyafrif o reolwyr yn troseddwr yn ymwybodol o anabledd dysgu troseddwr, canfuom nad oedd, mewn 24 allan o 60 o achosion (40%) asesiadau'n cynnwys unrhyw gyfeiriad ato.
- 5.2 Mewn bron i hanner yr achosion a arolygwyd, nid oedd unrhyw asesiad o effaith anabledd dysgu'r troseddwr ar eu hymddygiad troseddol, risg o niwed na'u gallu i chwarae rhan lawn mewn gwaith i fynd i'r afael â'u troseddu. Gall y methiant i asesu'r ffactorau pwysig hyn arwain at ddiffyg cyfeiriad drwy gydol y cyfnod o oruchwyllo. Dywedodd rheolwyr troseddwr wrthym eu bod yn ei chael yn anodd asesu effaith debygol anabledd dysgu ar ymddygiad troseddol a'u bod yn tueddu i ganolbwyntio ar anghenion lles yn hytrach nag ar anghenion troseddu.

*"Mae gan y defnyddiwr gwasanaethau gymaint o broblemau, dirwyon heb eu talu, budd-daliadau wedi dod i ben, trydan wedi ei dorri ymaith. Bob tro y gwelaf ef mae argyfwng arall sydd angen fy help. Dw i ddim wedi cael amser i wneud unrhyw waith sy'n canolbwyntio ar droseddu gydag ef eto."*

**Rheolwr troseddwr sy'n gweithio gyda defnyddiwr gwasanaethau sydd ag anabledd dysgu**

- 5.3 Yn ein harolygiad arolygu cyntaf mynegasom bryder fod, ar adeg yr adroddiad cyn dedfrydu, rheolwyr troseddwr yn y gymuned yn rhoi gormod o bwyslais ar anghenion y troseddwr ar draul risg posibl o niwed i eraill. Yng ngham dau, canfuom fod y mwyafrif o asesiadau Risg o Niwed Difrifol (RoSH) ar y lefel gywir mewn 48 allan o 60 o achosion. O'r 12 o achosion y gwnaethom eu barnu i fod wedi cael eu hasesu'n anghywir, roedd 10 yn rhy uchel a 2 yn rhy isel.

*"Nid oes unrhyw ddarpariaeth o wasanaethau onibai bod y troseddwr yn achos MAPPA. Roedd gen i achos o droseddwr ifanc. Roedd yn destun mewnbwn MAPPA, roedd ganddo Syndrom Asperger ac fe wnaeth y dimensiwn ychwanegol hwnnw o risg o niwed i eraill rhyddhau cyllid, rhywbeth nad yw'n deg."*

**Rheolwr troseddwr sy'n gweithio gyda throseddwr ac anhwylder sbectrwm awtistiaeth**

- 5.4 Roedd newidiadau sylweddol yn amgylchiadau'r troseddwr yn ystod y gorchymyn mewn 51 o'r 60 o achosion a arolygwyd, megis aildroseddu a dirywiad mewn iechyd meddwl. Fodd bynnag, ni chafodd asesiadau eu hadolygu ond mewn 21 o achosion. Nid oedd hyn oherwydd nad oedd y rheolwr troseddwr yn adnabod y newidiadau; yn y mwyafrif o achosion y ffaith oedd nad oeddent yn deall y pwysigrwydd o asesu sut roedd newidiadau'n effeithio ar debygolrwydd y troseddwr o aildroseddu neu ei risg o niwed i eraill.
- 5.5 Mewn bron i ddau draean o'r achosion, roedd asesiadau o anabledd dysgu ac anghenion y troseddwr yn cael eu cyfleu'n gywir ac yn glir i'r holl asiantaethau perthnasol, o fewn y broses cyfiawnder troseddol a'r tu allan iddi. Roedd y mwyafrif o atgyfeiriadau i asiantaethau allanol i ofal cymdeithasol oedolion awdurdodau lleol neu dimau anableddau dysgu. Gwelsom enghreifftiau o reolwyr troseddwr yn gwneud ymdrechion mawr i argyhoeddi asiantaethau eraill i gymryd cyfrifoldeb am anghenion cymdeithasol a lles troseddwr.
- 5.6 Siomedig oedd gweld mai mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd yr oedd cynlluniau dedfrydau cychwynnol yn rhoi ystyriaeth i effaith bosibl anabledd dysgu'r troseddwr ar eu gallu i chwarae rhan lawn mewn gwaith a gynlluniwyd ar eu cyfer. Dylai dealltwriaeth o anghenion troseddwr gael ei ystyried wrth gynllunio'r ffyrdd mwyafrif effeithiol o weithio gyda hwy i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a rheoli eu risg o niwed i eraill.
- 5.7 Er gwaethaf newidiadau sylweddol yn y mwyafrif o achosion, mewn llai na thraean o'r achosion yr oedd cynlluniau dedfrydau'n cael eu hadolygu o ganlyniad i'r newidiadau hynny. Roedd newidiadau mewn amgylchiadau yn cynnwys methiant i gydymffurfio â'r gorchymyn gan gynnwys aildroseddu, problemau ymddygiad neu wybodaeth a oedd yn peri pryder am gyflwr meddyliol y troseddwr.



## Cyflwyno ymyraethau – yn y gymuned

- 5.8 I droseddwr ag anabledd dysgu, mae'n hanfodol fod ymyraethau i leihau eu haildroseddu neu risg o niwed yn addas ar gyfer eu hanghenion dysgu. Dim ond mewn 33 o'r 60 o achosion a arolygasom yr oedd tystiolaeth fod ymyraethau wedi rhoi ystyriaeth i'r anghenion hynny. Ni chafodd ymyraethau wedi'u haddasu'n llawn ond eu defnyddio mewn 18 o achosion – naill ai'r rhaglen wedi'i haddasu ar gyfer troseddwy'r rhywiol, *Becoming New Me*<sup>9</sup> neu raglenni a gyflwynir o un i un. Gwelsom enghreifftiau o reolwyr troseddwy'r yn addasu taflenni gwaith i ddiwallu anghenion unigol troseddwr ag anabledd dysgu.
- 5.9 Roedd Ymddiriedolaeth Prawf Avon a Gwlad yr Haf wedi datblygu gofyniad gweithgaredd penodol sy'n anelu at drosedwyr ag anabledd dysgu. Roedd ymddiriedolaethau eraill hefyd wedi addasu taflenni gwaith neu wedi rhoi canllawiau i reolwyr troseddwy'r ar y ffordd orau o gyflwyno ymyraethau i droseddwy'r ag anableddau dysgu a sgiliau cyfathrebu gwael eraill.
- 5.10 Dywedodd rheolwyr troseddwy'r wrthym eu bod yn aml yn teimlo'u bod yn treulio'u holl amser yn ymdrin ag anghenion lles troseddwy'r ac nad oedd ganddynt amser i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Roeddent yn teimlo'n rhwystredig na fyddai asiantaethau eraill yn derbyn atgyfeiriadau a'u bod yn cael eu gadael i ymdrin â materion nad oedd ganddynt yr hyfforddiant na'r adnoddau i'w darparu.

*"Mae cael nyrs seiciatrig yn y swyddfa'n gwneud gwahaniaeth gwirionedd o ran y gallu i gael gwasanaethau i droseddwy'r â phroblemau iechyd meddwl. Fe fyddai'n dda pe bai gweithiwr anabledd dysgu ar gael inni yn yr un modd."*

### **Dyfyniad gan reolwr troseddwy'r**

- 5.11 Dywedodd staff mewn ymddiriedolaethau prawf wrthym fod yr holl wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) ar gael yn arferol i bob troseddwr. Fodd bynnag, dim ond yn hanner yr achosion a arolygwyd yr oedd troseddwy'r ag anableddau dysgu wedi cael eu hatgyfeirio at ddarparu'r addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr ymddiriedolaeth. Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu wedi cael profiad gwael o'r gyfundrefn addysg ac yn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn wrth geisio am swyddi. Credwn fod hyn yn gyfle sy'n cael ei golli i wella canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- 5.12 Gallai'r cyfle i ddarparu gwasanaeth personol i'r grŵp hwn o droseddwy'r fod wedi gwella eu cyfleoedd bywyd a chodi eu hunan-barch. Roedd bron i ddau draean o'r rheini a gafodd eu hatgyfeirio at y gwasanaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi cael budd o'r ymyrraeth, trwy welliannau yn eu sgiliau sylfaenol neu gyfleoedd am swyddi.
- 5.13 Yn y mwyafrif o achosion, lle'r oedd angen hynny, roedd atgyfeiriadau addas yn cael eu gwneud i dimau gofal cymdeithasol oedolion ac anableddau dysgu awdurdodau lleol i sicrhau cymorth a gofal parhaus i'r troseddwr. Roedd hyn yn neilltuol o bwysig tuag at ddiwedd y gorchymyn fel rhan o gynllun gadael. Fodd bynnag, canfuom fod rheolwyr troseddwy'r yn aml yn cael eu siomi yn y lefel o gefnogaeth a gynigid gan wasanaethau lleol. Hyd yn oed yn yr achosion hynny lle'r oedd y defnyddiwr gwasanaethau'n cael ei asesu i fod ag IQ o dan 70, ni farnwyd bod cymorth sgiliau byw annibynnol yn angenrheidiol.

<sup>9</sup> Rhaglen Driniaeth i Droseddwy'r Rhywiol (SOTP) yw *Becoming New Me* is sydd wedi'i haddasu ar gyfer troseddwy'r ag IQ o rhwng 60 a 80 a fyddai'n arferion yn cael eu gweld fel rhai anaddas ar gyfer y SOTP safonol.

- 5.14 Canfuom fod rheolwyr troseddwy'r sy'n gweithio gyda throseddwy'r ag anabledd dysgu yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i'w gwaith. Er bod gennym bryderon ynghylch y lefel o waith sy'n canolbwyntio ar droseddu a gaiff ei gyflwyno, roedd tystiolaeth, yn y mwyafrif o achosion, fod y lefel o gyswllt gyda'r troseddwr wedi atgyfnerthu effaith yr ymyraethau a gyflwynwyd ac wedi hwyluso integreiddio cymunedol.

#### **Enghraifft o arfer dda: partneriaeth**

Yn Hull roedd rheolwr troseddwy'r yn gweithio gyda phrosiect menywod a'r tim anableddau dysgu lleol i sicrhau bod troseddwrraig ag anabledd dysgu yn derbyn y cymorth roedd arni ei angen. Darparwyd mentor iddi a sicrhodd ei bod yn cadw at apwyntiadau. Fe wnaeth y prosiect menywod ei helpu i drafod gyda'i darparwr tai i ymestyn ei thenantiaeth. Fe wnaeth hyn ddaparu cymorth i'w hanghenion gofal a rhyddhau'r rheolwr troseddwy'r i ymdrin â'i hanghenion troseddu.

- 5.15 Dywedodd rheolwyr troseddwy'r yr hoffent fwy o raglenni wedi'i haddasu a oedd yn addas i'r rheini ag anableddau dysgu, yn ogystal â thafleuni gwaith a mwy o wybodaeth ynghylch addasu eu gwaith. Dywedwyd wrthym fod, mewn un ymddiriedolaeth, gwasanaethau anableddau dysgu yn darparu cymorth i reolwyr troseddwy'r. Fodd bynnag, eithriad oedd hyn. Roedd ar reolwyr troseddwy'r eisiau mwy o wybodaeth ynghylch adnabod a deall effeithiau anableddau dysgu. Teimlent fod yn rhaid iddynt adeiladu eu gwybodaeth trwy dipyn o arbrofi eu hunain, a oedd yn aml yn cymryd llawer o amser ac nad oedd hyn yn ffordd effeithiol o gefnogi troseddwr wrth fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.

#### **Enghraifft o arfer dda: ymyraethau i ymdrin ag anghenion penodol**

Roedd Brian wedi cyflawni trosedd rywiol. Roedd ganddo IQ isel iawn ac yn ei chael yn anodd deall cysyniadau syml hyd yn oed. Yn dilyn trafodaethau gyda thiwtorïaid y rhaglen driniaeth troseddwy'r rhywiol, defnyddiodd rheolwr troseddu Brian luniau wedi eu llunio â llaw – stopio, meddwl, mynd, delwedd o drwbl (wyneb y tu ôl i farrau), meddwl am fod yn esgidiau pobl eraill (llun o esgid ac wynebau trist) a'r hyn sy'n gwneud bywyd da. Roedd hyn yn enghraifft ragorol o'r gweithiwr yn addasu eu gwaith i ymdrin ag anghenion Brian.

- 5.16 Dywedodd y rhan fwyaf o'r defnyddwy'r gwasanaethau y cyfwelasom â hwy fod ganddynt berthynas dda gyda'u rheolwr troseddwy'r a'u bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi. Teimlai'r mwyafrif eu bod yn cael eu trin yn deg a bod eu hanghenion yn gyffredinol yn cael eu deall a'u diwallu. Gwelsom enghreifftiau o reolwyr troseddwy'r yn annog troseddwy'r i gadw at apwyntiadau a chydymffurfio â gofynion eu gorchymyn. Pan nad oedd y troseddwr yn cydymffurfio, roedd y mwyafrif o reolwyr troseddwy'r yn rhoi ystyriaeth addas i'w hanabledd dysgu wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd.

#### **Astudiaeth Achos**

Mae Gavin yn ei chael yn anodd dweud faint o'r gloch yw hi ac mae arno angen help i gofio'i apwyntiadau yn y swyddfa brawf. Fel arfer bydd ei reolwr troseddwy'r yn cysylltu ag ef y diwrnod cynt ac wedyn ar ddiwrnod ei apwyntiad i sicrhau ei fod yn mynd. Mae Gavin yn cwblhau ei waith ymddygiad troseddol ar sail un i un, gweithgaredd sy'n cael ei dreulio'n bennaf gan ei anghenion lles sydd fel arfer yn flaenaf yn ei feddwl. Dywedodd ei fod yn ei chael yn anodd gweithio ar ei drosedd pan fo pethau eraill yn profi'n anodd iddo, felly nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto.

### **Astudiaeth Achos**

Mae gan Beth hanes hir o droseddu sy'n ymwneud ag alcohol a methiant i gydymffurfio â gorchmynion llys blaenorol. Dywedodd wrthym fod ganddi bellach berthynas gadarnhaol gyda'i rheolwr troseddwy, sy'n llym ac yn gosod ffiniau clir. Mae ganddi amserlen wedi'i haddasu, hawdd ei deall, sydd wedi ei helpu i llynu at ei rhaglen trwy ei hatgoffa am apwyntiadau ac am ei hamserau cyrffiw. Caiff rhaglenni o waith ynghylch ei throedd eu cyflwyno yn y ganolfan menywod, lle mae Beth yn derbyn cymorth gyda gwneud penderfyniadau, lleihau defnydd o alcohol a ffurfio perthnasau cadarnhaol.

### **Astudiaeth Achos**

Cafodd Sarah ei chyfweld gan yr heddlu ar ôl difrodi drws ei fflat. Gweithredodd ei mam fel oedolyn priodol, rhywbeth nad oedd yn hapus yn ei gylch. Cafodd ei dedfrydu i orchymyn cymunedol 12 mis sydd newydd gychwyn ac mae hi'n talu iawndal am y difrod i'r drws. Mae'n teimlo'n bryderus ynghylch dod i swyddfa'r gwasanaeth prawf am apwyntiadau. Mae hi wedi cyfarfod ei rheolwr troseddwy am y tro cyntaf, a chytunasant y byddai'n well cael sesiynau un-i-un yn y ganolfan menywod.

Mae ar Sarah eisiau tynnu sylw at y ffaith fod gan bobl ag anableddau dysgu anghenion gwahanol ac y dylent gael eu trin fel unigolion ac y dylid ystyried eu dymuniadau. Nid yw hyn yn golygu y dylid siarad i lawr â hwy, dim ond siarad â hwy mewn ffordd y byddant yn ei ddeall.

- 5.17 Fodd bynnag, dywedodd rhai troseddwy ag anableddau dysgu hefyd am anawsterau gyda deall deunydd ysgrifenedig a roddwyd iddynt neu wybodaeth lafar lle defnyddiwyd iaith gymhleth.

### **Astudiaeth Achos**

Teimla Kieran ei fod yn cael cryn dipyn o gymorth gan y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, ar adegau nid yw'n deall y gwaith ar ei orchymyn a sut y mae'n berthnasol i'w drosedd. Mae pobl yn defnyddio llawer o eiriau, yn llafar ac ysgrifenedig, a hoffai weld mwy o bethau gyda lluniau a llai o eiriau. Mae rhybuddion yn y swyddfa nad yw yn eu deall a hoffai eu gweld yn cael eu hysgrifennu'n wahanol.

### **Astudiaeth Achos**

Yn apwyntiad cyntaf Mike yn swyddfa'r gwasanaeth prawf, roedd yn rhaid iddo gwblhau ffurflenni nad oedd yn hawdd eu darllen na'u haddasu. Dywedodd Mike ei fod wedi cael ychydig o newidiadau mewn rheolwyr troseddwy, sydd wedi bod yn anodd oherwydd nad ydynt yn deall ei anghenion na gwybod am ei gyflwr ar y cychwyn, ac mae wedi gorfod ailadrodd ei stori bob tro.

### **Astudiaeth Achos**

Mae Adam yn cofio adeg pan anfonodd rheolwyr troseddwy arall lythyr ato; roeddent wedi amlygu geiriau allweddol yn y testun gyda phin ffelt liw gan feddwl y byddai hyn o help. Disgrifiodd Adam hyn fel amlygu geiriau nad oeddech yn eu deall yn hytrach na

newid y geiriau i rywbeth haws ei ddarllen.

- 5.18 Roedd gwaith un-i-un yn aml yn cael ei ddefnyddio i gymryd lle gwaith grŵp, a allai gael ei ganfod fel rhywbeth bygythiol lethol i'r rheini ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddewis bob amser.

### **Astudiaeth Achos**

Mae gan Jerry diagnosis o awtistiaeth gwelthredol uchel. Dywedodd wrthym fod ei gyfreithiwr yn y llys wedi gofyn am ddewis arall yn lle'r rhaglen waith grŵp a oedd yn cael ei chynnig ond dywedodd y swyddog prawf nad oedd rhaglen un-i-un ar gael. Roedd yn rhaid i Jerry ddilyn y rhaglen waith grŵp gydag wyth o bobl eraill a oedd yn achosi gorbryder dwys iddo i'r fath raddau nes ei fod yn gorfforol sâl. Roedd rheoli ei symptomau corfforol ynghyd â theimladau dwys o straen yn ei gwneud fwy neu lai'n amhosibl iddo geisio cymryd rhan yn y grŵp.

- 5.19 Roedd defnyddwyr gwasanaethau oedd ag anableddau dysgu yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan y rheolwr troseddwy, yn enwedig pan oeddent wedi adeiladu perthynas dda gydag un rheolwr troseddwy drwy gydol y gorchymyn. Roedd y mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaethau y cyfwelwyd â hwy yn adnabyddus i wasanaethau eraill ac yn credu bod eu rheolwr troseddwy yn gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod eu hanghenion gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, roedd rhai yn bryderus ynghylch pa gymorth y byddent yn ei gael unwaith yr oedd eu gorchymyn wedi dod i ben.

### **Astudiaeth Achos**

Dywedodd Stuart wrthym ei fod, pan oedd yn ei ardegau, wedi cael help gan weithwyr anableddau dysgu arbenigol. Daeth y cymorth hwn i ben pan oedd yn 18 oed, rhywbeth a brofodd yn anodd iddo gan ei fod wedi dod i adnabod y nyrs a'r gweithiwr cymdeithasol yn dda, yn ymddiried ynddynt ac yn teimlo'n gysurus yn siarad gyda hwy. Mae'n cael cymorth ar hyn o bryd gan ei reolwr troseddwy ac mae'n poeni ynghylch pwy fydd yn ei gynorthwyo pan ddaw i orchymyn i ben.

### **Astudiaeth Achos**

Mae Belinda yn poeni ynghylch dod i ddiwedd ei gorchymyn a cholli cymorth y ganolfan fenywod. Wrth sôn am y rheini sydd wedi ei chefnogi, dywed y byddai ar goll hebddynt ac na fyddai efallai wedi cadw at amodau ei gorchymyn. Mae'n poeni ynghylch llithro'n ôl. Teimla Belinda ei bod wedi symud ymlaen gyda'i bywyd, bod ei defnydd o alcohol wedi lleihau a bod yr heddlu bellach yn stopio i siarad gyda hi yn hytrach na'i harestio.

### **Astudiaeth Achos**

Mae gan Drew awtistiaeth ac mae'n ei chael yn anodd trefnu ei fyw o ddydd i ddydd. Caiff ei gynorthwyo gan ei fentor awtistiaeth sy'n helpu ar drafnidiaeth gyhoeddus ac i gyrraedd ei apwyntiadau oherwydd ei orbryder. Mae'n teimlo bod staff y gwasanaeth prawf yn siarad ag ef ar ei lefel ei hun. Nid ydynt yn defnyddio geiriau mawr ac maent yn torri pethau i lawr yn gamau bach iddo.

### **Astudiaeth Achos**

Roedd Jon wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Roedd wedi bod mewn ysgol i bobl ag anableddau dysgu ond roedd yn dal i'w cael yn anodd dysgu, a gadawodd yr ysgol heb unrhyw gymwysterau. Mae'n derbyn cymorth gan y tîm anableddau dysgu cymunedol a ddarparodd dystiolaeth ynghylch ei anghenion i'r adroddiad cyn dedfrydu. Edrychodd ei reolwr troseddwr ar ffyrdd y gellid cyflawni gorchymyn Jon, gan fod gwaith grŵp yn cael ei ystyried i fod yn anaddas. Gwnaed atgyfeiriad at sefydliad gwirfoddol ac mae Jon bellach yn cwblhau 100 o oriau o waith di-dâl gyda chymorth gan fentor a drefnwyd gan yr elusen.

### **Astudiaeth Achos**

Mae Vernon, sydd ag awtistiaeth, yn derbyn cymorth gan y tîm anableddau dysgu cymunedol. Maent yn cydgysylltu â'r rheolwr troseddwr, fel y gellir cyflwyno gwaith ymddygiad troseddol, a gwblheir ar sail un-i-un, mewn ffordd sy'n ddealladwy. Dywed Vernon fod ei reolwr troseddwr yn gwneud yr hyn y gall i'w gynorthwyo a diwallu ei anghenion, ynghyd â chyngor gan y gwasanaeth anableddau dysgu.

- 5.20 Siomedig oedd gweld, mewn 23 allan o 60 o achosion (38%), fod troseddwr ag anabledd dysgu wedi aildroseddu yn ystod eu gorchymyn cymunedol neu drwydded. Yn wyneb y diffyg gwaith a oedd yn canolbwyntio ar droseddu yn ystod y ddedfryd a chymorth gofal cymdeithasol oedolion yn y gymuned, ni chredwn ei bod yn syndod fod llawer o'r troseddwr hyn yn debygol o wneud camgymeriadau tebyg i'r rhai a wnaeth arwain at eu collfarn wreiddiol.

### **Asesu, cynllunio ac ymyraethau yn y ddaifa**

- 5.21 Fel yn y gymuned, yn y mwyafrif o'r achosion a arolygwyd roedd y goruchwyliwr troseddwr yn sylweddoli bod gan garcharor anabledd dysgu yn ystod asesiad aildroseddu cychwynnol OASys ac wrth ystyried y ffactorau risg o niwed. Mewn ychydig dros hanner yr holl achosion, roedd gwybodaeth ar gael yn yr adroddiad cyn dedfrydu neu adroddiad arbenigol arall a oedd yn cael ei baratoi ar gyfer y gwrandawriad llys. Fodd bynnag, mewn chwarter o'r achosion perthnasol, nid oedd yr wybodaeth ond ar gael oherwydd ei bod wedi cael ei datgelu gan y troseddwr yn y cyfarfod asesu cychwynnol. Mewn achosion eraill, roedd gwybodaeth wedi cael ei darparu gan berthnasau'r troseddwr neu asiantaethau eraill.
- 5.22 Ym mhob achos ond dau, ni ddaeth gwybodaeth am anabledd dysgu'r troseddwr i'r amlwg ond ar OASys, neu systemau rheoli achosion eraill. Nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau bob amser drwy gydol y gorchymyn. Nid oedd staff perthnasol eraill o fewn y carchar yn gyffredinol yn cael gwybodaeth am anableddau dysgu carcharorion. Ym mhob achos ond un roedd y risg o niwed difrifol a aseswyd yn gywir. Yn yr achos arall, roeddem o'r farn fod y lefel risg a aseswyd yn rhy uchel. Roedd y mwyafrif o garcharorion yn ein harolygiad wedi cael eu hasesu fel rhai a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol.
- 5.23 Er bod y mwyafrif o oruchwyliwr troseddwr yn gwybod am anabledd dysgu troseddwr canfuom fod bron i hanner yr asesiadau heb gynnwys cofnod amdano. Mewn cyfran debyg o achosion, nid oedd unrhyw adolygiad o'r asesiad yn dilyn newid yn amgylchiadau'r carcharor.

- 5.24 Roedd cynlluniau dedfrydau a oedd yn rhoi ystyriaeth i anabledd dysgu'r carcharor, neu'n cynnwys ymyrraeth a oedd yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion penodol y carcharor, mewn llai na hanner yr achosion y gwnaethom eu harolygu.

**Enghraifft o arfer dda: Gweithio ar y cyd i ddiwallu anghenion y carcharorion**

Roedd Michael, 43 oed, yn cyflawni ei ddedfryd gyntaf (am drosedd rywiol). Wrth gyrraedd y carchar, cafodd staff wybod bod ganddo IQ isel iawn a bod adroddiad anableddau dysgu arbenigol wedi cael ei baratoi ar gyfer y llys. Rhoddwyd pecyn gofal at ei gilydd i sicrhau bod Michael yn cael ei gadw'n ddiogel, a bod ei anghenion, gan gynnwys mynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol, yn cael eu diwallu. Goruchwyliwr troseddwyr Michael oedd yr allwedd i lwyddiant y cynllun a chadwodd gyswllt agos â holl staff perthnasol y carchar a dau fentor carcharorion.

- 5.25 O'r carcharorion hynny a oedd wedi cael eu dedfrydu y gwnaethom eu cyfweld, nid oedd pob un yn gwybod am unrhyw gynllun dedfryd a allai fod ar waith ar eu cyfer. Roedd rhai carcharorion yn meddwl nad oedd ganddynt gynllun gofal, tra bod eraill yn meddwl efallai bod un ganddynt ond na allent ddweud wrthym beth oedd y targedau ar y cynllun hwnnw.

*"Ddim wir. Dw i ddim yn eu deall nhw [nodau] gan eu bod yn eu newid nhw o hyd. Dw i ddim yn gwybod beth sydd ymlaen yno ar y funud. Dyw OMU hyd yn oed ddim yn gwybod beth ydyn nhw."*

- 5.26 Roedd rhai carcharorion yn gallu dweud wrthym am eu cynlluniau dedfryd a'r targedau'r oedd yn rhaid iddynt eu cyrraedd, ond teimlai llawer nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y broses.

*"Mae fy nghynllun dedfryd yn dweud bod yn rhaid imi wneud mathemateg. Doedd gen i ddim rhan yn y cynllun â dweud y gwir. Y cyfan dw i'n ei wybod yw fod yn rhaid imi wneud mathemateg."*

- 5.27 Fe wnaeth rhai carcharorion fynegi pryder a dryswch ynghylch pa effeithiau'r oedd eu hanabledd dysgu yn eu cael ar weithio tuag at gyrraedd nodau eu cynllun dedfryd a chamu ymlaen trwy gyfundrefn y carchar.

*"Maen nhw'n dweud fod gen i ddiffyg empathi tuag at fy nioddefwyr – mae gen i Asperger's!"*

*"Fe ges i diagnosis o anableddau dysgu ac fe ddywedon nhw oherwydd hynny na ddylwn i fod wedi gwneud ETS [Gwell Sgiliau Meddwl]. Maen nhw'n dal i ddweud bod yn rhaid imi wneud cwrs cyffuriau ond dw i wedi bod yn lân am 20 mlynedd. Dim byd newydd [o ran nodau cynllun dedfryd] ers imi gael diagnosis [o awtistiaeth ac anabledd dysgu]. Maen nhw wedi dweud wrtha i fod pob dim dw i eisoes wedi'i wneud allan drwy'r ffenest [yn sgil fy diagnosis]."*

*"Fe wnes i ddweud wrthyn nhw [OMU a'r gwasanaeth prawf] am fy anabledd dysgu ond fe ddywedon nhw nad oeddent nhw'n fodlon rhoi ystyriaeth iddo. Dw i ddim am allu eu cyrraedd nhw [fy nhargedau]. Dw i wedi bod i mewn dair blynedd a dw i'n dal heb wneud dim byd."*

- 5.28 Roedd arnom eisiau darganfod faint o wybodaeth a oedd yn cael ei chofnodi gan oruchwylwyr troseddwyr am garcharorion. Canfuom rai cofnodion gan oruchwylwyr troseddwyr mewn ffeiliau adain carcharorion, er bod y rhain yn amrywio yn eu hansawdd. Roedd y mwyafrif yn gofnodion cryno, ymarferol, ond roedd rhai enghreifftiau o oruchwylwyr troseddwyr oedd â dealltwriaeth dda o'r unigolyn ar eu llwyth achosion, gan gynnwys gwybodaeth am eu hamgylchiadau ac, mewn rhai achosion, byddai goruchwylwyr troseddwyr yn gweithredu ar ran carcharorion i drefnu pethau ar eu cyfer yn y carchar.

### **Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth**

- 5.29 Yn y carchardai yr ymwelasom â hwy, canfuom fod gweithgareddau mewn cyfleoedd gwaith, hyfforddiant ac addysg a oedd yn hygyrch i garcharorion ag anabledd dysgu, hyd yn oed lle nad oedd y rhain wedi cael eu haddasu'n benodol. Yn ein cyfweiliadau gyda charcharorion, dywedodd y mwyafrif wrthym eu bod yn ymwneud â rhyw fath o waith, hyfforddiant neu addysg. Roedd pum carcharor a ddywedodd wrthym nad oedd hyn yn digwydd; roedd un o'r rhain newydd gyrraedd yn carchar ac un a oedd yn disgwyl am gael ei drosglwyddo. Dywedodd y tri charcharor arall wrthym eu bod yn awyddus i gael cymryd rhan mewn gweithgaredd ond nad oeddent wedi gallu gwneud hynny.
- 5.30 Er bod y gyfran o atgyfeiriadau at wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i garcharorion ag anableddau dysgu yn debyg i'r hyn oedd i boblogaeth gyffredinol carchardai, mae hwn yn grŵp o garcharorion a fyddai'n cael budd mawr o ymyraethau addysg sylfaenol. Dim ond mewn 11 allan o 19 o achosion perthnasol a arolygwyd yr oedd y carcharor wedi cael ei helpu i gael at wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y carchar. Ym mhob un o'r achosion hyn, roedd tystiolaeth dda fod y carcharor wedi elwa ar gefnogaeth mentor gymheiriaid. Roedd nifer o garchardai'n rhedeg y cynllun Toe-by-Toe, lle'r oedd carcharorion yn cael eu cynorthwyo gan garcharor arall i wella'u darllen; roedd carcharorion y gwnaethom eu cyfweld a oedd wedi bod yn ymwneud â'r cynllun hwn yn dweud pethau cadarnhaol am yr help a roddwyd iddynt gan eu mentoriaid.
- 5.31 Canfuom amryw o enghreifftiau o addasiadau pragmataidd ar waith, a oedd wedi eu cynllunio i helpu carcharorion a allai ei chael yn anodd. Er enghraifft, roedd rhai carchardai'n adnabod carcharorion y gallai fod angen cymorth arnynt ac yn gweithio gyda hwy mewn grwpiau bach, neu'n rhoi gwaith wedi'i addasu ar eu cyfer. Addasiad cyffredin oedd cynnwys seibiau mewn sesiynau addysg i garcharorion a oedd yn anawsterau wrth ganolbwyntio. Dull arall o ymdrin â hyn mewn un carchar oedd dyrannu sesiynau'n hyblyg, fel y gallai carcharorion symud rhwng gweithgareddau. Roedd un carchar wedi byrhau sesiynau i rai carcharorion, gan sicrhau nad oedd unrhyw effaith negyddol ar y tâl yr oeddent yn ei dderbyn.
- 5.32 Roedd carcharorion yn aml yn enwi aelod o staff addysg a oedd yn gweithio'n agos gyda hwy i ddarparu cymorth mewn dosbarthiadau. Mewn rhai achosion, dywedodd carcharorion wrthym y byddai staff addysg yn rhoi help ychwanegol iddynt gyda ffurflenni, llythyrau a cheisiadau lle'r oedd lefelau llythrennedd yn isel, neu'n ymweld â hwy ar yr adain. Roedd gan lawer o adrannau addysg dimau cymorth dysgu a oedd yn rhoi help mewn dosbarthiadau i garcharorion ag amrywiaeth helaeth o anawsterau, nid anabledd dysgu yn unig.
- 5.33 Roedd gweithwyr cymorth dysgu ym mhob carchar yr ymwelsom ag ef yn ystod ein gwaith maes ac roedd gan y mwyafrif gyfuniad o weithwyr llawn-amser, rhan-amser a gwirfoddol. Yn y mwyafrif o achosion, nid oedd y cymorth a ddarperid yn benodol ar gyfer

anawsterau dysgu, ond yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer amryw o wahanol anghenion cymorth dysgu.

- 5.34 Yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwy Ifanc Parc, canfuom fod gweithwyr cymorth carcharorion yn cael eu neilltuo ar gyfer carcharorion penodol ag anabledd dysgu ac yn mynd gyda hwy ar eu gweithgareddau. Roedd athro partner penodol ar gyfer Cefnogaeth gan Gymheiriaid a oedd yn goruchwyllo'r defnydd o weithwyr cymorth carcharorion mewn addysg a gweithgareddau. Roedd y cefnogwyr yn eu helpu hwy gyda thasgau, yn cyfryngu gydag athrawon a hyfforddwyr ac yn cyfathrebu gyda charcharorion eraill lle'r oedd angen.
- 5.35 Mewn dau garchar arall yr ymwelasom â hwy, canfuom hefyd hyfforddiant ffurfiol i garcharorion i'w galluogi hwy i gefnogi carcharorion eraill ag anableddau dysgu mewn addysg a chymorth ystafell ddothbarth, er nad oedd y gweithwyr cymorth hyn yn cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer carcharorion penodol.
- 5.36 Mewn un carchar, roedd cyfleuster dysgu therapiwtig pwrpasol yn darparu gweithgareddau celf a chreffft, dysgu sgiliau cyfathrebu a sgiliau sylfaenol. Roedd gwaith sgiliau isel ar gael ac roedd cyfleoedd dilyniant wrth i sgiliau ddatblygu. Roedd carchar arall yn darparu cyrsiau pwrpasol mewn pynciau fel byw annibynnol, rheoli arian a byw yn y gymuned. Mewn un carchar, roedd carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithdy hyd yn oed os nad oedd ganddynt y lefel angenrheidiol o sgil i gwblhau'r cymhwyster. Roedd gan rai carchardai gyrsiau campfa a oedd wedi eu teilwra i'r unigolyn fel y gallent roi ystyriaeth i unrhyw anghenion penodol.

### **Rhaglenni ymddygiad troseddol**

- 5.37 Mewn dau achos yn y sampl, roedd y carchardai wedi addasu rhannau o'r rhaglenni sgiliau meddwl i ddiwallu anghenion penodol y carcharorion penodol. Er bod hyn yn enghraifft o arferion da, nid yw'n cymryd lle'r angen i NOMS sicrhau bod amrywiaeth addas o raglenni i ddiwallu anghenion pob carcharor ag anableddau dysgu neu broblemau cyfathrebu. Fel yn y gymuned, yr unig raglen a addaswyd sydd ar gael ar hyn o bryd oedd gwaith grŵp ar gyfer troseddwy rhyw: *Becoming New Me*. Nid oedd hyn ar gael yn unrhyw un o'r carchardai yr ymwelwyd â hwy. O ganlyniad, byddai carcharor yr oedd arno angen hyn yn gorfod trosglwyddo i garchar arall, a allai fod ymhell i ffwrdd oddi wrth eu teulu.

#### **Enghraifft o arfer dda: Trefnu bod grwpiau ymddygiad troseddol ar gael i bawb**

Yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwy Ifanc Parc, roedd tiwtoriaid y Grŵp Ymddygiad Troseddol yn cyfarfod pob pythefnos i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn ffordd a oedd yn diwallu anghenion pawb o'r rheini a oedd yn ei dilyn, gan gynnwys y rheini ag anabledd dysgu. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio taflenni gwaith Easy Read a lluniau yn lle geiriau ar siartiau troi.

- 5.38 Mewn dau yn unig o'r achosion a arolygwyd y canfuom dystiolaeth fod rhaglenni a addaswyd neu waith un-i-un wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol y carcharor. Ar adeg y gwaith maes, ni siaradasom ag unrhyw garcharorion a oedd yn ymwneud â rhaglen ymddygiad troseddol ar y pryd, er i rai carcharorion ddweud wrthym eu bod yn disgwyl am gychwyn ar gwrs.



*"Fe welais i fy ngoruchwyliwr troseddwr – mae ganddyn nhw bryderon am fy mod i mewn therapi grŵp. Maen nhw'n gweld os alla i ei wneud un-i-un. Dw i wedi gwneud [prawf] addasrwydd ar gyfer SOTP ond dw i ddim yn meddwl y gallwn i ddygymod mewn grŵp."*

- 5.39 Ni chanfuom dystiolaeth yn unrhyw un o'r carchardai yr ymwelasom â hwy eu bod yn casglu data ar y nifer o garcharorion ag anabledd dysgu a fyddai'n elwa o fod ar raglen wedi'i haddasu. Nid oeddent, felly, yn gwybod graddfa'r angen na'r canlyniad posibl y gellid ei gyflawni trwy ddatblygu rhaglenni o'r fath.
- 5.40 Ar adeg y dedfrydu, dywedir wrth garcharorion faint o amser y maent yn debygol o'i dreulio yn y carchar; i garcharorion hirdymor naill ai ar ddedfryd oes neu ar ddedfryd amhenodol i gwarchod y cyhoedd (IPP), mae rhyddhau'n ddibynnol ar fod y carcharor wedi mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Ychydig dros hanner y carcharorion yn ei sampl achosion yn y ddalfa oedd yn cyflawni dedfrydau penodol; fodd bynnag, roedd ychydig o dan eu hanner yn cyflawni dedfrydau amhenodol i warchod y cyhoedd.
- 5.41 Mae'n ofynnol i garcharorion sy'n cyflawni dedfrydau amhenodol ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol cyn eu bod yn gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar ar parôl. Felly, mae'r cyfle i fanteisio ar bob math o raglenni ymddygiad troseddol yn hanfodol. Canfuom fod carcharorion ag anabledd dysgu yn aml yn cael eu hystyried yn anaddas ar gyfer unrhyw raglenni grŵp ond ychydig iawn o raglenni wedi'u haddasu a oedd ar gael ac nid oedd fawr ddim rhaglenni'n cael eu cyflwyno mewn sesiynau un-i-un.
- 5.42 Cyfarfuom ag amryw o garcharorion a oedd yn cyflawni dedfrydau amhenodol a oedd dros eu tariff gwreiddiol. Dywedodd y carcharorion hyn wrthym eu bod wedi cyrraedd y targedau ar eu cynlluniau dedfryd ond nad oeddent yn gallu camu ymlaen.

*"Wedi gwneud y cyfan. Fe wnaethon nhw ei roi imi a dweud y byddai'n rhaid i mi ei wneud. Fe wnaethon nhw ei roi imi cyn fy nhariff. Fe wnes i'r Rhaglen Sgiliau Meddwl 2010, roedd fy nhariff i fyny yn 2009."*

*"Dwy flynedd a hanner yw fy nhariff a dw i wedi bod yma saith."*

*"Y cyrsiau y gwnes i eu crybwyll ynghynt, ond dw i wedi eu gwneud nhw i gyd a does gen i ddim mwy i'w wneud. Dw i naw mlynedd i mewn i ddedfryd garchar o ddwy flynedd a hanner."*

### **Astudiaeth achos**

Roedd un dyn y cyfwelasom ag ef, Kyle, 15 mlynedd dros ei dariff gwreiddiol. Roedd wedi bod yn yr un carchar ers 13 mlynedd ond roedd yn ddiweddar wedi derbyn diagnosis o awtistiaeth ac anableddau dysgu. Ers y diagnosis hwn, cytunwyd mai 'newid lleoliad' fyddai fwyaf addas i Kyle ac ar adeg y cyfweliad roedd ar fin cael ei drosglwyddo i le mewn ysbyty.

*"Dw i'n dal yn yr un cwch; dw i ddim wedi symud ymlaen. Dw i 15 mlynedd dros y tariff a dw i wedi cael fy nal yn y canol."*

## Casgliad

Hyd yn oed pan oedd rheolwyr troseddwr yn gwybod bod gan droseddwr anabledd dysgu, yn aml nid oeddent yn ei ystyried yn ddigon pwysig i'w gynnwys mewn asesiad neu gynllun dedfryd. Mae methu ag asesu anghenion troseddwr a rhoi sylw iddynt yn ei gwneud yn fwy tebygol na fydd yr anghenion hynny'n cael eu diwallu. Mae hyn yn arbennig o wir o ran sut mae anableddau dysgu'r troseddwr yn debygol o effeithio ar eu gallu i gydweithredu'n llawn yn eu gorchymyn. Mae'r methiant hwnnw'n gwneud cydymffurfio da a chanlyniadau cadarnhaol o ran aildroseddu a rheoli risg o niwed yn annhebygol.

Roedd cynlluniau dedfrydau mewn carchardai hefyd yn methu â rhoi ystyriaeth i anabledd dysgu'r carcharorion. Yn gyffredinol, roedd hyn oherwydd nad oedd yr wybodaeth hon ar gael i'r goruchwyliwr troseddwr neu eraill a oedd yn gweithio gyda'r carcharor. O ganlyniad, roedd cynllun y ddedfryd yn methu â rhoi ystyriaeth i sut y byddai anbledd y carcharorion yn effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn gwaith i leihau eu haildroseddu pan gânt eu rhyddhau.

Roedd rheolwyr troseddwr yn y gymuned yn aml yn cael eu llethu gan anghenion gofal cymdeithasol y troseddwr ac yn llawer rhy aml yn treulio'u hamser yn ymdrin â'r anghenion hynny yn hytrach nag ymddygiad troseddol. Mae hyn yn ddealladwy, gan fod llawer o'r anghenion a oedd yn codi yn ymddangos yn rhai brys, ac yn aml nid oedd neb arall ar gael i helpu'r troseddwr. Fodd bynnag, roedd angen i waith i leihau aildroseddu fod yn gydbwysedd o gymorth i'r troseddwr a gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddau.

Nid oedd dim un o'r carchardai na'r ymddiriedolaethau prawf yr ymwelasom â hwy yn cadw data ar y nifer o droseddwr ag anabledd dysgu a fyddai wedi cael budd o ddilyn rhaglen ymddygiad troseddol wedi'i haddasu. Roedd, felly, yn annhebygol iawn y byddent yn gwybod graddfa'r angen nas diwellir na'r effaith yr oedd hyn yn debygol o'i gael ar aildroseddu. Roedd yn amlwg hefyd mai ychydig iawn o werthuso effaith ymyraethau a oedd wedi digwydd, yn y gymuned nac yn y ddalfa.

Tystiolaeth gyfyngedig yn unig a ganfuom o ymyraethau'n diwallu anghenion penodol carcharorion ag anableddau dysgu, ac roedd y broblem hon yn cael ei chymhlethu gan y methiant ar gam cyntaf y ddedfryd, lle'r oedd methiant i sgrinio ac adnabod anableddau dysgu. Mae hyn yn debygol o arwain at ddefnydd aneffeithiol o adnoddau trwy osod gormod o garcharorion ar raglenni ymddygiad troseddol neu ymyraethau eraill nad ydynt yn debygol o gael budd ohonynt.

Er bod y methiant i asesu a chynllunio yn cyfrannu at fethiant i gyflawni ymyraethau effeithiol, roedd y diffyg rhaglenni ymddygiad troseddol addas ar gyfer pob carcharor yn broblem fwy fyth. Fel y nodir yn glir yn NOMS *PSI 32/2011*, mae dyletswydd ar bob carchar i wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd y maent yn cyfathrebu gyda charcharorion ag anabledd dysgu. Dylai hyn gynnwys cyflwyno rhaglenni ymddygiad troseddol. Yn llawer rhy aml canfuom fod staff a rheolwyr carchardai'n defnyddio'r diffyg rhaglenni wedi'i haddasu sydd ar gael fel rheswm dros wneud dim neu fawr ddim i'r grŵp hwn o garcharorion. Fodd bynnag, o ran eu cynnwys mewn gwaith, hyfforddiant ac addysg, roedd rhai dulliau cadarnhaol i alluogi carcharorion ag anableddau dysgu i chwarae rhan lawn – roedd hyn yn cynnwys cymheiriaid mentora a chynlluniau cymorth, teilwra'r ffordd o gyflwyno sesiynau a thimau cymorth dysgu.

Ychydig o dystiolaeth a ganfuom o strategaethau gadael i droseddwr ar ddiwedd eu dedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar; roedd hyn wedyn yn arwain at fethiant i baratoi carcharorion yn ddigonol ar gyfer eu dychweliad diogel i'r gymuned. Mae i hyn y risg o osod y troseddwr hyn yn ôl i'r un amgylchiadau a gyfrannodd at eu troseddu gwreiddiol.

## Argymhellion

### Camau i'w cymryd gan Lywodraethwyr Carchardai:

- sicrhau bod ymyraethau perthnasol wedi'u haddasu ar gael i garcharorion ag anabledd dysgu yn ystod dedfrydau yn y ddalfa
- gwerthuso effaith gwaith gyda throseddwy'r ag anableddau dysgu.

**Camau i'w cymryd gan y Cyfarwyddwr Prawf a Gwasanaethau a Gontractir, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r yng Nghymru a phrif weithredwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:**

- sicrhau bod asesiadau yn y gymuned yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith y gall anabledd dysgu defnyddiwr gwasanaethau ei gael ar eu gallu i ymatal rhag troseddu ac ufuddhau i ofynion eu dedfryd
- sicrhau bod ymyraethau perthnasol wedi eu haddasu ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag anabledd dysgu yn ystod eu dedfryd gymunedol
- gwerthuso effaith gwaith gyda throseddwy'r ag anableddau dysgu.

## Atodiad 1: Geirfa

ACCT	Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm, rheolaeth achosion carcharorion sydd mewn perygl o hunan-laddiad neu hunan-niweidio.
Ymyrraeth a addaswyd	Gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddau ac sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion troseddwr ag anabledd dysgu .
Safle cymeradwy	Mae safleoedd cymeradwy yn darparu llety hostel a chymorth i droseddwyr, gan gynnwys carcharorion sydd wedi cael eu rhyddhau a'r rheini ar gosbau cymunedol, yn enwedig y rheini sy'n peri risg uchel o niwed i eraill. Gall fod safleoedd cymeradwy yn cael eu rhedeg naill ai gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaetehol neu asiantaethau gwirfoddol.
ASD	Anhwylder sbectrwm awtistiaeth.
CPN	Nyrs Seiciatrig Gymunedol: mae'n darparu asesiadau a chymorth i oedolion ag anableddau iechyd meddwl neu ddysgu sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu.
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	Sefydlwyd 21 o gwmnïau o'r fath ym mis Mehefin 2014, i reoli'r mwyafrif o droseddwyr sy'n peri risg isel neu ganolig o niwed difrifol.
ETE	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu unigolyn, a chynyddu eu rhagolygon o gyflogaeth.
HM	Ei Mawrhydi.
HMP	Carchar Ei Mawrhydi.
HMI Prisons	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.
HMI Probation	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
IEP	Cymhelliannau a Breintiau a Enillir: trefn o reoli carchar sy'n hyrwyddo ymddygiad cydymffurfiol trwy ddewis rhesymegol. Mae carcharorion yn ennill buddion yn gyfnewid am ymddygiad cyfrifol.
IMB	Bwrdd Monitro Annibynnol: Mae aelodau'r IMB yn annibynnol, a'u rôl yw monitro bywyd o ddydd i ddydd yn eu carchar neu ganolfan waredu mewnfudo lleol a sicrhau bod safonau priodol o ofal a gweddustder yn cael eu cynnal.
IQ	<i>Intelligence Quotient</i> : mae ei sgôr yn deillio o un o amryw o brofion safonol a gynlluniwyd i asesu deallusrwydd dynol.
IPP	Dedfryd amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd: cyflwynwyd trwy <i>Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003</i> , sy'n rhoi grym i lysoedd i ddedfrydu troseddwr treisgar neu rywiol parhaus i'r ddalfa hyd nes bydd eu risg o beri niwed i eraill yn lleihau.

Ymyraethau; ymyraethau adeiladol a chyfyngol	<p>Gwaith gydag unigolyn sydd wedi cael ei gynllunio i newid ei ymddygiad troseddol a/neu i helpu gwarchod y cyhoedd.</p> <p>Ymyrraeth adeiladol yw lle mai'r prif ddiben yw lleihau aildroseddu.</p> <p>Ymyrraeth cyfyngol yw lle mai'r prif ddiben yw cadw i isafswm risg yr unigolyn o beri niwed i eraill.</p> <p>Enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai ymyrraeth adeiladol fod yn un i'w rhoi trwy rhaglen achrededig ar gyfer troseddwr rhywiol; gallai ymyrraeth gyfyngol (i leihau eu risg o beri niwed) olygu monitro, yn rheolaidd a thrylwyr, eu llety, eu manau gwaith a'r manau y maent yn eu mynychu, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n addas i bob achos.</p> <p>Noder. Mae'r ddau fath o ymyrraeth yn bwysig.</p>
LDN	Nyrs Anabledau Dysgu: nyrs gymwysedig sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl sydd ag anabledau dysgu.
LDSQ	Holiadur Sgrinio Anabledau Dysgu: holiadur syml a ddefnyddir gydag unigolion i roi arwydd o anawsterau dysgu posibl.
LSAB	Bwrdd Lleol Diogelu Oedolion: a sefydlwyd ym mhob awdurdod lleol i gydgyssylltu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith amlasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion agored i niwed yn yr ardal honno.
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, y carchar ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill.
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr: Yr asiantaeth sengl sy'n gyfrifol am garchardai ac am gyflwyno gwasanaethau prawf yn y gymuned.
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	<p>Gwasanaeth cenedlaethol sengl a ddaeth i fodolaeth ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw cyflwyno gwasanaethau i lysoedd ac i'r bwrdd parôl; a rheoli grwpiau penodol o droseddwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y rheini sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol.</li> <li>• Y rheini a reolir o dan drefniadau MAPPA.</li> <li>• Y rheini â sgôr RSR o dros 6.89%.</li> <li>• Y rheini sy'n gymwys i'w hallgludo.</li> <li>• Y rheini sy'n destun dedfryd wedi'i gohirio.</li> <li>• Y rheini lle mae 'budd y cyhoedd' yn yr achos.</li> </ul>
OMU	Uned Rheoli Troseddwr, adran mewn carchar sy'n gyfrifol am gynllunio dedfryd carcharor a chydgyssylltu â rheolwr troseddwr yn y gymuned i baratoi ar gyfer rhyddhau'r carcharor.

Categoriâu carchardai	<p>Caiff carchardai eu categorreiddio yn ôl y math o garcharor y maent yn eu lletya fel a ganlyn:</p> <p>Categori A – carcharorion ar y categori uchaf o risg diogelwch y byddai iddynt ffoi yn beryglus iawn.</p> <p>Categori B – carcharorion nad yw'r amodau uchaf o ddiogelwch yn angenrheidiol ar eu cyfer, ond sy'n rhaid ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt ffoi.</p> <p>Categori C – carcharorion na ellir ymddiried ynddynt mewn amodau agored ond nad oes ganddynt yr ewyllys na'r adnoddau i wneud ymgais benderfynol i ffoi.</p> <p>Categori D – carcharorion y gellir ymddiried yn rhesymol ynddynt i gyflawni eu dedfryd mewn amodau agored.</p>
PPO	Ombwdsmon Carchardai a Phrawf: mae'n archwilio cwynion gan garcharorion, y rheini ar brawf a'r rheini a ddelir mewn canolfannau gwaredu mewnfudo. Mae hefyd yn archwilio pob marwolaeth sy'n digwydd ymysg carcharorion, mewnfudwyr sy'n cael eu cadw ac mewn Safleoedd Cymeradwy.
PSR	Adroddiad cyn-dedfrydu: ar gyfer llys.
Risg o niwed i eraill	Hwn yw'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith i warchod y cyhoedd, yn bennaf trwy ddefnyddio ymyraethau cyfyngol, i gadw i isafswm gyfle'r unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg o niwed i eraill.
RoSH	Risg o niwed difrifol: term a ddefnyddir yn OASys. Caiff pob achos eu dosbarthu fel rhai sy'n peri risg isel/canolog/uchel/uchel iawn o niwed difrifol i eraill. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn defnyddio'r term hwn wrth gyfeirio at y system ddosbarthu, ond mae'n defnyddio'r term ehangach risg o niwed wrth gyfeirio at y dadansoddiad sy'n gorfod digwydd er mwyn penderfynu lefel y dosbarthiad. Mae hyn yn helpu egluro'r gwahaniaeth rhwng y tebygolrwydd o ddigwyddiad yn digwydd ac effaith/difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r term Risg o Niwed Difrifol yn ymwneud ag effaith 'difrifol' yn unig, lle bo defnyddio 'risg o niwed' yn galluogi i sylw angenrheidiol gael ei roi i'r rheini.
RSR	Risg o Atgwympo Difrifol ( <i>Risk of Serious Recidivism</i> ): Cyfrifiad actiwaraidd o'r tebygolrwydd o'r troseddwr yn cael ei gollfarnu am drosedd rywiol neu dreisgar ddifrifol; cyflwynwyd y cyfrifiad hwn ym mis Mehefin 2014 fel proses ofynnol wrth gweithredu Gweddnewid Adsefydlu.
Diogelu	Y gallu i ddangos bod pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd i gadw i'r isafswm y risg o oedolyn bregus ddiodef niwed.
SLP	Cynllun Byw â Chymorth: cynllun a gaiff ei lunio gan ddarparwyr gofal cymdeithasol i helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw yn y gymuned.
YOI	Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

## Atodiad 2: Rôl yr arolygiaethau a chod ymddygiad

### Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae gwybodaeth ar Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymddygiad ar gael ar ein gwefan:

[www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation](http://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation)

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiaeth, adroddiad neu unrhyw fater o fewn ei gylch gwaith, ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation  
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre  
1 Bridge Street West  
Manchester, M3 3FX*

### Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Mae gwybodaeth ar Rôl Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Cod Ymddygiad ar gael ar eu gwefan:

[www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprison](http://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprison)

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiaeth, adroddiad neu unrhyw fater o fewn ei gylch gwaith, ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Prisons  
Victory House, 6th Floor, 30-34 Kingsway  
London, WC2B 6EX*